# Adroddiad Adolygiad

## Strategaeth Iaith Ceredigion

## 2018-23



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Awdur:  Carys Lewis Morgan

Dyddiad cymeradwywyd gan Fforwm Dyfodol Dwyieithog: 25 Mai 2023
Dyddiad cymeradwywyd gan Cabinet: 6 Mehefin 2023
Dyddiad Cyhoeddi: 6 Mehefin 2023

## Cyflwyniad:

Dyma gyflwyno adroddiad sy'n adolygu Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-2023, ac yn asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg rhif 145 a 146.

Cafodd Strategaeth Iaith Ceredigion ei ddatblygu fel ymateb i un o ofynion Safonau'r Gymraeg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod statws statudol i'r iaith Gymraeg, ac mae'n gosod yr egwyddor:

- Yng Nghymru, ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg
- Dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny.

<u>Gofyniad Safonau'r Gymraeg ar Gyngor Sir Ceredigion</u>

Safonau Iaith rhif 145 ac 146 sy'n gosod y ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddatblygu Strategaeth Iaith. Dyma'r gofyniad:

**Safon 145:**

Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) -
(a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw,
(b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw

**Safon 146**

Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi -
(a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi
(b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn:
(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;
(ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg

Nod yr adolygiad hwn yw asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg rhif 145 a 146

Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Adran 1 | Crynodeb | 4 |
| Adran 2 | Deddfwriaeth a Chyd-destun Polisi | 5 |
| Adran 3 | Crynodeb o’r cyflawniadau. [Adroddiad llawn yn Atodiad 1] | 9 |
| Adran 4 | Targed a Mesur Perfformiad | 19 |
| Adran 5 | Adborth gan Bartneriaid | 28 |
| Adran 6 | Casgliadau | 32 |
| Atodiad 1 | Adroddiad llawn ar y Cyflawniadau | |


Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais. This document is available in English, and in other languages and formats on request.

# PENAWDAU ALLWEDDOL
# Cyfrifiad 2021

**31,678**

o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion

(Mawrth 2021)

**45.3%**

o boblogaeth Ceredigion yn nodi eu bod yn medru siarad Cymraeg

**2.0**

gostyngiad pwynt canrannol yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg ers 2011

**-3,286**

siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion ers 2011

**59.0%**

Yn medru siarad Cymraeg yn AGEHI Aberaeron, y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg ar draws y Sir

(Yr isaf yw AGEHI Penglais 1 19.7%)

**Dadansoddiad sgiliau**

Siarad Cymraeg – 45.3%
Medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg – 37.3%
Dim sgiliau Cymraeg – 43.6%

**46.7%**

o breswylwyr Ceredigion yn meddwl am eu hunain fel Cymry yn unig

(Mae hyn wedi cynyddu 0.1 pwynt canran ers Cyfrifiad 2011)

**Dadansoddiad yn ôl oedran**

3-15 – 71.8%
16-64 – 42.4%
65+ - 39.9%

# ADRAN 1

## Crynodeb

Cafodd Strategaeth Iaith Ceredigion ei chyhoeddi yn gynnar yn 2018, yn dilyn cyfres o grwpiau ffocws ac ymgynghoriad cyhoeddus. Er mwyn cyflawni'r Strategaeth, cymerwyd camau i ddiwygio aelodaeth grŵp partneriaeth y Gymraeg yng Ngheredigion, gan ehangu'r aelodaeth a chryfhau Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion. Mae'r Fforwm wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd oddi ar cyhoeddi'r Strategaeth, er mwyn mynd i'r afael â'r gofynion.

Caiff y Fforwm ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb am Ddiwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid sydd hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Iaith y Cyngor. Mae'r Grŵp yn cynnwys Swyddogion o'r Cyngor, cynrychiolwyr o sefydliadau cyhoeddus y Sir, ynghyd a'r sefydliadau hynny sy'n gweithio er mwyn hyrwyddo defnydd y Gymraeg ar draws y Sir. Mae pob sefydliad wedi ymrwymo i gyflawni'r cynllun gweithredu.

Prif nod Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23 oedd anelu at ehangu'r defnydd o'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd y Sir, a cheisio cynyddu'r nifer sy'n ei siarad unwaith yn rhagor. Gosodwyd tri maes strategol i'w gyflawni yn rhan o'r strategaeth:

- Cynyddu sgiliau iaith trigolion Ceredigion
- Cynnal a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion mewn amrywiol gyd-destunau
- Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion

Er mwyn cyflawni'r nodau strategol hyn, mae'r Cyngor ynghyd â sefydliadu partner wedi bod yn gweithio i gyflawni cynllun gweithredu. Caiff y camau gweithredu eu hadolygu'n gyson yn Fforwm Dyfodol Dwyieithog, a darperir adroddiadau cryno yn rhan o Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg yn flynyddol at sylw Comisiynydd y Gymraeg.

Mae'r adroddiad mewn dau rhan:

- Adroddiad Adolygu Strategaeth Iaith: sy'n adrodd ar ein dulliau o weithredu, ynghyd â'r dulliau o fesur canlyniadau
- ATODIAD 1: Adroddiad ar Gyflawniad Strategaeth Iaith: sy'n adrodd ar yr holl weithgareddau a drefnwyd er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

Yn yr adroddiad darperir eglurder o ran gweithrediad y Strategaeth Iaith mewn cyd-destun Polisïau Cenedlaethol a Lleol, gweler **Adran 2.** Yn **Adran 3,** cyflwynir adroddiad cryno ynghylch cyflawniad y Strategaeth Iaith, gan gynnwys adroddiad llawn ar yr holl weithgareddau a drefnwyd yn **Atodiad 1.**

Hefyd, yn rhan o'r adroddiad hwn, rydym wedi bod yn casglu ynghyd y data sydd ar gael er mwyn ceisio cynnig dadansoddiad ynghylch sefyllfa'r Gymraeg yng Ngheredigion. Rhyddhawyd adroddiadau cynnar Cyfrifiad 2021 ynghylch niferoedd sy'n medru'r Gymraeg ar draws Cymru ar y 5ed o Ragfyr 2022. Ceir adroddiad ar sefyllfa'r Gymraeg yng Ngheredigion yn **Adran 4.**

At hyn er mwyn adolygu cyrhaeddiad y Strategaeth ynghyd â threfniadau cylch gwaith Fforwm Dyfodol Dwyieithog rydym wedi cynnal archwiliad pen-desg ymysg ein holl bartneriaid. Mae'r gwaith hwn wedi ein helpu i asesu i ba raddau mae'r Strategaeth Iaith wedi llwyddo, wedi atgyfnerthu trefniadau Fforwm Dyfodol Dwyieithog fel ffordd o arwain y gwaith; ac wedi helpu ar gyfer cynllunio ar gyfer y Strategaeth Iaith nesaf am y cyfnod 5 mlynedd sydd i ddod. Ceir crynodeb o'r gwaith hwn yn **Adran 5.**

# ADRAN 2

Yn yr adran hon ceir disgrifiad sut mae'r Strategaeth Iaith Gymraeg yn cyd-fynd gyda Polisïau Cenedlaethol a Lleol eraill.

**Deddfwriaeth a Chyd-destun Polisi**

Mae Strategaeth Iaith Cyngor Sir Ceredigion yn ofyniad statudol penodol sy'n deillio o Reoliadau Safonau'r Gymraeg, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ond mae hefyd yn bodoli mewn cyd-destun polisi a deddfwriaeth ehangach – yn genedlaethol ac yn sirol.

Y ddogfen arweiniol gyfredol ym maes polisi a chynllunio iaith yng Nghymru yw *Cymraeg 2050, Strategaeth y Gymraeg* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru*. Mae Strategaeth I*aith Ceredigion yn cydnabod ei pherthynas ag amcanion strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, ynghyd a'i gweithrediad. Hyn, ochr yn ochr â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Ceredigion; a'r gwaith cymunedol i hwyluso defnydd y Gymraeg drwy rhaglen waith y Fenter Iaith Cered.

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Fe sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith gyfreithiol sy'n gorfodi sefydliadau cyhoeddus i gydymffurfio a set o safonau (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015), sy'n gosod sut y dylid bwrw ati i ddarparu, trefnu a hwyluso defnydd y Gymraeg. Mae Safon 145 a 146 yn nodi ei bod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion weithredu Strategaeth Iaith, er mwyn hybu defnydd y Gymraeg yn ehangach.

**Gweledigaeth Llywodraeth Cymru:**
**Cymraeg 2050 miliwn o siaradwyr Cymraeg.**

Mae gweithredu Strategaeth Iaith Ceredigion yn cyfrannu at weledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru yn ei strategaeth Cymraeg 2050. Gellir darllen Strategaeth Cymraeg 2050 yn llawn drwy ddilyn y ddolen: Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYMRU

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Strategaeth y Gymraeg, ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd bob dydd. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. Mae gan 'Cymraeg 2050' ddau brif darged:

- nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050
- canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10% (yn 2013 i 2015) i 20% erbyn 2050

Mae'n rhaid cydnabod bod y byd wedi newid cryn dipyn ers cyhoeddi 'Cymraeg 2050'; mae'r Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd ac mae COVID-19 yn dal i fod o gwmpas; ac yn sicr mae effaith y pandemig yn amlwg o fewn ein cymunedau. Wrth gwrs mae hyn oll yn cyflwyno amrywiol heriau i'r iaith Gymraeg.

Wrth gyhoeddi rhaglen waith o’r newydd Cymraeg 2050 ar gyfer 2021 i 2026, dywedodd Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg:
“*Mae ein gweledigaeth ni’n un eangfrydig a chynhwysol. Ry’n ni eisiau creu dinasyddion dwyieithog sy’n hyderus i ddefnyddio Cymraeg ym mhob rhan o fywyd bob dydd. Yn syml, ry’n ni am i bawb yng Nghymru deimlo bod yr iaith yn perthyn i bob un ohonon ni........*
*..........Mae cynllunio’n greiddiol i’r Rhaglen hon. Mae’n rhaid cynllunio’n ofalus a chyda phendantrwydd er mwyn gallu cynyddu’r nifer o blant ac oedolion sy’n dysgu Cymraeg. Mae’n rhaid cynyddu’r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ddefnyddio’u sgiliau, ac mae’n rhaid i ni osod cyd-destunau sy’n golygu bod pobl yn gallu defnyddio’r iaith gyda’i gilydd, a hynny mewn cymunedau daearyddol neu rithiol, gweithleoedd, mannau cymdeithasol ac o fewn rhwydweithiau.”*

Mae cyflawni gweithredoedd Strategaeth Iaith Ceredigion yn anelu at gynyddu nifer o siaradwyr Cymraeg a’r nifer sy’n defnyddio’r Gymraeg yng Ngheredigion, ac yn ei dro bydd hyn yn helpu i wneud y cyfraniad yn lleol tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050.

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Effaith Covid 19 ar y Gymraeg**

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith pellgyrhaeddol ar ein bywydau, ac wedi ein gorfodi i wneud pethau mewn dulliau gwahanol; mae hefyd wedi cael effaith ar ddefnydd y Gymraeg yn y gweithle ac o fewn ein cymdogaethau. Fe wnaeth Fforwm Dyfodol Dwyieithog ddatblygu adroddiad “*Cyfleoedd i Ddefnyddio’r Gymraeg yn Ystod y Cyfnod Clo”* (Medi 2020) a gwelwyd bod y cyfnod clo, yr encilio cyhoeddus, a’r diffyg cymdeithasu diwylliannol wedi cael effaith ar ein defnydd o’r iaith Gymraeg. Yn ystod y cyfnod hwn roedd nifer fawr o bersonau heb weld, clywed nac wedi siarad Cymraeg am gyfnodau hir iawn, a gafodd effaith niweidiol iawn ar ddefnydd yr iaith Gymraeg.

Yn sgil y pandemig, sefydlodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol (teitl y Gweinidog ar y pryd) is-grŵp i ganolbwyntio ar effaith Covid-19 ar elfennau gwahanol o Cymraeg 2050. Yn y rhagair nodwyd
“*Mae pandemig y coronafeirws wedi cael effaith enfawr ar sut rydym yn ymwneud â phobl eraill yn ein cymunedau. Mae hefyd wedi gwneud i ni feddwl am sut y gallai hyn effeithio ar grwpiau cymunedol Cymraeg, sy'n allweddol o ran galluogi pobl i siarad Cymraeg gyda’i gilydd.”*

Cyhoeddodd y Llywodraeth ei hymateb i effaith Covid-19 ar y Gymraeg ym mis Gorffennaf 2021, ac roedd nifer o argymhellion yn cynnwys rhai yn ymwneud â strategaethau hyrwyddo awdurdodau lleol, fel a ganlyn:
*"Dylai’r Awdurdodau Lleol (ALl) roi llais cryf i fudiadau cymunedol Cymraeg wrth gynllunio a gweithredu eu strategaethau hybu iaith. Dylid plethu at ei gilydd Strategaethau Hybu, Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Fforymau Sirol y Mentrau Iaith gyda'r mudiadau cymunedol Cymraeg."*

Yng Ngheredigion rydym yn anelu at ddod a’r holl strategaethau hwyluso a hyrwyddo’r Gymraeg o dan faner Fforwm Dyfodol Dwyieithog, sy’n cwrdd yn chwarterol ac yn cael ei gadeirio gan y Cynghorydd sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg a Diwylliant. Mae’r aelodaeth y Fforwm yn cynnwys sefydliadau cyhoeddus y Sir, yn ogystal â’r mudiadau hynny sy’n gweithredu dros y Gymraeg o fewn y Sir.

***Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 (CySGA)***

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Ceredigion yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019. Mae'r rheoliadau hynny yn nodi y dylid cynllunio'n strategol ar gyfer meysydd allweddol er mwyn datblygu a chryfhau'r Gymraeg, megis mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.

Yn ystod cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd yn rhithiol ar 22 Chwefror 2022, cymeradwyodd Aelodau'r Cabinet gynnwys Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32. Dywedodd yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Cymorth ac Ymyrraeth ar y pryd:
"*Mae cymeradwyo'r cynllun heddiw yn garreg filltir bwysig i'n helpu i osod sylfaen ragorol i'n disgyblion wrth siarad a chyfathrebu yn Gymraeg. Bydd yn cynyddu dewis y disgybl i ddilyn trywydd cwbl ddwyieithog drwy weddill ei yrfa addysgol ac wrth wynebu byd gwaith a bywyd cymdeithasol yn y dyfodol. Ar yr un pryd, bydd y cymunedau o amgylch ein disgyblion a'n hysgolion yn elwa o'r ymdrech gynyddol hon i gryfhau'r Gymraeg yng Ngheredigion fel iaith gymunedol."*

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd y system addysg a'r CySGA yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau twf yr iaith o fewn y Sir. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 yn amlinellu'r amcanion allweddol i gyflawni hyn. Erbyn mis Medi 2032, dyhead Cyngor Sir Ceredigion yw y bydd pob disgybl yn ysgolion yr awdurdod yn derbyn addysg drochi cyfrwng Cymraeg hyd nes y bydd yn saith oed. Ym mis Medi 2020 nodwyd bod 72.9% o ddisgyblion Blwyddyn 1 ysgolion Ceredigion yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.
Erbyn 2032, dyhead Cyngor Sir Ceredigion yw bod y targed o 87% (Ystod Uchaf) a awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ragori ymhellach i 100%.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
Mae gweithrediad y Strategaeth Iaith hefyd yn cyfrannu at un o'r nodau llesiant y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Ngheredigion, sef *Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd wedi gosod cyd-destun polisi pwysig i'r Gymraeg. Mae'r Ddeddf wedi creu Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Ceredigion sy'n gyfrifol am lunio Cynlluniau Gwasanaeth Cyhoeddus ar draws y Sir. Mae'r cynlluniau o fewn y Ddeddf wedi eu gosod ar sail chwech thema ac yn hyrwyddo:

- Cymru lewyrchus,
- Cymru gydnerth,
- Cymru iachus,
- Cymru sy'n fwy cyfartal,
- Cymru o gymunedau cydlynus,
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Golyga'r thema olaf hynny creu,
*"Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden".*

Mae'r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn dangos bod Strategaeth Iaith Ceredigion yn cyfrannu'n adeiladol tuag at gyflawni'r thema hwn yng Ngheredigion. [Gweler hefyd Atodiad 1, syn nodi cyflawniad y Strategaeth dros y pum mlynedd diwethaf]

**Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022**

Mae'n ofynnol i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) gynhyrchu Asesiad o Lesiant Lleol unwaith bob pum mlynedd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ei ddiben yw cael darlun cynhwysfawr o gyflwr llesiant pobl a chymunedau lleol Ceredigion, wedi'i ystyried ar draws y pedwar piler llesiant – ffactorau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol. Isod, darperir crynodeb yng nhyd-destun yr iaith Gymraeg yng Ngheredigion. Gellir darllen yr asesiad llawn drwy ddilyn y ddolen:
Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022

Beth ydym wedi ei ddysgu o'r Asesiad yng nghyd-destun yr iaith Gymraeg yng Ngheredigion:

Dechreuad Newydd

- Mae galw am ddarpariaeth Gofal Plant yng Ngheredigion yn enwedig yng ngogledd, canol a de'r Sir, yn enwedig darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Mae sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn trosglwyddo'r iaith i lawr y cenedlaethau a bod plant yn cael y cyfleoedd i gymdeithasau yn iaith eu hardal leol yn hanfodol i'w les a goroesiad yr iaith Gymraeg.

Plentyndod

- Mae system addysg Ceredigion yn un o'r cryfaf yng Nghymru ac un o asedau sylfaenol y sir. Mae'r sgil bywyd ychwanegol o addysg cyfrwng Cymraeg yn cael effaith ar bob agwedd o lesiant

Ieuenctid

- Er bod pryderon o gwmpas gostyngiad yn y nifer sydd yn siarad Cymraeg tu allan i osodiadau addysgedig mewn bywyd dydd i ddydd, roedd canlyniadau ein harolwg yn dangos bod cysylltiad cryf i'r iaith Gymraeg a diwylliant o fewn pobl ifanc, ac awydd i ofalu am hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Oedolion

- Mae'r nifer o bobl sydd yn mynychu neu gyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth yn gostwng yng Ngheredigion. Er y gostyngiad mewn niferoedd, mae ein harolwg llesiant yn dangos bod pobl yn gwerthfawrogi'r rôl mae'r celfyddydau a diwylliant yn chwarae yn ei bywydau.
- Mae'r gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn un o'r heriau mwyaf i ddiwylliant cymdeithasol ac economaidd Ceredigion. Mae darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg neu wella sgiliau Cymraeg yn hanfodol, ynghyd a'r mentrau cyfredol i hybu defnydd yr iaith Gymraeg.
- Mae gan breswylwyr Ceredigion awydd cryf i gefnogi busnesau lleol a phrynu cynnyrch lleol.
- Mae angen cryfhau'r economi er mwyn denu busnesau newydd a thyfu busnesau presennol, creu mwy o gyfleoedd swyddi gyda thâl gwell, darparu cyfleoedd i bobl ifanc i aros yn y Sir, a chynyddu enillion cyfartalog y Sir i gymharu â Chymru gyfan.

Pobl Hŷn

- Mae gan Geredigion boblogaeth sy'n heneiddio. Mae'n debygol bydd hyn yn rhoi straen arwyddocaol ar ein gwasanaethau cyhoeddus (yn benodol ein gwasanaeth iechyd lleol) ac ein marchnad lafur lleol.

  Mae Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru 'Mwy na Geiriau', ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn nodi "*dim ond trwy gyfrwng y Gymraeg y gall llawer o bobl gyfathrebu eu hangen am ofal yn effeithiol. I lawer o siaradwyr Cymraeg mae'n rhaid i'w gallu i ddefnyddio eu hiaith eu hunain gael ei weld fel elfen greiddiol o ofal, yn hytrach nag fel rhywbeth dewisol. Mae llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth yn fregus iawn, felly nid yw'n deg gosod cyfrifoldeb arnynt hwy i ofyn am wasanaeth drwy'r Gymraeg. Cyfrifoldeb y sawl sy'n darparu'r gwasanaeth yw bodloni'r anghenion gofal hyn."*

Mae canlyniadau arolwg lles Ceredigion yn dangos bod llawer o bobl iau yn teimlo cysylltiad cryf â'r Gymraeg a diwylliant Cymru, ynghyd ag awydd yr un mor gryf i gynnal hynny dros genedlaethau'r dyfodol. I gwrdd â'r awydd hwn ac i sicrhau Ceredigion gyda diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, rhaid inni ddarparu cyfleoedd i'w galluogi i ddefnyddio'r iaith pryd bynnag y mynnant. Er enghraifft, dywedodd 50% yn union mai'r gallu i siarad Cymraeg oedd y peth pwysicaf mewn perthynas â chymuned fywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, sef canran uwch na'r canlyniadau cyffredinol i'r cwestiwn hwn. Hefyd, nododd dros hanner (54%) mai 'colli traddodiadau' oedd eu prif bryder mewn perthynas ag iaith a diwylliant Cymru, gyda 32% yn nodi 'diffyg addysg Gymraeg mewn ysgolion a cholegau', a 25% pellach yn nodi 'methu defnyddio'u dewis iaith'. Yn yr holl gwestiynau am iaith a diwylliant, cafodd opsiynau'n ymwneud â'r Gymraeg sgôr uwch ar draws canlyniadau'r arolwg yn gyffredinol. Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022 tudalen 95.

# ADRAN 3

## Cyflawni Cynllun Gweithredu Strategaeth Iaith Ceredigion

Yn yr adran hon, ceir crynodeb o'r gwaith sydd wedi mynd rhagddo er mwyn cyflawni gofynion Strategaeth Iaith Ceredigion. At hyn, ceir adroddiad cynhwysfawr ar gyflawniad cynllun gweithredu y Strategaeth Iaith yn **Atodiad 1;** at ddibenion adrodd ar safon 146, ceir tabl sy'n adrodd ar y rhestr lawn o weithgareddau ynghyd â'r cofnod o'u gweithredu.

Derbyniwyd adroddiadau cyson ar gyflawniad y camau gweithredu fel rhan o raglen waith Fforwm Dyfodol Dwyieithog yn ystod oes y Strategaeth hon, gyda phob sefydliad partner wedi ymroi i gyflawni'r camau gweithredu a oedd wedi eu hadnabod.

Lle bod hynny'n bosib rydym wedi adrodd ar ddangosyddion perfformiad gyferbyn a'r camau gweithredu, fodd bynnag gwelwyd yn gyson bod casglu data ynghylch defnydd o'r Gymraeg yn gallu bod yn astrus ac yn ddieithr; yn gyson nid yw systemau cyfrifiadurol sy'n bodoli yn medru casglu'r data sydd ei angen, neu nad yw'r data yn rhoi'r stori yn gyflawn. Wrth gwrs, mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar ddefnydd y Gymraeg, ac mae cyflawni'r targedau a bennwyd yn wreiddiol wedi bod yn anodd mewn rhai meysydd darpariaeth.

Rydym wedi tynnu sylw bod rhai o'r dangosyddion perfformiad wedi bod yn anodd eu mesur. Dywedwyd yn nogfen gyngor Comisiynydd y Gymraeg 'Safonau hybu: asesu cyrhaeddiad y strategaethau 5-mlynedd':
*"Bydd llwyddiant y strategaethau hybu yn dibynnu llawer ar agweddau, arferion ieithyddol, barn a sefyllfaoedd cymdeithasol unigolion a grwpiau yn y cynulleidfaoedd targed. Mae'r rhain yn ffactorau anodd eu mesur â rhifau ac ystadegau. Yn y cyswllt hwn, gan fod y sefydliad cyhoeddus yn dymuno dylanwadu ar agweddau ac ymddygiad ieithyddol y cyhoedd a'r sefydliadau yn ei ardal leol, gallai fod yn fuddiol i ategu canfyddiadau'r dystiolaeth feintiol drwy gynnal ymchwil ansoddol hefyd." (tudalen 15).* Mewn ymateb i hyn, rydym wedi creu archwiliad pen-desg ymysg aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog, gweler **Adran 5**

20210407-dg-c-cyngor-ar-asesu-cyrhaeddiad-y-strategaethau-hybu.pdf (comisiynyddygymraeg.cymru)

Fodd bynnag mae swyddogion wedi pwysleisio bod y gwersi cadarnhaol a ddysgwyd wrth gyflawni'r Strategaeth hon, yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer y strategaeth am y cyfnod 5 mlynedd nesaf.

Mae'n glir o'r adroddiad hwn bod gwaith sylweddol wedi ei gyflawni o ganlyniad i weithredu'r strategaeth. Mae'r Cyngor o'r farn bod cyhoeddi Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, ynghyd â gweithredu Strategaeth Iaith ar lefel lleol yng Ngheredigion wedi creu rhywfaint o newid yn yr agweddau tuag at yr iaith Gymraeg, ac yn sgil hynny mae mwy o bobl yn dymuno dysgu a siarad yr iaith yng Ngheredigion.

**Dyma rannu ychydig o brif gyflawniadau gweithredu'r Strategaeth Iaith mewn rhifau:**

- **210** o ddigwyddiadau ym Mhentref Ceredigion, Eisteddfod Genedlaethol Tregaron 2022, gyda **1,500** o blant wedi cymryd rhan gyda'u hysgol mewn perfformiad o ryw fath ar y maes.
- **71.2%** o blant yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngheredigion
- **3** Ysgol wedi cyrraedd lefel Aur Siarter Iaith Ysgolion Ceredigion: **16** Arian a **19** Efydd.
- **3** canolfan trochi iaith ar gyfer hwyrddyfodiaid wedi'u cynnal: ers mis Medi 2022 cyfanswm o 20 disgybl wedi'u cefnogi.

- Pob sefydliad cyhoeddus sy'n rhan o Fforwm Dyfodol Dwyieithog yn cynnig cyrsiau Cymraeg i'w staff. Cyngor Sir Ceredigion: **65** aelod o staff wedi derbyn y cyfle i ddysgu Cymraeg drwy gynllun Tiwtor Cymraeg y Gweithle; **21** aelod o staff yn siaradwyr newydd drwy fod wedi cwblhau Cwrs Uwch**.**
- **670** o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyrsiau dysgu Cymraeg yn y gymuned drwy wasanaeth dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gâr: **151** wedi cofrestru ar gyrsiau lefel Uwch neu Hyfedredd
- **62%** o darparwyr gofal plant yn darparu gwasanaeth Cymraeg neu wasanaeth dwyieithog
- **16%** o'r holl alwadau a dderbynnir gan wasanaeth Cwsmeriaid Clic yn Gymraeg
- **2,967** o aelodau gan fudiad yr Urdd yng Ngheredigion; 27 adran ysgol gynradd yn cwrdd pob wythnos: 780 o aelodau yn mynychu
- **713** o aelodau gan fudiad Ffermwyr Ifanc; 18 o glybiau, gyda phob un o'r Clybiau yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- **60%** o ddarpariaethau Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion trwy gyfrwng y Gymraeg, a'r gweddill yn ddwyieithog. Cyfradd boddhad 100% gan bobl ifanc ym mhob rhaglen gweithgareddau gwyliau.
- **515** o blant wedi derbyn gwersi nofio cyfrwng Cymraeg / dwyieithog
- **34** o weithgareddau wedi'u hwyluso yn y Gymraeg gan Menter Iaith Cered ar gyfer teuluoedd, plant a phobl ifanc
- **32** o fusnesau yng Ngheredigion wedi gwella eu defnydd o'r Gymraeg drwy gyswllt dwys gyda Menter Iaith Cered o dan gynllun Helo Blod.
- **4** tref wedi cynnal gorymdaith Gŵyl Dewi yn 2023
- **31** o geisiadau wedi cael eu cefnogi drwy gynllun Arfor 1, gyda'r prif amcan o hybu defnydd yr Iaith Gymraeg mewn busnes; 61.7 o swyddi wedi creu: 40.5 swyddi wedi'u diogelu.

**Rhai Uchafbwyntiau eraill:**

- Hwyluso trefniadau ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus iawn yng Ngheredigion: yr ŵyl wedi amlygu bod y Gymraeg yn iaith ddeinamig, naturiol a pherthnasol i drigolion Ceredigion
- Gwasanaeth Addysg Ceredigion wedi cyhoeddi ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32, ac wedi sefydlu gweithgor i fynd i'r afael â'r cynllun gweithredu.
- Y Gwasanaeth Addysg wedi creu adnoddau ar gyfer annog rhieni a disgyblion i ddilyn addysg cyfrwng Cymraeg.
  - Canllaw a fideo 'Byw a Bod' wedi ei rannu'n eang
  - Llyfryn cymorth geiriau ac ymadroddion defnyddiol Cymraeg ar gyfer rhieni a gwarcheidwaid. Pob Ysgol yn y Sir wedi derbyn stoc o lyfrau.
- Uned Gofal Plant wedi bod yn llwyddiannus wrth hyrwyddo defnydd y Gymraeg o fewn lleoliadau gwarchod plant:
  - Gwarchodwraig Plant o Landysul wedi ennill gwobr Gofalwn Cymru 2021
  - Aelod o staff Meithrinfa Aberporth wedi ennill gwobr Dysgwr y Flwyddyn 2021 drwy gynllun 'Camau'
- Cangen Urdd Ceredigion wedi cyrraedd 4ydd safle ar y bwrdd sgorio ar draws Cymru yn Eisteddfod yr Urdd 2022.
- Mudiad Ffermwyr Ifanc Ceredigion wedi dod i'r brig dros Gymru gyfan wrth gystadlu yn y Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd.
- Cais llwyddiannus i Gronfa Cynnal y Cardi, er mwyn medru bwrw ati i greu Pecyn Croeso Ceredigion, mewn ymdrech i gymhathu mewnfudwyr
- Strategaeth Economaidd Ceredigion (2020-35) wedi'i gyhoeddi, a thrwy hyn datblygu economi ffyniannus sy'n sicrhau bod gan y rhai sy'n siarad Cymraeg yr hyder, y sgiliau a'r cyfleoedd i ddatblygu busnesau, i weithio mewn swyddi o werth uwch, ac i weld Ceredigion fel lle ffyniannus ac egnïol i fyw a gweithio ynddo.
- Sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen er mwyn mynd i'r afael â mater tai fforddiadwy o fewn y Sir.

- Cynllun Gweithredu ‘Mwy na Geiriau’ mewn lle, er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau y Sector Gofal.
- Menter Iaith Cered yn llwyddo i ddenu siaradwyr newydd at y Gymraeg drwy gynnal prosiectau penodol, Cynllun Ar Gered, Prosiect Cymunedol Yr Ardd yn Llandysul, Cerddorfa Iwcadwli ynghyd â chynnal amrywiaeth o foreau coffi.
- Dadansoddi data Cyfrifiad 2021, a goblygiadau hynny ar ddefnydd yr iaith yng Ngheredigion, cyhoeddi adroddiad ar ein gwefan corfforaethol, a rhannu canlyniadau yn eang gyda phartneriaid.
- CAVO yn un o’r Cynghorau Gwirfoddol Sirol cyntaf yng Nghymru i ennill cydnabyddiaeth drwy gynllun Cynnig Cymraeg y Comisiynydd y Gymraeg
- Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ennill gwobr Cyflogwr Cymraeg Gwaith y Flwyddyn 2022
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi ymrwymo i gynllun Cymraeg Gwaith i ddarparu Cyrsiau Codi Hyder i 100 o’u staff.
- Coleg Ceredigion, wedi gosod polisi lle mae disgwyl i’r holl staff ddilyn rhaglen hyfforddiant mewnol ar gyfer creu dosbarthiadau dwyieithog ‘Sylfaen, Gwell Gorau’
- Prifysgol Aberystwyth wedi bod yn buddsoddi mewn datblygiadau mawr er budd defnydd y Gymraeg:
    - Ail agor Neuadd Pantycelyn (Medi 2020) yn dilyn buddsoddiad o £16.5miliwn gan gynnig llety o ansawdd ar gyfer hyd at 200 o fyfyrwyr a lleoliad ar gyfer y gymuned.
    - Ym Medi 2021 agorwyd Ysgol Gwyddor Filfeddygol cyntaf Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae’r cwrs yn rhoi cyfle i fyfyrwyr astudio agweddau penodol o wyddor filfeddygol drwy gyfrwng y Gymraeg.
    - Ym mis Medi 2022 croesawyd myfyrwyr nyrsio cyntaf y Brifysgol fydd yn cael eu hyfforddi yn nyrsys Oedolion ac Iechyd Meddwl. Yn ogystal bydd cyfle i fyfyrwyr astudio hanner y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.
    - Mae gwaith hefyd wedi cychwyn fel rhan o brosiect uchelgeisiol i ail ddatblygu’r Hen Goleg yn ganolfan flaenllaw ar gyfer dysgu, treftadaeth, diwylliant a menter i’r Brifysgol, i’n cymuned ac i Gymru erbyn 2024.

Yn rhan o weithredu’r Strategaeth Iaith, fe osododd y Cyngor 3 nod strategol sef:

- Nod Strategol 1: Cynnal a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg trigolion Ceredigion
- Nod Strategol 2: cynnal a chynyddu’r cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg
- Nod Strategol 3: Sicrhau amodau cymdeithasol sy’n galluogi’r Gymraeg i ffynnu

Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r gweithgareddau a gynhaliwyd mewn perthynas â'r tri nod strategol a nodwyd yn Strategaeth y Gymraeg. At hyn, mae adroddiad llawn ar gyflawniadau i'w weld yn Atodiad 1.

**Nod Strategol 1: Cynnal a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg trigolion Ceredigion**

Mewn perthynas â’r nod strategol hwn, rydym yn cydnabod mai sgil yw iaith a bod gan bawb y potensial i gynyddu eu sgiliau ieithyddol, waeth beth yw eu man cychwyn. Mae cynnwys pawb yn y dyhead i gynyddu sgiliau iaith trigolion y Sir yn ffactor hollbwysig.

Mae trosglwyddo iaith ar yr aelwyd, a defnydd o’r Gymraeg yn y cartref yn allweddol i barhad yr iaith. Mae rhoi cyfle i blant ddysgu Cymraeg yn ifanc yn rhoi awydd iddyn nhw ddefnyddio’r iaith yn hyderus fel oedolion, ac fel y gwyddom mae hyn yn ei dro yn rhoi arf ychwanegol iddyn nhw ar gyfer eu bywyd gwaith. Mae Uned Gofal Plant Ceredigion ynghyd â Mudiad Meithrin yn bwrw ati i hyrwyddo manteision magu plant yn ddwyieithog; gan arwain ar brosiectau er mwyn hyrwyddo defnydd y Gymraeg o fewn lleoliadau gwarchod plant bach.

**Newyddion da:**

- Gwarchodwraig Plant o Landysul, sy'n darparu gwasanaeth gwarchod plant yn Gymraeg, wedi ennill gwobr Gofalwn Cymru 2021, am ei rhagoriaeth wrth ddarparu gofal i blant bach.
- Aelod o staff, Meithrinfa Aberporth, wedi ennill **Gwobr Dysgwr y Flwyddyn 2021** Blynyddoedd Cynnar Cymru drwy'r cynllun 'Camau', am ei hagwedd eithriadol a'i hymrwymiad at ei thaith dysgu Cymraeg (drwy cynllun Camau).

Mae nifer y disgyblion ym mlynyddoedd 1 i 11 sy'n cael eu haddysg yn Gymraeg fel iaith gyntaf wedi cynyddu; mae pob un o'n hysgolion cynradd wedi rhoi blaenoriaeth i weithredu fframwaith y Siarter Iaith fel rhan o'u cynlluniau datblygu, gyda 3 ysgol wedi cyrraedd yr Aur; ynghyd â gwell ymroddiad oddi wrth rhan fwyaf o'r ysgolion Uwchradd.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, gyda'r bwriad o wella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei darparu o fewn y Sir; yn ogystal á gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yng Ngheredigion. Er mwyn cefnogi'r gwaith mae'r Gwasanaeth Addysg wedi creu adnoddau ar gyfer annog rhieni a disgyblion i ddilyn addysg cyfrwng Cymraeg.

- Canllaw a fideo 'Byw a Bod: wedi ei rannu'n eang
  **Canllaw:** llyfryn-byw-a-bod-booklet.pdf (ceredigion.gov.uk)
  **Fideo**: https://youtu.be/-5-YpvvL2vg

- Llyfryn cymorth geiriau ac ymadroddion defnyddiol Cymraeg ar gyfer rhieni a gwarcheidwaid. Pob Ysgol yn y Sir wedi derbyn stoc o lyfrau.
  https://drive.google.com/file/d/1kxAPNcce_SPrKX4gK4vt-_41RGzdc1bx/view?usp=share_link

**Astudiaeth Achos**:

Teulu wedi symud o Loegr i Geredigion. Er gwaethaf gofidio ar y dechrau, fe wnaethon nhw benderfynu rhoi addysg Gymraeg i'w plant:

"Ein cyngor ni yw i chi fynd amdani. Pan ddechreuon ni roedd yna gymaint o siarad am pa mor anodd fyddai hi i'n plant ni i ffitio mewn ac os oeddech yn anfon nhw i'r ysgol yn ifanc... a'r broblem yw os nad ydych yn anfon eich plentyn i addysg cyfrwng Cymraeg, mae yna gymuned gyfan na fyddant yn rhan ohoni yn agos i'w cartref, felly doedd e ddim mor anodd â'r hyn roedd pobl yn dweud wrthym y byddai. Ewch amdani, dyna'r ateb. Fy nghyngor i i unrhyw un sy'n meddwl am y peth, ewch amdani. Byddwch yn ddewr ac fe fydd yn ychwanegu gymaint at eu bywydau nhw ac at eich bywyd chi hefyd... i ni, nid yn unig i'r plant, rydyn ni wedi bod yn rhan o'r gymuned ehangach ers i'r plant gael addysg cyfrwng Cymraeg. Maen nhw'n rhan o'r gymuned nawr a dydy e ddim yn golygu bod eu Saesneg yn dioddef... dydych chi ddim yn colli, mae yna ganfyddiad eich bod chi'n mynd i golli rhywbeth drwy eu hanfon i ysgol gyfrwng Gymraeg, dydych chi ddim, rydych chi ar eich hennill, a dyna ni wir."

Mae pob sefydliad cyhoeddus sy'n aelod o Fforwm Dyfodol Dwyieithog bellach yn cynnig gwersi Cymraeg ar gyfer eu gweithlu. Mae'r Cyngor wedi creu partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol er mwyn cyflogi Tiwtor Cymraeg Gwaith, ac mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y nifer sy'n dysgu Cymraeg o fewn y Cyngor, 65 o aelodau staff ar amrywiol gyrsiau i ddysgu Cymraeg, sy'n cynnwys 21 aelod o staff ar Gwrs Dysgu Cymraeg lefel Uwch.

**Astudiaeth Achos:**

**Dysgwr y Flwyddyn Cymraeg Gwaith Cyngor Sir Ceredigion.** Mae Melisa Elek yn wreiddiol o Ganada a'i theulu yn hanu o Groatia. Mae Melisa wedi bod yn astudio Cymraeg ar raglen Cymraeg Gwaith y Cyngor ers tair blynedd. Yn goron ar ei hymroddiad, llwyddodd gydag arholiad Uwch yn haf 2022, gan ddangos ei bod bellach wir yn un o siaradwyr newydd y Gymraeg yng Ngheredigion. Erbyn hyn, defnyddia'r Gymraeg yn rheolaidd yn ei bywyd personol a phroffesiynol. Siarada Gymraeg yn llawen â chymdogion a chyfeillion. Yn y gwaith, defnyddia'r Gymraeg yn gyson gyda'i chyd-weithwyr, ac â'r myfyrwyr yn ei dosbarthiadau.

Mae Fforwm Dyfodol Dwyieithog o'r farn bod agweddau at yr iaith Gymraeg wedi newid, ac mae mwy o bobl yn dymuno dysgu a siarad yr iaith. Rydym wedi bod yn cefnogi Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys a Sir Gâr, ac mae nifer cynyddol yn cofrestru ar gyrsiau i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg yn y gymuned. Mae **670** o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyrsiau dysgu Cymraeg yn y gymuned, **151 (22%)** wedi cofrestru ar gyrsiau lefel Uwch neu Hyfedredd. Derbyniodd Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr gradd rhagorol gan Estyn yn 2022.

**Astudiaeth Achos:**

**Enillydd Dysgwr y Flwyddyn Ceredigion, Powys a Sir Gâr.** Ar ôl treulio dros 30 mlynedd yn byw ac yn gweithio yn Lloegr, fe benderfynodd Lynne Blanchfield a'i gŵr ymddeol yn ardal Aberystwyth. Mae wedi ymroi yn llwyr i ddysgu Cymraeg, wedi llwyddo yn arholiadau Dysgu Cymraeg CBAC hyd at lefel Uwch, a bellach yn gweithio tuag at lefel Hyfedredd. Mae hi'n awyddus i annog dysgwyr eraill i ddyfalbarhau gyda'u hymdrechion i ddysgu'r Gymraeg. Mae'n dweud ei bod yn werth dringo'r mynydd er mwyn medru defnyddio'r iaith i gyfrannu at fywyd a diwylliant Ceredigion, ein sir arbennig ac unigryw.

### Nod Strategol 2: cynnal a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

Cydnabyddir bod cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg yn ddibynnol ar y broses o gryfhau cymunedau Cymraeg trwy ddarparu digon o gyfleoedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith yn ddyddiol. Pwrpas y nod hwn oedd ceisio hwyluso'r cyfleoedd ehangaf posibl i drigolion Ceredigion fedru defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau o fewn y sir.

Yn rhan o'r nod hwn bu Menter Iaith Cered yn gweithio'n ddyfal i ddylanwadu a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y Sir. Llwyddiant rhai o brosiectau Cered yw cynnal gweithgaredd, a thyfu'r Gymraeg yn rhan o'r gweithgaredd hwnnw, er enghraifft, Cynllun Ar Gered; cerdded yw'r ffocws ac mae siaradwyr Cymraeg, dysgwyr ynghyd a'r di-gymraeg yn medru ymuno, ond defnyddir y Gymraeg drwyddi draw i roi cyfarwyddiadau, i esbonio enwau lleoedd a'r amgylchedd o'u cwmpas (70 ar y rhestr bostio, gyda thua 25 yn mynychu bob tro). Ffocws prosiect cymunedol yr Ardd, yw gweithgaredd o gwmpas gardd gymunedol, yn ogystal â'r clwb garddio mae sgyrsiau a chyflwyniadau wedi eu cynnal, gweithdai crefft ynghyd â phared llusernau (400 o gyfranogwyr yn ystod y flwyddyn adrodd hyd yma).

Yn yr un modd mae cynnal cerddorfa Cerddorfa Iwcadwli yn weithgaredd cynhwysol sy'n arwain at hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg (30 aelod yn ymarfer unwaith yr wythnos). Cynhelir amrywiaeth o foreau coffi, sgwrs dros baned, boed hynny wyneb yn wyneb neu'n rhithiol ar draws y Sir (oddeutu 63 o gyfranogwyr). Mae aelodau'r grwpiau hyn yn gymysgedd o siaradwyr Cymraeg medrus, siaradwyr Cymraeg swil ynghyd â dysgwyr, ac maent yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd, ac yn medru defnyddio neu ymarfer eu Cymraeg wrth wneud hynny.

Yn rhan o'r gweithgareddau hyn mae Swyddogion Cered wedi dod i adnabod nifer fawr o fewnfudwyr di-Gymraeg i Geredigion, ynghyd a degau o siaradwyr Cymraeg newydd yn yr ardal, gan lwyddo i ddylanwadu yn bositif ar eu bywydau a'u hyder i ddefnyddio a gwella eu Cymraeg.

**Astudiaeth Achos:**
Dwy flynedd nol symudodd pâr o Essex i ardal Aberystwyth. Ar ôl blynyddoedd o yrru ar draws Prydain i weld eu merch a oedd yn astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth, cwympon nhw mewn cariad gyda'r dref a phenderfynu symud yno. Roedd gweld y Gymraeg ymhobman a chlywed cymaint o Gymraeg yn cael ei siarad wedi gwneud i'r pâr sylweddoli fod yn rhaid iddyn nhw ddysgu'r iaith er mwyn cael y mwyaf allan o'u cartref newydd; ac fe aethon nhw ati i gofrestru ar gyrsiau Say Something in Welsh. Ar ôl 18 mis o ddysgu fe wnaethon nhw ddarganfod Bore Coffi Cymraeg Cered ym Mhenparcau gan gyfarfod â siaradwyr Cymraeg eraill gan gynnwys llawer o ddysgwyr tebyg iddyn nhw. Trwy fynychu'r sesiynau yma daethant i wybod am brosiectau 'Ar Gered' ac 'Iwcadwli', ac mae'r ddau wedi bod yn mwynhau mynychu'r ddau weithgaredd yn rheolaidd. Yn dilyn yr ymyrraeth ieithyddol gan Swyddogion Cered, mae un ohonynt wedi ymuno â'r band Cymraeg lleol Bwca, fel chwaraewr gitâr fas, ac mae wedi mynd ati i berfformio gyda nhw ar lwyfannau mwyaf yr ardal gan fwynhau pob eiliad.

**Astudiaeth Achos**:
Pâr wedi symud o Sussex i ardal Aberystwyth yn y misoedd diwethaf. Wedi penderfynu symud i'r ardal oherwydd y prydferthwch, y prisiau tai rhatach a'r gallu i gychwyn busnes lletygarwch o'u cartref. Fe wnaethant ymuno gyda Bore Coffi Penparcau, am eu bod yn dymuno dysgu mwy am yr ardal a'r Gymraeg. Mae'n nhw bellach wedi dysgu ychydig o Gymraeg, ac wedi ymuno gydag 'Ar Gered'. Yn dilyn hyn, cafodd un o Swyddogion Cered gyfle i ddod i'w adnabod yn well, a chael cyfle i ddylanwadu o ran defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'u busnes bwthyn gwyliau er mwyn creu teimlad Cymreig naws am le. Bellach mae ychydig o Gymraeg ar eu gwefan, ac mae nhw wedi bwrw ati i lobio'r cwmni cenedlaethol sy'n gyfrifol am eu gwefan o ran codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwelediad y Gymraeg. Mae'r pâr yn aelodau ffyddlon o 'Ar Gered', er mwyn darganfod llefydd 'mynd am dro', gyda'r bwriad o rannu talp o ddiwylliant yr ardal gyda'r ymwelwyr a ddaw i'r bwthyn gwylie.

Bu Cered hefyd yn cefnogi Llywodraeth Cymru gyda'r cynllun Cymraeg Byd Busnes ac yna cynllun Helo Blod (Ebrill 2020 – Ebrill 2022), cynllun a oedd yn darparu cyngor yn lleol i fusnesau i wneud defnydd o'r Gymraeg. Mae cyflawni camau bach, fel gosod arwyddion dwyieithog neu annog eu gweithwyr sy'n siarad Cymraeg i wisgo bathodyn, sy'n cyfleu eu bod yn medru'r Gymraeg, yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr; hynny yw, mae gosod cliwiau bach gweledol o ran defnydd iaith yn medru cyfrannu tuag at hyder pobl i wneud defnydd o'r Gymraeg. Yng Ngheredigion mae **32** o fusnesau wedi gwella eu defnydd o'r Gymraeg drwy gyswllt dwys gyda Menter Iaith Cered o dan gynllun Helo Blod, ynghyd a 52 o fusnesau wedi creu'r cyswllt.

**Astudiaeth Achos**:
Mae Cwmni Gelert Behaviour yn gwmni sy'n cynnig gwasanaeth hyfforddi cŵn ac anifeiliaid anwes eraill. Symudodd y perchennog o Loegr i ardal Pontrhydfendigaid, ychydig cyn cyfnod y clo mawr. Yn dilyn ymyrraeth gan swyddog Helo Blod, mae'r cwmni wedi gwneud defnydd o'r Gymraeg, drwy greu gwefan dwyieithog, creu ateb awtomatig Cymraeg ar gyfer e-byst, deunydd marchnata dwyieithog, ac mae hi wedi ymuno gyda dosbarth Dysgu Cymraeg, ac yn gwirfoddoli mewn meithrinfa er mwyn ymarfer ei Chymraeg. Er nad oedd yn siarad gair o Gymraeg cyn symud i Geredigion, mae hi bellach yn medru cynnal sgwrs eithaf syml yn y Gymraeg.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddirwyn y prosiect Helo Blod i ben ym mis Ebrill 2022, er mawr siom i ni yng Ngheredigion. Rydym o'r fan bod angen cefnogi perchnogion busnes i wneud defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig pan nad ydynt yn medru'r Gymraeg eu hunain. I ddiwallu anghenion busnesau yn llawn ac yn effeithiol mae angen dealltwriaeth o'r gymuned leol a chyd-destun unigryw y sefydliad, nid yw darparu gwasanaeth cyfieithu canolog yn unig yn sicrhau gweithredu ar lawr gwlad. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn medru cefnogi unrhyw brosiect olynol.

Mae Theatr Felin-fach yn cynnig cyfleoedd creadigol a chelfyddydol, trwy ddatblygu rhaglenni cyfranogi yn yr iaith Gymraeg. Gweledigaeth y theatr yw darparu cyfleoedd sy'n cyfrannu at lesiant, cydlyniad cymdeithasol, hybu a hwyluso hunaniaeth ddiwylliannol ynghyd â'r ymdeimlad o berthyn. Mae prosiect Gorwel a Gwreiddiau yn brosiect ar y cyd rhwng Theatr Felin-fach a Cered, sy'n archwilio perthynas pobl ifanc a'u cynefin, eu dyfodol a'u perthynas â diwylliant, iaith a bro. Llwyddodd y prosiect i gynnal 100 o sesiynau ymgysylltu, gyda 400 o bobl ifanc ac oedolion yn cymryd rhan. Mae Ysgol Berfformio Theatr Felin-fach (7-18 oed) wedi cydweithio â Chwmni Actorion Felin-fach i lwyfannu pantomeim blynyddol, ynghyd â Sioe Maes G, gyda 55 o aelodau CFFI Ceredigion yn cyflwyno sioe gerdd wreiddiol yn y Pafiliwn. Mae Clwb Hwyl a Hamdden yn grŵp cymdeithasol diwylliannol trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pobl hŷn y Sir. Mae'r Clwb yn cwrdd yn wythnosol, ac yn darparu adloniant neu weithgaredd, ynghyd a chyfleoedd i'r grŵp oedran hwn sgwrsio a chymdeithasu yn eu mamiaith.

Mae sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i amgylchedd ffurfiol yr ysgol yn allweddol er mwyn meithrin hyder i ddefnyddio Cymraeg naturiol. Yn hyn o beth, mae'r Cyngor wedi cefnogi'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymuno â grwpiau megis Clybiau Ffermwyr Ifanc a'r Urdd, gweithgareddau yn Theatr Felin-fach, Theatr Troedyrhiw, Radio Beca a Theatr Arad Goch.

Fodd bynnag, mae'n glir bod cyfyngiadau'r pandemig COVID-19 wedi effeithio momentwm y gwaith yn sylweddol yn ystod dwy flynedd olaf y strategaeth. Rhoddwyd stop ar nifer o'r gweithgareddau cymdeithasol a oedd yn creu cyfleoedd gwerthfawr i blant, pobl ifanc ac oedolion glywed a defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd yn ein cymunedau. Er gwaethaf y pandemig a'i sgil effeithiau, mae mudiadau fel Ffermwyr Ifanc a'r Urdd wedi bod yn gweithio'n galed i adfer yr holl waith da cyn Covid, ac er bod ffyrdd o wneud pethau wedi newid yn sylweddol, mae Mudiad yr Urdd wedi llwyddo i adfer ei aelodau, mae 2,967 o blant Ceredigion yn aelodau o'r Urdd yng Ngheredigion (Hydref 2022). Er bod y pandemig wedi gorfodi nifer o glybiau i gau dros dro, mae'r Sir bellach yn cynnal 9 o adrannau/aelwydydd gydag adran newydd wedi agor ei drysau ym Mrynhoffnant (Adran Crannog) ac un arall ar y gorwel yn y flwyddyn newydd yng Nghei Newydd.

Mae Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion yn rhoi cyfle unigryw i rhyw 713 o aelodau mewn 18 o glybiau ar draws Ceredigion, gyda phob un o'r Clybiau yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn Eisteddfod yr Urdd 2022, llwyddodd Cangen Ceredigion gyrraedd y 4ydd safle ar y bwrdd sgorio ar draws Cymru tipyn o glod gan ystyried y canllawiau llym oedd mewn lle, oherwydd pandemig Covid. A daeth Mudiad Ffermwyr Ifanc Ceredigion i'r brig dros Gymru gyfan wrth gystadlu yn y Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd.  Mae hyn yn tystiolaethu bod yna gysylltiad cryf rhwng iaith a diwylliant yng Ngheredigion, ac mae darparu digon o gyfleoedd diwylliannol a mentrau i hwyluso defnydd y Gymraeg  yn hanfodol er mwyn cadw'r iaith yn fyw i genedlaethau'r dyfodol.

**Dyfyniad gan Aelod Hŷn Clwb Ffermwyr Ifanc Ceredigion:**

"Wrth i'm hamser innau fel aelod ddirwyn i ben, dyma gyfle i ddiolch o waelod calon i'r Mudiad. Rydyn ni'n freintiedig iawn o'r hyn rydyn ni wedi'i etifeddu.  Er nad ydw i'n un sy'n ennill llawer yn gystadleuol, dwi ar fy ennill drwy'r cyfeillgarwch dwi wedi'i dderbyn, nid yn unig wrth fod yn rhan o'r teulu ond yn rhan o gymuned cefn gwlad eithriadol Ceredigion."

Dyfyniad Aelod o Fudiad yr Urdd yng Ngheredigion:

*"Profiadau bythgofiadwy ac anhygoel mae mudiad yr Urdd wedi cynnig ers i mi ymaelodi o flynyddoedd cynnar yr Ysgol Gynradd. Heb os nac oni bai, yr Urdd yw un o fudiadau mwyaf bwysig Cymru ac hyd yn oed o amgylch y byd wrth iddo uwch oleuo talentau, diwylliant a'r mwynhad sydd gan ieuenctid Cymru i'w gynnig. Un profiad arbennig cefais trwy'r Urdd yn ddiweddar oedd cael perfformio ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ninbych eleni!"*

Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus iawn yng Ngheredigion yn ystod haf 2022, a gafodd ddylanwad pellgyrhaeddol ar godi statws a'r bri ar y Gymraeg o fewn  y Sir. Rhoddodd yr Ŵyl gyfle i tua 1,500 o blant a phobl ifanc Ceredigion gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau ar y maes. Yn rhan o'r Ŵyl fe sefydlodd y Cyngor Bentref Ceredigion er mwyn hyrwyddo'r Sir fel lle deniadol i fyw, dysgu, perthyn a  llwyddo ynddi. Darparwyd cyfleoedd di-ri i fynychwyr brofi a mwynhau'r Gymraeg, drwy gynnal gofod penodol ar gyfer pob un o'r  4 thema; cegin arddangos gyda cogyddion gwadd o fwytai lleol yn arddangos; derbyniadau o ddiddordeb; ardal eistedd; maes chwarae; llwyfan digwyddiadau, ardal awyr agored a oedd yn cynnwys Carafán Sipsi (gyda stori dyddiol yn cael ei hadrodd), ynghyd â chytiau ar gyfer hyrwyddo busnesau lleol. Hyn oll, ar gyfer hyrwyddo Ceredigion fel sir sy'n gyfoethog o ddiwylliant a threftadaeth.

Un o lwyddiannau'r digwyddiad oedd gwaith ymgysylltu rhwng y Cyngor a phartneriaid eraill y Sir, er mwyn sicrhau bod isadeiledd cyfleustodau yn eu lle ac wedi eu profi ymhell cyn y digwyddiad. Dywed Heddlu Dyfed Powys: "Y gwaith partneriaeth gorau i ni ei brofi yn ystod Eisteddfod".  Mae'r gwaith hwn wedi cyfoethogi gwaith partneriaeth o fewn y Sir.

Cafwyd oddeutu 25,000 o ymwelwyr i Bentref Ceredigion, gyda'r niferoedd uchaf ar ddydd Mercher ac ar ddydd iau yr Ŵyl.  Dyma ddyfyniad gan un ymwelydd, sy'n atgyfnerthu dymuniad y Cyngor i gynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg:

**Dyfyniad gan Ymwelydd i Bentref Ceredigion ar Faes Eisteddfod Genedlaethol Tregaron:**
*"Mae ein teulu yn dysgu siarad Cymraeg, gan ein bod wedi symud i Geredigion o Lerpwl. Nid oeddem yn siŵr a fyddem yn dod i'r Eisteddfod, gan ein bod wedi clywed na fyddem yn teimlo'n rhan o bethau, os nad oeddem yn gallu siarad Cymraeg. Rwyf mor falch ein bod wedi manteisio ar y cyfle i ddod i Dre garon. Cawsom groeso twymgalon ym Mhentref Ceredigion. Roedd y plant yn dwlu ar y gweithdy serameg, chwarae 'Connect Four' anferth, y cyfle i fod yn greadigol a hefyd y ffaith ein bod yn gallu cael cwpanaid o de neu ddiod oer. Roeddwn yn teimlo fod y cyngor wedi meddwl am y ffyrdd gorau i fod yn gynhwysol. Mae wedi ein gwneud hyd yn oed yn fwy awyddus i ddysgu Cymraeg. Diolch."*

Prif nod yr Eisteddfod yw dathlu diwylliant a'r iaith Gymraeg, ac yn sicr fe lwyddwyd i godi proffil y Gymraeg ar draws y Sir. Mewn gwirionedd bu'r Eisteddfod yn brosiect cymunedol am dair blynedd ac yna gŵyl ar y diwedd. Fe wnaeth y bwrlwm o godi arian cyn ymweliad yr Eisteddfod â Cheredigion sicrhau gwaddol bwysig hefyd. Cadarnhawyd bod y Sir wedi torri record, drwy godi cyfanswm o £463,671, a hynny drwy ymwneud cymunedol. Roedd yr Ŵyl a'r gweithgaredd cymunedol hyn yn cyfrannu at wireddu Strategaeth Iaith Ceredigion, a hynny drwy gryfhau safle'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws y Sir. Yn arwain i fyny at wythnos yr Eisteddfod lansiwyd prosiect 'Codi Hwyl y Cardis', lle gosodwyd her i ardaloedd dacluso a harddu ar gyfer croesawu'r Eisteddfod. Roedd y prosiect yn gyfleu euraidd i dynnu pawb o fewn y gymuned ynghyd; ac ar hyd a lled Ceredigion gwelwyd baneri a chreadigrwydd lliwgar yn harddu'r ardal, o'r ddraig goch yn Lledrod i'r Orsedd yn Llanddewi Brefi. Fe, wnaeth ymweliad yr Eisteddfod gynnig cyfleoedd arbennig i bontio rhwng y Gymuned Gymraeg a'r di-Gymraeg, drwy ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i ddenu dysgwyr i weithgareddau cyfrwng Cymraeg.

Yn ystod y cyfnod cyn yr Eisteddfod, aethpwyd ati i gasglu rhai o ddywediadau mwyaf amlwg Ceredigion ; ac fe osodwyd rhain fel atyniadau deniadol o amgylch y maes. Bu'r dywediadau yn destun trafod gwych; a thrwy hyn rydym wedi sicrhau eu parhad ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. At hyn fe'i cyhoeddwyd yng nghylchgrawn Cleber y Cardi, a gafodd ei ddosbarthu yn eang ar draws holl ysgolion Ceredigion.

Mae'r gwaddol hwn yn parhau, wrth i Geredigion ddarparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer siaradwyr newydd yr iaith Gymraeg. Agwedd bwysig arall oedd bod plant a phobl ifanc wedi cael cyfleoedd di-ri yn ystod yr wythnos i gymryd rhan mewn amrywiol ddigwyddiadau, ac roedd hyn yn ei dro yn denu rieni at weithgarwch yr Eisteddfod ynghyd ac at y Gymraeg; hyderwn y bydd y gwaddol hwn yn parhau.

Codwyd cofeb barhaol i nodi ymweliad yr Eisteddfod gan Gyngor Tref Tregaron; ers sawl blwyddyn bellach, mae'r Orsedd wedi defnyddio cerrig ffug er mwyn cynnal eu seremonïau ar faes yr Eisteddfod, sy'n golygu nad oes cerrig go iawn yn cael eu codi yn man lle mae'r brifwyl yn cael ei chynnal. Ond fe lwyddodd Cyngor Tref Tregaron i gael sêl bendith yr Orsedd i alw'r gofeb yn Gerrig yr Orsedd.

Yn dilyn ymweliad yr Eisteddfod mae nifer o brosiectau wedi'u cynnal; nifer o gorau newydd wedi dechrau; mae sawl busnes newydd wedi'i sefydlu; comisiynwyd Gwenllian Spikes i greu mainc sydd bellach wedi ei gosod yn barhaol yng Nghors Caron, ac mae prosiect Garth Newydd wedi ei sefydlu yn Llanbedr Pont Steffan; bydd y ganolfan hwn yn cael ei ddefnyddio i redeg Penwythnosau Cymraeg er mwyn codi hyder pobl i ddefnyddio'r iaith. Y bwriad hefyd yw cymdeithasu gyda siaradwyr iaith gyntaf, gan gyflwyno'r rhai sy'n newydd i'r iaith i'r diwylliant Cymraeg.

Yn dilyn ymweliad yr Eisteddfod, mae'r Cyngor yn dymuno parhau i gynnal rhai o'r digwyddiadau, er enghraifft cynnal Talwrn y Beirdd Ieuenctid yn flynyddol; Seremoni Wobrwyo Camu Mlaen; defnyddio Theatr Felin-fach neu Proms Cerdd i ddarparu llwyfan ar gyfer perfformiad gan Ddisgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol; casglu ar gof a chadw cofnod o idiomau lleol a'u hyrwyddo'n eang, sefydlu cylchgrawn addysg Cleber y Cardi. Mae cynnal y digwyddiadau hyn yn hynod bwysig wrth gyfrannu tuag at hyfywedd yr iaith Gymraeg o fewn y Sir.

Bu'r Eisteddfod yn fuddsoddiad a wnaeth lwyddo i gyflwyno'r Gymraeg i gynulleidfa newydd yng Ngheredigion, a dyma ddull ardderchog o newid agweddau ynghyd ag annog pobl i fynd ati i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywyd. Yn syml, mae wedi dangos bod y Gymraeg yn iaith ddeinamig, naturiol a pherthnasol i drigolion Ceredigion.

Mae cais llwyddiannus i Gronfa Cynnal y Cardi wedi ei gymeradwyo, hyn er mwyn medru bwrw ati i greu Pecyn Croeso Ceredigion, mewn ymdrech i gymhathu mewnfudwyr. Bwriad y prosiect yw cynnal hyfywedd cymunedau trwy amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael i gyfrannu a chefnogi'n lleol, ac i helpu personau i ddeall sut mae'r Gymraeg yn gweu i fewn i fywyd diwylliannol a chymdeithasol y Sir. Bydd y prosiect yn gynhwysol, gan ddwyn ynghyd siaradwyr Cymraeg, siaradwyr swil, dysgwyr y di-Gymraeg a'r rhain sy'n gwbl newydd i'r Gymraeg. Bydd y prosiect yn anelu at sicrhau perchnogaeth gan y gymuned, gan arfogi'r gymuned ei hunain i fynd i'r afael a'r heriau sy'n gysylltiedig a mewnfudwyr. Mae'r Grŵp Prosiect ar hyn o bryd yn dylunio Cerdyn Post a fydd yn cyfeirio personau at e-lyfr Croeso i Geredigion.

**Nod Strategol 3: Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu**

Cyfrwng cymdeithasol yw iaith ac i iaith ffynnu mae angen i'r gymdeithas y mae'n gyfrwng mynegiant iddi hefyd ffynnu. Rhaid wrth fwrlwm ac egni a chreadigrwydd. Rhaid i gymunedau fod yn ddeniadol ac yn lefydd pleserus i fyw ynddyn nhw. Rhaid bod y boblogaeth yn gweld gwerth cymdeithasol ac economaidd i'w hiaith a bod yn barod i'w dathlu.

Un o'r prif heriau i Geredigion yw sicrhau bod y boblogaeth iau a chenedlaethau'r dyfodol yng Ngheredigion yn cael cychwyn da i'w bywydau fel oedolion . Mae'r Cyngor yn dymuno i Geredigion fod yn lle deniadol sy'n llawn cyfleoedd i bobl ifanc aros a datblygu eu gyrfa.

Y tuedd yng Ngheredigion yw bod nifer cynyddol o bobl ifanc Cymraeg eu hiaith yn allfudo o'r Sir yn dilyn derbyn eu haddysg ffurfiol, a hynny ar gyfer cyfleoedd gyrfa, cyfleoedd cymdeithasol a chyflogau uwch. Mae mwy a mwy o sefydliadau ar draws Cymru yn chwilio am siaradwyr Cymraeg, ac rydym yn colli ein pwll talent lleol. Mae hyn yn cael effaith ar ddiboblogi siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau cefn gwlad yng Ngheredigion. Mae pobl ifanc heddiw yn hanfodol ar gyfer llenwi rolau allweddol yn y gymuned ar gyfer yfory.

Mae ymyriadau eisoes ar droed i wrthdroi'r duedd hon. Mae Strategaeth Economaidd Ceredigion (2020-35) yn amlinellu'r camau y mae'n rhaid eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r heriau allweddol; drwy ganolbwyntio ar ddatblygu'r economi leol i greu gwell cyfleoedd gwaith a denu swyddi sy'n talu'n well; ynghyd â buddsoddiad a chynlluniau i wella cysylltedd, yn gorfforol ac yn ddigidol.
Gellir darllen Strategaeth Economi Ceredigion yn llawn drwy ddilyn y ddolen:
[Rhoi Hwb i Economi Ceredigion - Cyngor Sir Ceredigion]

Mae'r Strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg, "Egwyddor sylfaenol bwysig arall yw'r angen i ddiogelu a gwella ein hunigrywedd a'n hunaniaeth ddiwylliannol, a helpu i roi hwb i gydnerthedd a thwf y Gymraeg."

Yn ei hanfod, mae gosod cyd-destun Strategaeth yr Economi ochr yn ochr a'r Strategaeth Iaith yn cael ei gyflawni wrth sicrhau bod gan y rhai sy'n siarad Cymraeg yr hyder, y sgiliau a'r cyfleoedd i ddatblygu busnesau, i weithio mewn swyddi o werth uwch, ac i weld Ceredigion fel lle ffyniannus ac egnïol i fyw a gweithio ynddo.

Roedd gweithredu rhaglen Arfor 1 yn rhannol gyfrannu tuag at greu mwy o swyddi a swyddi gwell er mwyn atal yr allfudo a'r golled gysylltiedig o siaradwyr Cymraeg o'r ardal. Nod rhaglen Arfor 1 oedd datblygu ymyriadau economaidd, a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar nifer y siaradwyr Cymraeg a hyfywedd yr iaith Gymraeg. Mae rhaglen Arfor 1 wedi treialu cynlluniau cymorth busnes ar raddfa fach yn llwyddiannus ac wedi dangos bod ganddynt y potensial i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, i greu amodau ffafriol ar gyfer datblygu gallu a gwasanaethau ymhellach, yn ogystal â chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y gymuned fusnes.

Yn ôl cwmni ymchwil Wavehill, a fu'n gyfrifol am werthuso prosiect Arfor: *"Mae'r rhaglen wedi cael yr effaith fwyaf gweladwy ac uniongyrchol trwy grantiau busnes uniongyrchol i gwmnïau bach a meicro yn yr ardal. Nododd y busnesau hyn yn aml pa mor anodd oedd cyrchu ffynonellau cyllid, buddsoddiad a chyfalaf amgen. Yn yr ystyr hwn, mae'r grantiau wedi bod yn arbennig o werthfawr i'r busnesau hyn ac wedi galluogi ehangu ac arallgyfeirio..... Wrth sicrhau'r effaith economaidd hon, mae'r grantiau uniongyrchol hefyd wedi ymgorffori cynlluniau i ddatblygu gallu iaith yn y cynlluniau busnes ar gyfer y blynyddoedd i ddod."*

Mae cynllun Arfor yng Ngheredigion wedi cefnogi 31 o geisiadau gyda'r prif amcan o hybu defnydd yr iaith Gymraeg mewn busnes, yn eu tro mae'r busnesau hyn wedi creu 61.7 o swyddi ynghyd â diogelu 40.5 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, refeniw cynyddol, a chyda'r rhain yn gwmnïau lleol, maent yn fwy tebygol o ailgylchu'r refeniw yn lleol. Mae'r Cyngor yn ddiolchgar bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd cyllid pellach ar gyfer ail wedd Arfor hyd at ddiwedd Mawrth 2025; ac ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gweithio i roi trefniadau yn eu lle.

Mae sicrhau cartrefi fforddiadwy hefyd yn cael dylanwad ar benderfyniad pobl ifanc i aros neu adael y Sir. Mae sicrhau stoc o dai addas a fforddiadwy yng Ngheredigion yn flaenoriaeth. Mae'r twf yn y galw a'r stoc gyfyngedig wedi cadw prisiau tai a rhent yn uchel yn y sir. Er ei bod yn wir bod fforddiadwyedd tai yn effeithio ar bob awdurdod lleol yng Nghymru, mae'r broblem yn arbennig o ddwys yng Ngheredigion oherwydd y galw uchel cyson a welir, y stoc gyfyngedig a'r enillion sy'n is na swm cyfartalog yr enillion a welir yn y wlad. Yn ôl adroddiad yn y Cambrian News (21/03/2023), Ceredigion yw'r pedwerydd lle drytaf yng Nghymru i brynu tŷ yng Nghymru. O ran Mynegai Prisiau Tai Cymru, mae'r prisiau tai cyfartalog yng Ngheredigion ar hyn o bryd yn £284,813, sydd 8.6 % yn uwch nag yr oedd y flwyddyn flaenorol.

Cyfeirnod:

- Gwynedd sees drop in house prices - with Ceredigion the fourth most expensive place in Wales to buy a house | cambrian-news.co.uk
- Welsh House Price Index | Wales House Price Index (principality.co.uk)

Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn cyflwynwyd papur at sylw Cabinet (22 Chwefror 2022) a'r Cyngor (3 Mawrth 2022) ynghylch: Tai Cymunedol, gyda'r bwriad o gefnogi pobl leol i gael mynediad at dai drwy fodel Ecwiti a Rennir. Sefydlwyd grŵp Tasg a Gorffen er mwyn edrych ar weithredu hyn ynghyd ag ystod o opsiynau tai eraill, mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

Mae saib yn y broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, oherwydd Pandemig Covid-19 ac oherwydd bod y mater ffosffad heb ei ddatrys. Fodd bynnag lluniwyd Papur Pwnc ar yr Iaith Gymraeg sy'n amlinellu bod y sir gyfan yn cael ei dosbarthu'n ieithyddol sensitif, a bod felly angen cynnal asesiad effaith wrth unrhyw gynigion datblygu, oherwydd eu potensial i effeithio ar ddefnydd yr iaith Gymraeg yn yr ardal honno.

Fodd bynnag, mae'r camau uchod yn uchelgeisiau mwy hirdymor, ac nid oes modd eu datrys yn ystod oes 5 mlynedd y Strategaeth Iaith gyfredol, bydd angen eu cynnwys yn y Strategaeth nesaf a'u monitro dros ddegawdau yn hytrach na blynyddoedd.

Mae'r Cyngor fel un o brif gyflogwyr y Sir, yn ymwybodol o'i ddyletswydd i gynllunio'r gweithlu, ac i sicrhau bod hawliau siaradwyr Cymraeg yn cael eu bodloni wrth ddarparu gwasanaethau yng Ngheredigion. Mae'r Cyngor yn anelu at sicrhau bod ganddo ddigon o weithwyr sy'n gymwys o ran siarad ac ysgrifennu Cymraeg . Gwenir hyn drwy asesu pob swydd newydd neu wag ar gyfer y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen er mwyn medru cyflawni'r swydd. Mae'r Cyngor wedi llwyddo dros oes y Strategaeth i gynnal y nifer o staff sy'n medru'r Gymraeg, ac mae'r niferoedd sy'n rhugl yn parhau fel y cohort uchaf o siaradwyr Cymraeg.

Mae technoleg wedi gweddnewid y ffordd rydym yn byw, ac mae'n bosibl y bydd y newidiadau'n digwydd yn gyflymach fyth yn y dyfodol. Mae Cymraeg 2050, strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, yn cydnabod bod newidiadau o'r fath yn creu heriau i'r Gymraeg; ond maent hefyd yn dod â chyfleoedd i'n rhan. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg' WG34015 (llyw.cymru) er mwyn arwain y gwaith i sicrhau bod technoleg yn hwyluso cyfleoedd i weithio ac i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Mae Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw feddalwedd sy'n cael ei datblygu'n fewnol yn medru gweithio yn y Saesneg a'r Gymraeg ar yr un pryd; ac os oes angen pwrcasu meddalwedd digidol yn allanol sicrheir bod y darparwr yn glynu at y polisi dwyieithog hwn.

Yn naturiol, mae'r cynnydd yn ystod 2020-22 wedi bod yn gyfyngedig mewn nifer o feysydd oherwydd effaith Covid-19, wrth i bobl ganolbwyntio ar addasu i fodelau newydd o ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, wrth adrodd ar gyflawniad y Strategaeth Iaith rydym yn gweld bod Ceredigion yn parhau i fod yn gyfoethog a byrlymus o ran gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg; fodd bynnag mae'n allweddol bod cynllunio ieithyddol bwriadus yn digwydd, er mwyn uchafu statws yr iaith, a chryfhau ei defnydd; hyn fel bod mwy o drigolion Ceredigion yn gweld gwerth o fedru siarad Cymraeg a'i defnyddio yn ddyddiol yn eu bywydau bob dydd.

# ADRAN 4

Yn yr adran hon rydym yn archwilio pa mor lwyddiannus bu'r Strategaeth Iaith yn ei nod i ddenu mwy o siaradwyr Cymraeg o fewn y Sir. Gwneir hyn drwy gynnal dadansoddiad manwl o'r data sydd ar gael yn genedlaethol ac yn lleol ar gyfer mesur nifer siaradwyr Cymraeg.

**Targedau a Mesurau Perfformiad.**


Mae'n ofynnol bod Strategaeth Iaith pob Cyngor Sir (Safon 145) yn cynnwys targed:
*Gosod targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eu hardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw.*

Gosododd Strategaeth Iaith Ceredigion y targed i gynyddu canran siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion i 48.5%, sef rhyw 1,500 yn fwy o siaradwyr Cymraeg erbyn 2023 . Roedd y targed hwn yn seiliedig ar alluoedd iaith Gymraeg disgwyliedig y boblogaeth erbyn 2023 a nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gadael addysg cyfrwng Cymraeg.

Yn ôl Comisiynydd y Gymraeg y Cyfrifiad yw'r brif ffynhonnell ddata am y Gymraeg yng Nghymru, a chaiff ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i asesu cynnydd yn erbyn y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2021.

Rhyddhawyd data Cyfrifiad 2021 ar y 6ed o Ragfyr 2022, ac mae hwnnw yn adrodd bod y niferoedd o siaradwyr Cymraeg wedi gostwng ar draws Cymru o 19% i 18%; ac fe welodd Ceredigion hefyd ostyngiad sef -2.0 pwynt canran neu 3,286 yn llai o siaradwyr Cymraeg. Yn unol â data y Cyfrifiad dros y degawdau gostwng fu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion, gweler y tabl isod.

Ffigur *: Y canran o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion 1991 - 2021.




*Swyddog Ystadegau Gwladol,1991, 2001, 2011 a 2021.*
*Source: Office for National Statistics, 1991, 2021, 2011 and 2021.*

Fodd bynnag, mae angen pwyllo wrth ddehongli'r data, ac edrych ar y darlun yn ehangach; er enghraifft cofnodwyd canlyniadau'r Cyfrifiad ar adeg pan welwyd gostyngiad ym mhoblogaeth Ceredigion, ac hefyd yn ystod cyfnod pandemig Covid. Mae arolygon eraill yn bodoli ynghylch y Gymraeg, ac mae'r canlyniadau hyn yn llawer mwy calonogol ar gyfer Ceredigion. Byddwn yn trafod y canlyniadau hynny isod.

Mae'n bwysig nodi bod gan Lywodraeth Cymru nifer o ddulliau gwahanol o fesur nifer y siaradwyr Cymraeg; ac yn anorfod mae'r dulliau hyn yn gwahaniaethu wrth gyflwyno eu data. Mae hyn yn creu sefyllfa eithaf cymhleth, ac yn atgyfnerthu pa mor anodd yw hi i fesur defnydd iaith mewn gwirionedd. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddan nhw'n archwilio data'r cyfrifiad yn ofalus a'i fod yn "un o lawer o ddarnau pwysig o ddata a ddefnyddir i ystyried pa newidiadau sydd angen eu gwneud yn y dyfodol i sicrhau bod ein hiaith yn ffynnu". Mae'r prif weinidog wedi ysgrifennu at y Swyddfa Ystadegau Gwladol "i ofyn iddynt archwilio sut a pham mae gwahanol arolygon am y Gymraeg yn cynhyrchu canlyniadau gwahanol".

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi Dogfen Gyngor ar Asesu Cyrhaeddiad y Strategaethau 5 mlynedd Awdurdodau Lleol; yn y ddogfen nodwyd, mater i'r sefydliadau eu hunain yw mesur cynnydd yn erbyn eu targedau, fodd bynnag mae'r ddogfen yn darparu gwybodaeth gyfredol am fethodoleg a ffynonellau data y gellid eu defnyddio er mwyn asesu i ba raddau mae'r Strategaeth wedi llwyddo i gyrraedd y targedau a osodwyd. Rydym yn trafod y ffynonellau data hyn isod.

Prif ffynonellau data'r Cyngor yn fewnol o ran nifer y siaradwyr Cymraeg yw ei ddata **addysg,** ynghyd â data'r **gweithlu,** sy'n caniatáu i'r Cyngor edrych ar unrhyw dueddiadau. Ceir dadansoddiad o'r data hwn hefyd.

## Data Cyfrifiad 2021

Mae angen gofal wrth ddehongli data'r Cyfrifiad gan fod y darlun yn un cymhleth; mae iaith yn rhywbeth mwy na dull o gyfathrebu mae'n rhan o wead pobl a'u hymwneud â'u gilydd. Dywedodd Dr Rhian Hodges, Uwch-ddarlithydd Cymdeithaseg ym Mhrifysgol Bangor yn ei chyfweliad gyda BBC Radio Cymru 9 Rhagfyr 2022:
*"Mae'r Cyfrifiad yn werthfawr i roi rhyw fath o snapshot i ni o beth sy'n digwydd ond ar yr un pryd mae'n bwysig i edrych ar elfennau fel hyder, rhuglder a theimladau o ddefnydd iaith ac o ran perthyn i'r Gymraeg hefyd."*

Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles wrth ddehongli data'r Cyfrifiad 6 Rhagfyr 2022:
*"Rwyf wedi sôn yn aml bod y Gymraeg yn fwy na just rhywbeth rwy'n ei siarad - mae'n rhywbeth rwy'n ei deimlo. Ac rwy'n teimlo bod mwy a mwy o bobl yn teimlo bod y Gymraeg yn perthyn iddyn nhw. Y gamp yw troi'r teimladau hynny'n ddefnydd iaith."*

Roedd cwestiwn Cyfrifiad 2021 yn gofyn i bobl asesu eu gallu i wneud y canlynol:

- Deall Cymraeg llafar
- Siarad Cymraeg
- Darllen Cymraeg
- Ysgrifennu'r Gymraeg

Nid yw data'r Cyfrifiad yn mesur y gwahanol lefelau o hyder wrth ddefnyddio'r iaith nac amlder defnyddio'r Gymraeg, nad ychwaith unrhyw deimladau o ran perthyn i'r Gymraeg. Mae'r wybodaeth am sgiliau Cymraeg yn y cyfrifiad yn seiliedig ar hunanasesiad person o'u gallu. Nid oedd cyfle felly i siaradwyr Cymraeg esbonio eu teimladau tuag at y Gymraeg. Mae'n bosib iawn bod mwy yn medru siarad rhywfaint o Gymraeg, ond wrth hunan asesu eu sgiliau yn y Gymraeg, roeddent yn teimlo'n swil ac yn ddihyder i nodi hynny. Mewn rhai achosion, yn enwedig i blant, roedd gallu Cymraeg yn cael ei gofnodi gan berson arall, er enghraifft, rhiant neu warchodwr.

At hyn mae'n bwysig nodi wrth ystyried y ffigurau hyn bod Cyfrifiad 2021 wedi cael ei gynnal yn ystod pandemig COVID-19 (21 Mawrth 2021). Roedd hyn yn dilyn cyfnodau clo, dysgu o bell i blant, ac roedd llawer o bobl yn gweithio gartref. Nid yw'n hysbys sut y gallai'r pandemig fod wedi effeithio ar ymateb pobl i'r cwestiwn yng nghylch eu gallu yn y Gymraeg (neu eu canfyddiad ynghylch sgiliau Cymraeg pobl eraill).

Data Cyfrifiad 2021: Canlyniadau Ceredigion

Canran y preswylwyr arferol tair oed a throsodd Cymru a Ceredigion: Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021

| | **Cyfrifiad 2011** | | **Cyfrifiad 2021** | | **Gwahaniaeth pwynt canran** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | **562,016** | **19.0%** | **538,300** | **17.8%** | **-1.2** |
| **Ceredigion** | 34,964 | 47.3% | 31,678 | 45.3% | -2.0 |

- Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad (21 o Fawrth 2021), fe wnaeth 45.3 % (31,678) o drigolion arferol Ceredigion, a oedd yn dair oed neu'n hŷn adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn ostyngiad o 3,286 o bobl ers 2011, neu gostyngiad o 2.0 pwynt canran ers 2011.
- Ceredigion welodd y gostyngiad pumed mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 a 2021 (2.0 pwynt canran). Gwelwyd y dirywiad mwyaf yn:
  - Sir Gaerfyrddin (4.1 pwynt canran),
  - Powys (2.1 pwynt canran)
  - Sir Ddinbych (2.1 pwynt canran).
  - Sir Benfro (2.1 pwynt canran)

Y prif ffactorau a gyfrannodd at y gostyngiad cyffredinol yng nghanran y bobl a nododd eu bod yn medru'r Gymraeg yng Ngheredigion rhwng 2011 a 2021 oedd:

- Cofnodwyd y canlyniadau hyn ar adeg pan welwyd gostyngiad ym mhoblogaeth Ceredigion. Poblogaeth Ceredigion wedi gostwng o **75,900 yn 2011** i **71,500 erbyn 2021,** sef -4,400 yn llai o bobl yn byw yn y Sir.
- gostyngiad mewn plant a phobl ifanc rhwng 3 a 15 oed a nododd eu bod yn medru'r Gymraeg (gostyngiad o 6.6 pwynt canran)
- gostyngiad yn y grŵp oedran pobl 65+ a nododd eu bod yn medru'r Gymraeg (gostyngiad o 6.5 pwynt canran)

Fodd bynnag ynghanol y penawdau negyddol sydd i'w ganfod yn y cyfrifiad, mae ambell lygedyn o oleuni a chanlyniad i'w groesawu.

- Gwelwyd cynnydd o ran canrannau yn y grŵp oedran 16 -19 oed, o 40.9% yn 2011 i 46.9% yn 2021
- Gwelwyd cynnydd o ran canrannau (er yn fychan) yn y grŵp oedran 20-44 oed, o 41.7% yn 2011 i 43.1% yn 2021.
- Ceir y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y cohort oedran 20-44 oed, sy'n ystadegyn pwysig ar gyfer y Strategaeth Iaith nesaf.


- Parhaodd Ceredigion fel yr awdurdod lleol gyda'r drydedd gyfran fwyaf o siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd yn genedlaethol (45.3% o drigolion), y tu ôl i Wynedd (64.4% o drigolion) ac Ynys Môn (55.8%).
- Mae Ceredigion yn parhau i gael ei ystyried fel un o gadarnleoedd y Gymraeg, ac mae'n Sir allweddol o ran cynllunio twf a ffyniant yr iaith. Cymdogaethau Cymraeg a dwyieithog yw sail ei diwylliant a'i bywyd beunyddiol. Caiff yr iaith Gymraeg ei defnyddio yn helaeth yn y gweithle, mewn addysg ac yn y cartref. Mae'r iaith hefyd yn rhan hanfodol o gymunedau lleol, mudiadau, clybiau a chymdeithasau'r sir.

Ffigur *: Y canran o siaradwyr Cymraeg yn ôl grwpiau oedran yng Ngheredigion.

| | 3 – 15 mlwydd oed / years | 16-64 mlwydd oed / years | 65+ mlwydd oed / years | Pawb dros 3 mlwydd oed / Everyone over 3 years |
|---|---|---|---|---|
| **2011** | 78.4% (7,175) | 41.9% (20,503) | 46.4% (7,286) | 47.3% (34,964) |
| **2021** | 71.8% (6,123) | 42.4% (18,219) | 39.9% (7,347) | 45.3% (31,678) |
| **Gwahaniaeth / Difference** | -6.6 pwynt canran / percentage points (-1,052) | +0.5 pwynt canran / percentage points (-2,284) | -6.5 pwynt canran / percentage points (+61) | -2.0 pwynt canran / percentage points (-3,286) |

*Ffynhonnell: Swyddog Ystadegau Gwladol, 2011 a 2021.*
*Source: Office for National Statistics, 2011and 2021.*

Ffigur *: Y canran o siaradwyr Cymraeg yn ôl oedran yng Ngheredigion.



Nodyn ar gynnwys Myfyrwyr fel rhan o ddata Ceredigion:
Cynhaliwyd Cyfrifiad adeg tymor colegau a phrifysgolion. Mae'r boblogaeth myfyrwyr yn un arwyddocaol yng Ngheredigion, gyda thua 6,500 - 8,050 yn arferol (HESA, 2021 a YSG, Cyfrifiad 2021).

Fel mewn cyfrifiadau blaenorol, cyfrwyd y myfyrwyr yn eu cyfeiriad tymor arferol i helpu i ddarparu mesur cywir o'r boblogaeth breswyl arferol. Yng ngoleuni'r pandemig, cyfyngiadau'r cyfnod clo, a'r ffaith nad oedd llawer o fyfyrwyr yn eu cyfeiriad tymor efallai, aeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ati i adolygu a gwella'r canllawiau i fyfyrwyr ar sut y dylent gwblhau'r cyfrifiad. Sefydlodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd ddulliau o amcangyfrif ac addasu ar gyfer diffyg ymateb myfyrwyr neu eu gorgyfrif.
Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) Llywodraeth Cymru 6ed Rhagfyr 2022.

Mae'n rhaid cofio taw un ffynhonnell data yw'r Cyfrifiad, a mater goddrychol, yn aml, yw ateb holiaduron. Mae dogfen ganllaw Comisiynydd y Gymraeg ar asesu cyflawniad y strategaethau 5 mlynedd yn ein cyfeirio at ddulliau eraill o olrhain patrymau neu dueddiadau a allai roi cipolwg defnyddiol ar gyflawniad Strategaeth Iaith Ceredigion. I ddarllen cyngor Comisiynydd y Gymraeg yn llawn, dilynwch y ddolen:
20210407-dg-c-cyngor-ar-asesu-cyrhaeddiad-y-strategaethau-hybu.pdf (comisiynyddygymraeg.cymru)

**Pa dystiolaeth arall sydd ar gael?**

*Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth*
https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language

Yn ôl dogfen ganllaw Comisiynydd y Gymraeg mae Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn darparu canlyniadau am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg bob chwarter blwyddyn. Mae'r arolwg yn darparu data defnyddiol ar lefel cyngor sir er mwyn edrych ar dueddiadau'r Gymraeg rhwng cyfrifiadau, ond ni ddylai canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gael eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg.


Mae'r arolwg hwn hefyd yn darparu canlyniadau yn ôl grwpiau oedran eang. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn ystyried ei ganlyniadau mor ddibynadwy a rhai'r Cyfrifiad er mwyn cyfri siaradwyr, y fantais o'i ddefnyddio yw ei fod yn cynhyrchu canlyniadau yn amlach.

Yn hanesyddol, mae amcangyfrifon yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth o ran gallu pobl yn y Gymraeg yn uwch na'r rhai a gynhyrchir gan y Cyfrifiad. Yn ôl yr arolwg hwn yn 2022 roedd **57.45%** yn medru siarad Cymraeg yng Ngheredigion, hyn o gymharu â 45.3% sydd wedi ei gofnodi yn y Cyfrifiad 2021.

| Nifer Siaradwyr Cymraeg: | |
|---|---|
| Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2022 | Cyfrifiad 2021 |
| 57.45% | 45.3% |

Mae gwybodaeth ac astudiaethau pellach ynghylch yr iaith Gymraeg yn Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dynodi bod canran y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion wedi bod yn codi. Er enghraifft, datgelodd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth bod 52.7% o boblogaeth Ceredigion yn medru siarad Cymraeg yn 2014, a gwelwyd hwn yn codi i 60.9% erbyn 2020. Fel y gwelwn yn y graff isod, yn ôl y data yma mae'r lefelau siarad Cymraeg wedi disgyn ychydig yn 2021 a 2022, gall hyn fod oherwydd bod poblogaeth Ceredigion wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf. Ond mae'n rhaid nodi bod lefelau'r siaradwyr Cymraeg dal i fod yn uwch na'r canran a welwyd yng Nghyfrifiad 2021. Er mae data'r Cyfrifiad ydy'r data mwyaf gwyddonol a dibynadwy, dim ond bod 10 mlynedd mae'r Cyfrifiad yn cael i'w cynnal, felly mae'n bwysig i edrych ar ddata gwahanol hefyd.

Ffigur *: Canran o siaradwyr Cymraeg yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r boblogaeth a'r Cyfrifiad 2021




Data

*Ffynhonnell: Swyddog Ystadegau Gwladol, 2021*
*Source: Office for National Statistics, 2021.*

## *Arolwg Cenedlaethol Cymru*

[https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Culture-and-Welsh-Language](https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Culture-and-Welsh-Language)

Dangosydd arall yw Arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n casglu gwybodaeth am allu oedolion 16 oed a throsodd i siarad Cymraeg, yn ogystal â'u rhuglder a pha mor aml y maent yn siarad iaith. Yn yr un modd â'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, mae amcangyfrifon yr Arolwg Cenedlaethol o nifer y siaradwyr Cymraeg yn uwch yn hanesyddol na'r rhai a gynhyrchir gan y cyfrifiad.

Caiff y data hwn ei ddefnyddio hefyd fel ffynhonnell ar gyfer dangosydd cenedlaethol 36 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef 'Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg (ar gyfer oedolion 16 oed neu hŷn).

| Arolwg Cenedlaethol Cymru | | | |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn | | % oedolion sy'n siarad Cymraeg | % yr oedolion sydd â rhywfaint o allu i siarad Cymraeg |
| 2016-17 | Cymru | 20% | 9% |
| | Ceredigion | 49% | 6% |
| 2017-18 | Cymru | 19% | 12% |
| | Ceredigion | 44% | 16% |
| 2018-19 | Cymru | 18% | 15% |
| | Ceredigion | 42% | 18% |
| 2019-20 | Cymru | 16% | 8% |
| | Ceredigion | 40% | 16% |
| 2021-22 | Cymru | 19% | 17% |
| | Ceredigion | 41% | 19% |

Yn yr Arolwg hwn (2021-22), pan ofynnwyd i bobl yng Ngheredigion a oeddent yn gallu siarad Cymraeg, roedd 41% wedi ateb 'ydw', gyda 19% arall wedi ateb 'nac ydw', ond rwy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg. Ymddengys o'r data hwn bod cynnydd yn y niferoedd sydd â rhywfaint o Gymraeg (9%: 2016-17: 19% 2021-22). Yn ôl yr arolwg hwn dyma'r fffactorau sy'n gysylltiedig â siarad Cymraeg bob dydd, a gallu siarad mwy na dim ond ychydig o eiriau:

- Plant yn byw ar yr aelwyd
- Teimlo bod pobl yn y gymuned leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth
- Lefel uchel o gymwysterau addysg
- Bod yn gyflogedig
- Byw mewn ardal wledig
- Byw yng Ngwynedd, yn Ynys Môn neu yng Ngheredigion
- Ymdeimlad o berthyn i'r gymuned leol.

Nododd 35% o'r oedolion sy'n siarad Cymraeg eu bod yn debygol o siarad Cymraeg bob dydd.

Arolygon Defnydd Iaith

:https://llyw.cymru/arolwg-defnydd-iaith

Nid yw arolygon defnydd iaith yn casglu gwybodaeth am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Maent yn casglu gwybodaeth fanylach am rugldler siaradwyr Cymraeg, a'u defnydd o'r iaith mewn amrywiaeth o leoliadau yn eu bywydau bob dydd.

Fel arfer, caiff yr arolygon hyn eu cynnal bob 5–10 mlynedd (1992, 2004–06, 2013–15, 2019–21), a gallant ddarparu data ar lefel cyngor sir fel arfer. Effaith COVID-19 Yn anffodus, bu'n rhaid dirwyn Arolwg Defnydd Iaith 2019–21 i ben yn gynnar oherwydd pandemig y coronafeirws.

Dangosodd yr arolwg defnydd iaith blaenorol, yn 2013-15 bod crynodiad uchaf y siaradwyr Cymraeg sydd yn siarad yr iaith bob dydd yn ardaloedd awdurdodau lleol yng ngorllewin Cymru, gyda'r crynodiad ar ei uchaf yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Yn yr ardaloedd hyn y ceir y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg felly mae'n debyg eu bod yn cynnig mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn aml.

Data Trosglwyddo iaith

Mae sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn trosglwyddo iaith o un genhedlaeth i'r llall ynghyd â sicrhau cyfleoedd i gymdeithasoli plant i ddefnyddio'r iaith o fewn eu cymdogaeth leol yn hanfodol i barhad y Gymraeg. Mae cyfrifo cyfraddau trosglwyddo iaith yn broblematig heb ymchwil manwl. Comisiynwyd darn o waith gan Lywodraeth Cymru yn 2015 a oedd yn edrych ar ffigyrau o dablau'r Cyfrifiad ynghylch gallu plant 3-4 oed i siarad Cymraeg a hynny yn ôl natur ieithyddol y teulu. Bydd rhaid aros i weld os bydd ymchwil o'r math hwn yn cael ei ddatblygu ar gyfer Cyfrifiad 2021.

Byddwn yn sicr o barhau i gydweithio gyda'm partneriaid yn yr Uned Gofal Plant a gyda Mudiad Meithrin i sicrhau codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd trosglwyddiad iaith o fewn aelwydydd yn ystod oes y Strategaeth Iaith nesaf.


Data Gwasanaeth Addysg Cyngor Sir Ceredigion

Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog o addysg yng Ngheredigion – mae 37 o'r 43 ysgol yn y Sir yn rhai cyfrwng Cymraeg neu'n ddwyieithog. Yn ddiweddar fe gyflawnwyd gwaith yn llwyddiannus ar gyfer newid categori ieithyddol ysgolion Ceredigion, yn dilyn argymhellion gan Lywodraeth Cymru.

Mae nifer y disgyblion ym mlynyddoedd 1 i 11 sy'n cael eu haddysgu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, gan gyrraedd nifer uchaf o 5,483 yn 2018/19, mae'r ffaith bod y niferoedd fymryn yn is yn 2020/21 yn adlewyrchu'r nifer llai o ddisgyblion yn y blynyddoedd hynny.

# Plentyndod / Childhood

% y disgyblion a astudiodd y Gymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd ym mlynyddoedd 1-11
% of pupils that studied Welsh as a first language in primary, middle and secondary schools in years 1 -11




Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion Public Services Board

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CySGA) Ceredigion 2022-32; sef cynllun sy'n amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Cymraeg yr awdurdod dros y deng mlynedd nesaf a'r prif amcanion strategol ar gyfer y cyfnod hwn. Erbyn mis Medi 2032, dyhead Cyngor Sir Ceredigion yw y bydd pob disgybl yn ysgolion yr awdurdod yn derbyn addysg drochi cyfrwng Cymraeg hyd nes y bydd yn saith oed. Bydd derbyn sylfaen ragorol wrth siarad a chyfathrebu yn y Gymraeg yn cynyddu ar ddewis a hyder y disgybl i ddilyn trywydd cwbl ddwyieithog drwy weddill ei yrfa addysgol ac wrth wynebu byd gwaith a bywyd cymdeithasol y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn llesol i'r unigolyn ac i sefyllfa'r Gymraeg yng Ngheredigion fel iaith gymunedol. Bydd gweithredu'r CySGA hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn tuag at weithredu Strategaeth Iaith am y cyfnod 5 mlynedd nesaf, gan weithio tuag at gynyddu nifer sy'n siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg ar draws y Sir.

Data Gweithlu Cyngor Sir Ceredigion

Yn unol â threfn Safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol bod y Cyngor yn cynyddu defnydd y Gymraeg yn fewnol drwy weithredu set o Safonau Gweithredu. Mae'r set o safonau hyn (ymhlith nifer fawr o dasgau eraill) wedi gosod y ddyletswydd ar y Cyngor i fesur nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y gweithlu. Yn flynyddol mae'r Cyngor wedi adrodd ar lefelau sgiliau iaith ei weithlu, gan ddefnyddio Fframwaith ALTE (Association of Language Testers in Europe). Mae sgiliau iaith y gweithlu wedi aros yn weddol gyson dros y bedair blynedd diwethaf, yn galonogol mae'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y cohort sgiliau iaith lefel 5, sef lefel hyfedredd yn y Gymraeg; ym mlwyddyn adrodd 2021-22 roedd 32% o staff y Cyngor gyda sgiliau iaith lefel hyfedredd; a dim ond 4% heb ddim sgiliau yn y Gymraeg.

Lefelau Staff y Cyngor : Sgiliau Gwrando a Siarad

| Lefel | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|
| Dim sgiliau | 4% | 4% | 4% | 4% |
| 1 | 18% | 19% | 20% | 20% |
| 2 | 15% | 15% | 14% | 14% |
| 3 | 15% | 15% | 15% | 15% |
| 4 | 14% | 14% | 14% | 15% |
| 5 | 34% | 33% | 33% | 32% |

# ADRAN 5

## Adborth gan bartneriaid ar gyflawni Strategaeth Iaith 2018-23

Er mwyn cynorthwyo yn y broses o gynnal adolygiad ynghylch gweithrediad Strategaeth Iaith gyfredol; ynghyd â gwerthuso Fforwm Dyfodol Dwyieithog fel llwyfan i lywio'r gwaith, cynhaliwyd arolwg yn ystod Ionawr 2022, i gasglu barn rhanddeiliaid.

Rhannwyd yr holiadur gyda holl aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog, mae hyn yn cynnwys rhai o bartneriaid allanol y Cyngor ynghyd a nifer o swyddogion allweddol o fewn y Cyngor mewn gwahanol wasanaethau sy'n berthnasol i weithredu'r Strategaeth. Arweiniodd hyn at 9 o ymatebwyr. Mae'r ymatebion a roddwyd wedi rhoi cipolwg defnyddiol ar gryfderau'r strategaeth a chyfleoedd posibl i gryfhau a datblygu'r strategaeth newydd dros y pum mlynedd nesaf.

Rhannwyd yr holiadur o dan y penawdau canlynol:

- Gweledigaeth
- Effeithiolrwydd
- Cydlyniad
- Canlyniad
- Cryfderau /Gwendidau /Cyfleoedd /Bygythiadau

**Gweledigaeth**
Gofynnwyd i rhanddeiliaid nodi pa mor glir oedd gweledigaeth y Strategaeth Iaith ynghyd a'r 3 nod strategol sydd wedi'i adnabod. Nododd pob un o bartneriaid y Fforwm a ymatebodd bod y weledigaeth a'r nodau yn glir iawn. Mae hyn yn adlewyrchu'r ymrwymiad mae'r rhanddeiliaid hyn wedi'i wneud o'r cychwyn cyntaf wrth gynllunio a datblygu'r Strategaeth. Nododd un o'r ymatebwyr ei bod hi'n glir bod nifer o'r elfennau hefyd yn plethu gyda strategaethau eraill y Cyngor, ac mae'r deallusrwydd hwn yn atgyfnerthu cydweithio.

Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn teimlo, ar lefel weithredol bod y weledigaeth yn glir, ond o bosib bod angen sicrhau ymgysylltiad dyfnach er mwyn sicrhau bod pob sefydliad o safbwynt arweinyddiaeth a'u strategaethau corfforaethol yn adlewyrchu hynny.

**Effeithiolrwydd**
Roedd y cwestiwn hwn yn holi am effeithiolrwydd y camau gweithredu a oedd wedi eu hadnabod fel rhan o gynllun gweithredu'r Strategaeth. Roedd pob un yn teimlo bod y camau yn realistig, fodd bynnag roedd yna deimlad bod cynllunio ieithyddol yn rhywbeth sydd rhaid ei feithrin dros gyfnod o amser, ac felly bod angen fwy o amser ar gyfer cyflawni rhai o'r camau gweithredu na chyfnod o 5 mlynedd, sef oes y Strategaeth Iaith gyfredol. At hyn, roedd barn gref ei bod hi'n anodd mesur cynnydd o safbwynt nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg.

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oes amheuaeth, bod pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar yr iaith, ac ar weithredoedd y Strategaeth o ran medru darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu bywydau o ddydd i ddydd, yn y gwaith, neu wrth gwrdd â chymdeithasu. Wrth brofi lleihad mewn gweithgaredd cymdeithasol mae'r gallu i weld, clywed a defnyddio'r Gymraeg wedi gostwng Hefyd, o bosib gyda mwy o bobl yn medru gweithio o gartref, mae wedi creu ton newydd o fewnfudwyr i'r ardal wledig hon, sydd hefyd yn cael effaith ar ddefnydd y Gymraeg, ac ar y niferoedd sy'n siarad yr iaith o fewn y Sir.

Mae'r pandemig wedi ein gorfodi i newid ein ffyrdd o fyw, effaith hyn oll yw tanseilio defnyddio'r Gymraeg ac amser a ddengys a fedr adfer neu addasu i'r amgylchiadau yn sgil y pandemig. Yn sgìl y newid hwn, , mae angen mwy o amser i weld llwyddiant y camau sydd eisoes ar waith i wireddu gweledigaeth y strategaeth. Bydd angen meddwl am ffyrdd mwy creadigol i hybu'r defnydd o'r iaith, er enghraifft fwy o ddefnydd o dechnoleg fel tic-toc, instagram ayyb.

Ar y llaw arall, rhaid peidio ag anghofio rhai o fuddion y cyfnod clo, er enghraifft digwyddiadau cyhoeddus ar-lein, a agorodd ddrws at gynulleidfa newydd o bosib, ac sy'n ddull cynhwysol i bobl fedru mynychu. At hyn, mae'r cyfnod clo wedi gweld cynnydd yn y nifer sydd wedi dechrau dysgu'r iaith sydd yn galonogol ar gyfer y dyfodol, ac mae'r seilwaith sydd eisoes mewn lle fel rhan o'r strategaeth yn mynd i helpu dysgwyr er mwyn iddynt weld pwrpas mewn dysgu'r iaith, a gallu cymhathu yn naturiol i fywyd byrlymus a chyfoethog y Sir.

**<u>Cydlyniad</u>**

Roedd y mwyafrif yn cytuno bod Fforwm Dyfodol Dwyieithog yn gyfrwng effeithiol i drafod gweithrediad y Strategaeth; mae'r Fforwm yn blatfform da ar gyfer dod a phartneriaid at ei gilydd, ac mae'n allweddol ar gyfer ceisio codi ymwybyddiaeth a hyder ein partneriaid gwirfoddol i weithredu.

Nodwyd ei bod hi'n anodd ar adegau ceisio darbwyllo sefydliadau partner i weithredu gweledigaeth y Strategaeth, yn enwedig rheiny nad ydynt yn dod o dan gylch gorchwyl Safonau'r Gymraeg. Cafwyd sylwadau hefyd, yn nodi elfen o bryder ynghylch a oes gan y Cyngor yr adnoddau a'r strwythur cymorth priodol i helpu i weithredu'r strategaeth yn llawn.

At hyn cafwyd rhai sylwadau ar gyfer atgyfnerthu'r gwaith i'r dyfodol:

- Mae'r fforwm yn blatfform da ar gyfer rhannu gwybodaeth, ond mae angen edrych yn fwy gofalus o ran sut gallwn ddangos tystiolaeth bod gwahaniaeth yn digwydd h.y. defnydd iaith yn cynyddu, nifer o siaradwyr Cymraeg yn tyfu.
- O bosib angen creu strwythur o is-grwpiau, er mwyn caniatáu lle i drafod eu meysydd penodol, ac yna adrodd nôl i'r prif grŵp.
- Credwn fod y lefel weithredol o fonitro gweithgaredd yn effeithiol, ond bod lle i amau a yw'r ymgysylltiad ar lefel gorfforaethol yn ddigonol, e.e. drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a/neu ddull arall o gadarnhau ymlyniad strategol.
- Dylid ystyried a fyddai modd i'r partneriaid gyd-weithio fel grŵp ar brosiect penodol fel rhan o'r strategaeth nesaf.

Nodwyd bod y Cyngor wedi cynnwys partneriaid yn dda ar lefel weithredol, ond bod angen sicrhau ymlyniad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus neu ymlyniad strategol drwy ddull arall megis Memorandwm o Ddealltwriaeth neu gytundeb partneriaeth rhwng y sefydliadau partner ar lefel arweinyddiaeth.

**Canlyniad**

Gofynnodd yr arolwg i rhanddeiliaid roi sylwadau ar ganlyniad gweithredu'r strategaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o fewn y Cyngor yn ogystal â phartneriaid allanol yn cytuno eu bod wedi gweld newid cadarnhaol mewn agwedd o ran hybu'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau, ond ei bod yn llawer mwy anodd darparu tystiolaeth ynghylch newid positif mewn ymddygiad o ran defnyddio'r Gymraeg ymhlith defnyddwyr gwasanaeth.

Yn ystod oes y Strategaeth, fe welwyd datblygiadau o fewn ein sefydliadau sydd yn gadarnhaol o safbwynt cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau, cyfleoedd dysgu a gweithgareddau diwylliannol. Fodd bynnag nododd un ymatebydd, o bosib bod dylanwad deddfwriaeth a mesurau cenedlaethol (Mesur y Gymraeg: llunio Strategaeth Cymraeg 2050) wedi cael llawer iawn fwy o ddylanwad ar y 'shifft' ieithyddol, yn hytrach na

phriodoli'r newid positif yn y cyswllt hwn i Strategaeth Iaith 2017-23, er ei fod yn hollol briodol bod Strategaeth Gymraeg Sirol yn ei lle yng Ngheredigion.

Ar nodyn cadarnhaol, nododd nifer o'r ymatebwyr eu bod yn credu bod mwy y gall eu maes gwasanaeth ei wneud, er mwyn sicrhau llwyddiant y strategaeth, fodd bynnag mae angen arweiniad ac anogaeth pellach i wireddu hyn; mae hyn felly yn argoeli'n dda ar gyfer datblygu strategaeth o'r newydd am y cyfnod 5 mlynedd nesaf.

Dadansoddiad Model SWOT: Adborth gan Bartneriaid:

Gofynnwyd i'r holl rhanddeiliaid beth oedd eu barn ynghylch cryfderau a gwendidau Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23; ynghyd â pha gyfleoedd a bygythiadau sydd ar gyfer datblygu Strategaeth newydd am y cyfnod pum mlynedd nesaf. Dyma'r canlyniad:

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| • Ceredigion yn parhau yn un o gadarnleoedd y Gymraeg<br>• Mae'r iaith yn cael mwy o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ynghyd â Fframwaith Strategol Cymraeg 2050<br>• Strategaeth Iaith yn gosod fframwaith sy'n amlinellu sut bydd Ceredigion fel Sir yn cefnogi Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050.<br>• Fforwm Dyfodol Dwyieithog darparu llwyfan i rannu gwybodaeth a deall meysydd gwaith gwasanaethau a sefydliadau eraill o fewn y Sir<br>• Fforwm buddiol o ran tynnu ynghyd holl elfennau hybu a hwyluso defnydd iaith mewn un man<br>• Strategaeth sy'n plethu gyda nifer fawr o strategaethau eraill o fewn y Cyngor<br>• Mae ewyllys gref i ddatblygu defnydd yr iaith o fewn cymunedau<br>• Strategaeth Economi Ceredigion yn cydnabod bod y Gymraeg yn sgil pwysig yn y gweithle<br>• Cynnydd yn nifer sy'n dysgu Cymraeg<br>• Addysg cyfrwng Cymraeg yn ased i ddisgyblion Ceredigion | • Mae'n anodd iawn mesur cynnydd ac effaith gwirioneddol y Strategaeth<br>• Ffynonellau data cenedlaethol ynghylch sefyllfa'r Gymraeg yn darparu adroddiadau gwahanol ar y sefyllfa ieithyddol – mae'n fater cymhleth.<br>• Diffyg adnoddau a chyllid digonol i'r Strategaeth gael effaith wirioneddol<br>• Ymlyniad strategol o du arweinyddiaeth rhai partneriaid a chyd-weithredu ar lefel gorfforaethol yn isel<br>• Diffyg ymrwymiad llawn i'r weledigaeth gan rhai gwasanaethau a phartneriaid allanol<br>• Fforwm Dyfodol Dwyieithog yn rhy eang i annog trafodaeth ar elfennau penodol o'r Strategaeth Iaith<br>• Prisiau tai fforddiadwy – prisio pobl leol allan o'r farchnad dai<br>• Economi gwan, mae llawer o bobl ifanc yn gadael y Sir i ddod o hyd i swyddi mwy llewyrchus mewn mannau eraill<br>• Cyflogau isel cyfartalog<br>• Prinder arweinwyr cymunedol a diffyg olyniaeth<br>• Diffyg hyder siaradwyr Cymraeg wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn peuoedd cyhoeddus<br>• Diffyg technoleg ddigidol yn y Gymraeg |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| • Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wireddu Strategaeth Cymraeg 2050<br>• Bydd gweithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg dros y 10 mlynedd nesaf yn cael dylanwad positif, gyda'r nod o gynhyrchu fwy o siaradwyr Cymraeg rhugl yn ystod oes y cynllun. | • Niferoedd siaradwyr Cymraeg yn gostwng yn ôl adroddiadau Cyfrifiad 2021<br>• Pobl Ifanc y Sir yn gadael ar ôl addysg ffurfiol er mwyn cyfleoedd gwaith gwell<br>• Diffyg tai fforddiadwy |

| | |
|---|---|
| • Yr angen am Strwythur atebolrwydd cliriach<br>• Chwilio am gyfleodd ar gyfer cysylltiadau cydweithio cryfach rhwng partneriaid wrth weithredu'r strategaeth<br>• Adolygu Fforwm Dyfodol Dwyieithog a chyfle i greu is-grwpiau sydd yn canolbwyntio ar feysydd penodol<br>• Y Cwricwlwm Dysgu Newydd - cyfleoedd o'r newydd i gryfhau ymwybyddiaeth y Gymraeg. Sicrhau bod cyrsiau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru a Cheredigion. Dealltwriaeth ynghylch y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.<br>• Mwy o swyddi sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg fel sgìl hanfodol.<br>• Hyrwyddo hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Datblygu a chynyddu y dechnoleg sydd ar gael yn y Gymraeg, er mwyn gwneud y Gymraeg yn fwy hygyrch<br>• Cynnig ynglŷn â deddfwriaeth i ail gartrefi<br>• Rhaglenni economaidd rhanbarthol megis prosiectau Twf Canolbarth a Gorllewin Cymru<br>• Prosiect Arfor 2: rhaglen newydd i'w darparu gan Geredigion a fydd yn helpu i gryfhau gwydnwch economaidd y Gymraeg<br>• Potensial i wella'r cyflwr yr economi yn lleol, Tyfu Canolbarth Cymru / Arian Lefelu i Fyny<br>• Goblygiadau Safonau'r Gymraeg ar sefydliadau cyhoeddus i weithredu er lles y Gymraeg<br>• Dylid ystyried a fyddai modd i'r partneriaid gyd-weithio fel grŵp ar brosiect penodol fel rhan o'r strategaeth nesaf. | • Rhieni ddim yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant<br>• Diffyg adnoddau a chyllid i weithredu'r strategaeth yn llawn<br>• Covid-19 a'i waddol effaith niweidiol ar y defnydd o'r iaith Gymraeg.<br>• Amharodrwydd partneriaid i newid er mwyn sicrhau darpariaeth a chyfleoedd Cymraeg newydd<br>• Diffyg adnoddau digonol yn y Gymraeg (ffonau clyfar, apiau)<br>• Heriau cymhathu mewnfudwyr i gymunedau Cymru<br>• Agweddau negyddol tuag at y Gymraeg a'i threftadaeth<br>• Data'r cyfrifiad ar nifer y siaradwyr Cymraeg, a dirywiad ym mhoblogaeth Ceredigion. |

# ADRAN 6

## Casgliadau

Er mwyn mynd i'r afael â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau dan sylw, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bodloni gofynion safon 145 yn llawn drwy osod targed o ran canran a nifer y siaradwyr yn yr ardal, ynghyd ag amlinellu yn y strategaeth sut y byddai'n anelu at gyflawni'r targed hwnnw ar ffurf cynllun gweithredu a thargedau.

Mae'r adolygiad hwn yn mynd i'r afael â'r gofyniad yn safon 146 o ran asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi dilyn y strategaeth a chyrraedd y targed a osodwyd. Mae'r adroddiad yn Atodiad 1 yn rhoi darlun cynhwysfawr o gyflawniad y camau gweithredu, ac yn adrodd ar ddangosyddion perfformiad, lle mae hynny'n bosib.
Mae'n glir o'r adroddiad hwn bod gwaith sylweddol wedi ei gyflawni o ganlyniad i weithredu'r strategaeth. At hyn mae'r adborth a gafwyd gan bartneriaid mewnol ac allanol yn darparu ystyriaethau defnyddiol ar gyfer cyflawni strategaeth bum mlynedd ddiwygiedig ar gyfer 2024-2029 i'w datblygu maes o law.

Mae Ceredigion yn parhau i gael ei ystyried fel un o gadarnleoedd y Gymraeg, ac mae'n Sir allweddol o ran cynllunio twf a ffyniant yr iaith. Ar yr olwg cyntaf bu canlyniadau'r Cyfrifiad yn siom i Geredigion, ni welwyd y cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg fel ag yr oedd Strategaeth Iaith Ceredigion wedi gobeithio. Fodd bynnag, dim ond bob degawd ceir canlyniadau y Cyfrifiad, ac yn y cyfamser mae gwybodaeth ac astudiaethau pellach ynghylch yr Iaith Gymraeg ar gael. Mae'r astudiaethau hyn yn dueddol o ffurfio darlun mwy optimistaidd o sefyllfa'r Gymraeg o gymharu â chanlyniadau'r cyfrifiad; er enghraifft yn mis Medi 2020 roedd niferoedd siaradwyr Cymraeg wedi codi i 60.9% yng Ngheredigion yn ôl Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn rhybuddio bod rhaid bod yn ofalus wrth ystyried y ffigurau, gan mai arolwg sy'n seiliedig ar hunanasesiad yw'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, ac am y rheswm hwn nid yw Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at ei tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, mae'n medru darparu tueddiadau defnyddiol dros ben.

Wrth ystyried ffigurau'r cyfrifiad, mae'n bwysig edrych hefyd ar yr elfennau cadarnhaol;
er enghraifft gwelwyd cynnydd (er yn fychan) o ran canrannau yn y grŵp oedran 16-19 oed, ac yn grŵp oedran 20-44 oed. Mae'r grwpiau hyn yn bwysig, ac yn dangos o bosib bod mwy o bobl yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg ar ôl ymadael ag addysg ffurfiol. Roedd Ceredigion yn cynnwys y drydedd ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg o blith holl awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, ar ôl Gwynedd ac Ynys Môn. Mae canran y preswylwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd yng Ngheredigion wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf hefyd, o 43% yn 2016, i 45% yn 2021. (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2021). Gellid dadlau y gallai cynyddu defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd fod yn llawer mwy dylanwadol ar gyfer twf yr iaith na'r niferoedd sy'n ei siarad.

Mae'r Cyngor o'r farn bod cyhoeddi Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, ynghyd â gweithredu Strategaeth Iaith ar lefel lleol wedi creu newid yn yr agweddau tuag at yr iaith Gymraeg, ac yn sgil hynny mae mwy o bobl gyda'r awydd i ddysgu a siarad yr iaith yng Ngheredigion.

Mae cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg yn ddibynnol ar y broses o gryfhau cymunedau Cymraeg, a hynny trwy ddarparu digon o gyfleoedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd. Yn unol â'r Strategaeth Iaith hon, bydd y gwaith ar gyfer y Strategaeth Iaith am y pum mlynedd nesaf hefyd yn mynd i'r afael a chreu'r amgylchiadau cywir hyn, er mwyn ffyniant y Gymraeg.

Mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 wedi gosod nifer o heriau o'r newydd i Geredigion. Mae ymateb i'r heriau hynny, lliniaru'r risgiau sy'n wynebu'r Gymraeg a sicrhau hyfywedd y gymuned iaith Gymraeg yn golygu cynllunio ieithyddol trwyadl. Wrth ddiwygio Strategaeth ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd nesaf, bydd angen i wasanaethau'r Cyngor ynghyd â phartneriaid allweddol ymrwymo i weithio gyda'i gilydd, yn galetach nag erioed o'r blaen, i hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd cymdeithasol ac economaidd y sir: hyn er mwyn gwyrdroi unrhyw ostyngiadau pellach yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Wrth adolygu cyrhaeddiad y Strategaeth Iaith hwn mae'n bwysig cydnabod bod cynllunio iaith yn broses hir sy'n cymryd amser i'w meithrin, fodd bynnag mae'r Cyngor yn teimlo'n hyderus bod y Strategaeth Iaith hwn wedi gosod y seiliau cywir ar gyfer symud ymlaen i'r cyfnod 5 mlynedd nesaf.

**Ystyriaethau ar gyfer Strategaeth Hybu'r Gymraeg am y cyfnod 5 mlynedd nesaf:**

Mae'r heriau sy'n wynebu'r gymuned iaith Gymraeg yng Ngheredigion yn parhau, ymhlith yr heriau hynny mae:

- sicrhau cynnydd yn y cyfraddau trosglwyddo iaith a chymdeithasoli iaith o fewn y sir;
- cynyddu hyder a rhugldér siaradwyr Cymraeg yn eu sgiliau iaith ynghyd a'u hymlyniad at y Gymraeg;
- cynnal a chynyddu'r defnydd cymdeithasol ac economaidd a wneir o'r Gymraeg – yn enwedig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio eu Cymraeg at ddibenion gwaith; a
- sicrhau seilwaith gymdeithasol ac economi gadarn a all gynnal rhwydweithiau a chymdogaethau Cymraeg y sir i'r dyfodol

# ATODIAD 1: Adroddiad Cynnydd ar Weithredu Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23

## Y Cynllun Gweithredu:

**Nod strategol 1:** cynnal a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg trigolion Ceredigion.

**Amcanion:**

1.1 Sicrhau bod cenedlaethau newydd yn caffael sgiliau Cymraeg sylfaenol ar y cyfle cyntaf.
1.2 Sicrhau bod myfyrwyr 3-19 oed yn caffael ac yn datblygu eu medrau Cymraeg yn ystod eu gyrfa addysgol.
1.3 Sicrhau cyfleoedd digonol i oedolion gaffael a datblygu eu sgiliau Cymraeg: yn y gweithle ac yn y gymuned.

**Nod strategol 2:** cynnal a chynyddu'r cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion, mewn amrywiol gyd-destunau.

**Amcanion:**

2.1 Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg ar lefel gymunedol.
2.2 Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg wrth ddarparu a derbyn gwasanaethau cyhoeddus.
2.3 Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg mewn gweithleoedd

**Nod strategol 3:** sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion

**Amcanion:**

3.1 Cynnal statws a bri'r Gymraeg o fewn y gymdeithas, gan hyrwyddo ei gwerth a'r defnydd ohoni.
3.2 Sicrhau economi ffyniannus sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg ac ar sgiliau Cymraeg y gweithlu.
3.3 Sicrhau cymunedau cynaliadwy lle y defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu arferol**.**

## Strategol 1: Cynnal a Chynyddu Sgiliau Iaith Gymraeg trigolion Ceredigion

| Amcan 1.1 Sicrhau bod cenedlaethau newydd yn caffael sgiliau Cymraeg sylfaenol ar y cyfle cyntaf | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Gweithred** | **Sylwadau Cynnydd** | **Dangosyddion** | **Partneriaid** |
| | Darparu Gwybodaeth a chyngor uniongyrchol i rieni ynghylch gwerth y Gymraeg a'r gefnogaeth sydd ar gael | Llyfryn 'Byw a Bod: Astudio a byw yn y Gymraeg yng Ngheredigion, wedi ei rannu i rieni drwy holl ysgolion Ceredigion.<br><br>Mae Tîm Cefnogi'r Gymraeg yng Ngheredigion a Sir Benfro wedi cydweithio i greu llyfryn a fydd o gymorth i rieni a gwarcheidwaid sy'n dysgu Cymraeg wrth i'w plant ddechrau ar eu haddysg yn ysgolion cynradd y sir. Mae'r llyfryn yn cynnig cymorth a geirfa fydd o ddefnydd i rieni a gwarcheidwaid wrth i'w plant wneud gwaith cartref, ymuno a bod yn rhan o gymuned yr ysgol a gobeithio dechrau ar eu taith hwythau o ddysgu Cymraeg hefyd.<br><br>Mudiad Meithrin wedi cynhyrchu adnoddau ynghyd â phodlediadau gan rieni yn sôn am ddewis addysg a gofal cyfrwng Cymraeg i'w plant. | Mae tudalen benodol wedi ei ddatblygu ar y wefan: Cymraeg yn Ysgolion Ceredigion.<br><br>Adnoddau ar wefan Mudiad Meithrin. | Gwasanaeth Addysg<br>Mudiad Meithrin |
| | Hyrwyddo a chefnogi prosiect Cymraeg i Blant yng Ngheredigion, er mwyn annog trosglwyddiad iaith o fewn aelwyd. | Diweddariad y Prif Weithredwr yn cael eu rhannu'n eang yn wythnosol sy'n cynnwys gwybodaeth fwyaf diweddariad ym myd addysg a gofal plant sy'n cefnogi'r cylchoedd i gyflwyno sgiliau iaith i blant cyn oed ysgol y sir. | Ebrill 2022 – Hydref 2022 cynhaliwyd 79 o grwpiau Cymraeg i Blant (yn cynnwys Stori a Chân, Ioga a Thylino Babi) gyda 430 o fynychwyr | Uned Gofal Plant<br>Mudiad Meithrin |

<table>
<tr><td></td><td>Cefnogi Mudiad Meithrin i gynnal a chynyddu eu cylchoedd Ti a Fi.</td><td>Gweler uchod</td><td>Mae nifer y Cylchoedd Ti a Fi yn parhau i godi yn dilyn y cyfnod clo. Ar hyn o bryd mae 10 Cylch Ti a Fi ar agor yn rheolaidd a fydd y nifer yn cynyddu pan fyddwn wedi penodi Swyddog Ti a Fi Teithiol i'r sir. Mae'r nifer sy'n mynychu yn amrywio rhwng 5 a 25 o blant.</td><td>Uned Gofal Plant<br>Mudiad Meithrin</td></tr>
<tr><td></td><td>Cefnogi Mudiad Meithrin a Blynyddoedd Cynnar Cymru, i gynnal a chefnogi darpariaeth eang o gylchoedd meithrin/ Grwpiau Chwarae yng Ngheredigion</td><td>Gweler uchod:</td><td>Mae 25 Cylch Meithrin yn y sir a 5 Meithrinfa Ddydd. Nifer y lleoedd cofrestredig sydd ar gael ar draws y sir yw 490 yn y Cylchoedd Meithrin a 198 yn y Meithrinfeydd Dydd.</td><td>Uned Gofal Plant<br>Mudiad Meithrin</td></tr>
<tr><td></td><td>Codi ymwybyddiaeth gofalwyr plant annibynnol ynghylch gwerth y Gymraeg, gan eu cefnogi i ddarparu gwasanaeth ieithyddol briodol.</td><td>Rhan ariannu Swyddog Datblygu er mwyn cefnogi lleoliadau sy'n cael eu darparu gan Mudiad Meithrin a'r Blynyddoedd Cynnar<br><br>Darparu Cwrs Gwarchodwyr Plant, yn cynnwys Modiwl Defnyddio'r Gymraeg, gyda Menter Iaith Cered yn darparu sesiwn ar ymwybyddiaeth iaith.<br><br>Hyrwyddo cwrs dysgu Cymraeg 'Camau', cwrs am ddim sydd wedi'i deilwra ar gyfer y sector.<br><br>Mae Aberystwyth ac Aberaeron wedi cael eu nodi fel dwy ardal lle mae angen mwy o ddarpariaeth gwarchodwyr plant cyfrwng Cymraeg<br><br><u>Newyddion da:</u><br>➢ Gwarchodwraig Plant o Landysul, sy'n darparu gwasanaeth gwarchod plant yn Gymraeg, wedi ennill gwobr Gofalwn Cymru 2021, am ei</td><td>Nifer y darparwyr gofal plant sy'n medru darparu gwasanaeth yn unol a meini prawf Llywodraeth Cymru / Arolygaeth Gofal Cymru (AGC):<br>• Cymraeg yn unig<br>• Cymraeg a Saesneg (dwyieithog)<br>• Saesneg yn unig<br><br>Mae darpariaeth Cymraeg wedi gostwng ychydig ers 2021 oherwydd wedi ymddeol neu wedi cau y busnes<br><br><table>
<tr><th></th><th>Mehefin 2021</th><th>Mehefin 2022</th><th>Medi 2022</th></tr>
<tr><td>Cymraeg</td><td>47</td><td>48</td><td>46</td></tr>
<tr><td>Cymraeg a Saesneg (Dwyieithog)</td><td>10</td><td>10</td><td>10</td></tr>
<tr><td>Saesneg</td><td>34</td><td>34</td><td>34</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm Lleoliad</td><td>91</td><td>92</td><td>90</td></tr>
<tr><td>% Cymraeg a dwyieithog</td><td>63%</td><td>63%</td><td>62%</td></tr>
</table></td><td>Uned Gofal Plant</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | rhagoriaeth wrth ddarparu gofal i blant bach.<br>➢ Aelod o staff, Meithrinfa Aberporth, wedi ennill **Gwobr Dysgwr y Flwyddyn 2021** Blynyddoedd Cynnar Cymru drwy'r cynllun 'Camau', am ei hagwedd eithriadol a'i hymrwymiad at ei thaith dysgu Cymraeg (drwy cynllun Camau). | Mae nifer yn datgan eu bod yn fusnes dwyieithog, oherwydd yr angen i ddenu plant o gartrefi di-Gymraeg hefyd. Nod yr Uned felly yw annog sefydliadau dwyieithog i wneud fwy o ddefnydd o'r Gymraeg, er mwyn paratoi plant ar gyfer derbyn eu haddysg Gynradd yn y Gymraeg. | |

| **Amcan 1.2 Sicrhau bod myfyrwyr 3-19 oed yn caffael ac yn datblygu eu medrau Cymraeg yn ystod eu gyrfa addysgol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Gweithred** | **Sylwadau Cynnydd** | **Dangosyddion** | **Partneriaid** |
| | Ehangu darpariaeth addysg Gymraeg mewn ysgolion trwy weithredu **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Ceredigion.** | CySGA 2022-32 wedi ei gymeradwyo gan LlC a chynllun gweithredu yn cael ei lunio a'i gyflwyno erbyn Rhagfyr 16eg 2022 i Lywodraeth Cymru<br><br>Y broses categoreiddio wedi bod yn llwyddiannus. Wedi llunio datganiad i bob ysgol i roi ym Mhrosbectws yr ysgol. Pob corff llywodraethol wedi cytuno ar gategori gan gynnwys rhai trosiannol o ran darpariaeth Gymraeg<br><br>Mewn cydweithrediad gydag adran Dysgu Cymraeg Ceredigion a Phowys llwyddwyd i dderbyn grant i gynnal tiwtor Cymraeg i Rieni am flwyddyn yn y lle cyntaf. Mae 56 o Rieni wedi manteisio ar y cyfle hyd yn hyn.<br><br>Trwy lawnsio pecyn Cwpan y Byd a sesiynau barddoni rydym wedi Llwyddo i godi ymwybyddiaeth a balchder | <u>Ysgolion Cynradd</u>:<br>74% (3,018 allan o 4,066 disgybl) o ddisgyblion Bl1-6 yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg<br><br><u>Ysgolion Uwchradd</u><br>68% (2,439 allan o 3,591 disgybl) o ddisgyblion Bl7-11 yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg<br><br>O gohort Bl11 wnaeth sefyll arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf yn Haf 2022, canran ohonynt a dderbyniodd gymwysterau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg (ac eithrio disgyblion Penglais):<br><br>2+ TGAU = 56%<br><br>5+ TGAU= 27% | Gwasanaeth Addysg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | diwylliannol disgyblion a'r gymuned ehangach trwy rhyddhau dwy fideo<br><br>Pythefnos Trochi ieithyddol wedi digwydd yng nghylch Aberystwyth. Rhyddhawyd athrawon i weithio ar unedau addas ar gyfer yr amser hwn. Bu'n gyfnod o gydweithio dan arweiniad y tîm Cefnogi'r Gymraeg er mwyn cefnogi sgiliau ieithyddol ac addysgeg trochi iaith athrawon a staff ategol. | 49 % o ddisgyblion Bl 11 a adawodd gyda gradd A*-C Cymraeg Iaith 1af | |
| | Hyrwyddo mabwysiad Siarter Iaith Ceredigion – Ceri Siarad,(Cynradd ac Uwchradd), er mwyn annog defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth. | Gwaith y siarter yn mynd rhagddi. 3 ysgol wedi cyrraedd yr Aur y tymor hwn. Gwell ymroddiad oddi wrth rhan fwyaf o'r ysgolion Uwchradd | 39 Ysgol Gynradd<br>4 Aur<br>16 Arian<br>19 Efydd | Gwasanaeth Addysg |
| | Cynnal canolfannau trochi iaith ar gyfer hwyrddyfodiaid | Sicrhau bod hwyrddyfodiaid i'r sir yn derbyn sylfaen dda o iaith ar gyfer ymdoddi i'r ysgolion cynradd. 3 Canolfan Felin-fach, Aberteifi a Tregaron. | 3 canolfan iaith wedi rhedeg ers Medi 2022 cyfanswm o 20 disgybl | Gwasanaeth Addysg |
| | Cynyddu'r nifer a'r ganran o fyfyrwyr 16-19 oed sy'n derbyn cyfran o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n ddwyieithog. | Mae'r Gwasanaeth Addysg wedi amlinellu ei gynlluniau yn y CSGA. Bydd yr awdurdod yn cefnogi ysgolion Uwchradd i gymryd camau i gynyddu nifer y cymwysterau y gall dysgwyr eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y CSGA.<br><br><u>Coleg Ceredigion</u><br>Ers 2021 mae disgwyl i'n holl staff ddilyn ein rhaglen fewnol o hyfforddi ar gyfer creu dosbarthiadau dwyieithog 'Sylfaen, Gwell Gorau'. Mae llwyddiant hyn yn dibynnu tipyn ar allu ieithyddol y tiwtoriaid sydd yn darparu'r pynciau | Nid yw'r data penodol yma ar gael.<br>Yn Haf 2022 derbyniodd 12 o fyfyrwyr gymhwyster Safon Uwch Cymraeg, a 2 Safon Uwch AS.<br><br>Nid yw'r data penodol yma ar gael. | Gwasanaeth Addysg<br>Hyfforddiant Ceredigion<br>Coleg Ceredigion. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Trwy ddefnyddio cyllid gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, rydym wedi gallu cyflogi tiwtoriaid penodol i ddysgu yn ddwyieithog/trwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau blaenoriaeth sef Gofal Plant, Gwasanaethau Cyhoeddus a Chwaraeon. Mae darpariaeth ddwyieithog gryf gennym hefyd yn Iechyd a Gofal, Busnes, Gwaith Saer ac Adeiladwaith.<br><br>Mae pob myfyriwr yn cael sesiwn ar ymwybyddiaeth gwerth y Gymraeg yn ystod wythnos anwytho ac yna byddwn yn gwneud gweithgareddau i ddathlu digwyddiadau fel Shwmae, Shwmae, Diwrnod Mae Gen i Hawl ayyb. Mae gennym raglen benodol ar gyfer y flwyddyn academaidd. Yn ogystal, mae ein Swyddog iaith Cymraeg yn rhedeg sesiynau 'Cwrs Cwta' gyda grwpiau penodol. Bydd sesiynau hyn tua 6 wythnos o hyd (un awr yr wythnos) lle maent yn cael ymwybyddiaeth iaith o ran eu pynciau/cwrs ac yn gwneud gweithgareddau perthnasol ar y diwedd<br><br><u>Hyfforddiant Ceredigion</u><br><br>Yn ôl canlyniadau holiadur dysgwyr 2022 dangoswyd bod 86% o ddysgwyr yn cael y cyfle i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.<br>Mae 84% o ddysgwyr yn defnyddio'r iaith Gymraeg o fewn ei cwrs ac yn y gweithle. | <u>Hyfforddiant Ceredigion</u><br>Cyfanswm 65 o ddysgwyr 16-19 oed<br><br>**13** dysgwr wedi'u codio fel B2 = 20% (Swm sylweddol o ddysgu cyfrwng Cymraeg e.e. Cymraeg llafar ac ysgrifenedig yn cael ei defnyddio mewn llawer o rannau o'r gweithgaredd dysgu, ond nid pob un. Asesu yn Saesneg yn bennaf ond efallai fod rhai yn Gymraeg hefyd) | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae 2 brentis sydd yn Llysgenhadon Cymraeg ar gyfer Colegau Cymraeg sydd yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y ganolfan<br><br>Targedau ar gyfer 2022: cynyddu nifer o adnoddau Cymraeg sy'n cael eu defnyddio o fewn ein sectorau amrywiol. | **52** o ddysgwyr wedi'u codio fel B3 = 80% (Ychydig bach o ddysgu cyfrwng Cymraeg e.e. defnydd o'r Gymraeg yn gyfyngedig i gyfathrebu geiriol neu i ran fach o'r gweithgaredd dysgu. Asesiad uniaith Saesneg. | |
| | Annog ysgolion i gymryd mantais o'r cyfleoedd cyfrwng Cymraeg a gynigir drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid. | Gweithiwr Ieuenctid (6 yn medru'r Gymraeg ALTE 5, ac 1 yn dysgwr) ym mhob ysgol Uwchradd ar draws y Sir.<br>• Clybiau amser cinio ym mhob ysgol, ynghyd a 4 Clwb ar ôl ysgol<br>• Rhaglenni gwyliau ar gael i bobl ifanc rhwng 11-25 oed.<br>• 3 Clwb Ieuenctid o fewn y Sir: Aberystwyth, Aberaeron ac Aberteifi sydd ar agor yn wythnosol<br>• Gweithgareddau bod dydd Sadwrn sy'n agored i bawb<br>• Grŵp Ôl 16: Cynnwys cefnogaeth 1-1. cefnogaeth wythnosol a sesiynau grŵp yn amrywio i ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol pobl ifanc, er mwyn trosglwyddo i gyflogaeth, Addysg neu hyfforddiant pan fyddant yn barod.<br>Cyfranogi: Mae pobl ifanc y Sir yn cael cyfle i gyfranogi drwy nifer o brosiectau sy'n cael eu harwain gan Swyddog Cyfranogi Plant a Phobl Ifanc; Cyngor Ieuenctid Ceredigion; Fforwm Ieuenctid Ceredigion (Panel Dewis); Grwp Llysgenhadon Cymunedol Aberystwyth; Hawliau Plant a Phobl Ifanc; Ymgynhgoriadau | Cynigir dros 60% o ddarpariaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a'r gweddill yn ddwyieithog. Cyfradd boddhad 100% gan bobl ifanc ym mhob rhaglen gweithgareddau gwyliau.<br>Er mwyn sicrhau gwelediad y Gymraeg, mae pob adnodd a deunydd hyrwyddo, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a gwaith ieuenctid digidol yn cael eu hyrwyddo'n ddwyieithog | Gwasanaeth Ieuenctid CSC |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae'r tîm yn sicrhau bod cyfleoedd amrywiol i bobl ifanc glywed y Gymraeg ym mhob sesiwn, beth bynnag yw'r thema. Yn defnyddio digwyddiadau fel dydd gŵyl dewi, pêl droed a rygbi ayyb i ddathlu diwylliant a diwydiant Cymraeg. Wedi cynnal prosiectau sy'n rhoi'r cyfle i bobl ifanc o aelwydydd di-gymraeg, ddeall a dysgu am eu hardaloedd lleol e.e. Prosiect Cymraeg 2050. Mae'r rhain wedi bod yn hynod o lwyddiannus yn torri lawr y stigma o siarad Cymraeg. Yn gweithio gyda llawer o deuluoedd sydd wedi symud i mewn i'r ardal, yn aml heb unrhyw rybudd oherwydd amgylchiadau cymhleth, ac mae llawer o'r rhain wedi elwa o prosiectau tebyg yn y gorffennol. | | |

| **Amcan 1.3 Sicrhau cyfleoedd digonol i bobl ifanc ac oedolion gaffael a datblygu eu sgiliau Cymraeg: yn y gweithle ac yn y gymuned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Gweithred** | **Sylwadau Cynnydd** | **Dangosyddion** | **Partneriaid** |
| | CSC i ddarparu ystod o gyfleoedd mewnol i staff gaffael, gwella eu medrau Cymraeg, drwy fanteisio ar gynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, a chodi ymwybyddiaeth o ddulliau amgenach o ddysgu iaith gan hyrwyddo technoleg newydd ee Say Something in Welsh | Y Cyngor wedi sefydlu partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol er mwyn ariannu Tiwtor Cymraeg Gwaith.<br>Cynhaliwyd 7 dosbarth dwys wythnosol gan y Swyddog Hyfforddi, oll ar lefelau gwahanol | 65 o aelodau staff ar amrywiol gyrsiau i ddysgu Cymraeg, sy'n cynnwys 5 aelod o staff ar Gwrs Dysgu Cymraeg lefel Uwch.<br><br>Cynnal Clwb Cinio yn wythnosol, cyfle i ymarfer Cymraeg yn anffurfiol. | CSC Hyfforddiant Corfforaethol |
| | Cydweithio â Phrifysgol Aberystwyth i hyrwyddo ei ddarpariaeth Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr, gan gynnwys:<br>• Cyrsiau cymunedol prif ffrwd yn y gymuned, Rhaglen Integredig Cymraeg i'r Teulu. | Y cyrsiau cymunedol yn parhau ar-lein yn dilyn pandemig Cofid. Mae hi'n anodd cymharu os oes newid yn y niferoedd, gan bod nifer o ddysgwyr Ceredigion, ers symud i ddysgu ar-lein, yn dysgu gyda darparwyr eraill erbyn hyn. At hyn mae dysgwyr o ardaloedd eraill wedi ymuno, hyn gan bod cymaint o ddewis. | **670** o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyrsiau dysgu Cymraeg yn y gymuned<br>**151 (22%)** wedi cofrestru ar gyrsiau lefel Uwch neu Hyfedredd<br>**23** o gofrestriadau Cymraeg i'r Teulu: **82.61%** wedi cwblhau | **Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Ceredigion, Sir Gâr a Powys.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyrsiau Atodol yn cynnwys, rhain yn gyrsiau ar-lein<br>Sadyrnau Siarad<br>Cyrsiau Chwefror<br>Cyrsiau Pasg<br>Cyrsiau Haf<br>Nid ydym yn cadw cofnod o'r dysgwyr sy'n mynychu digwyddiadau anffurfiol i gefnogi'r dysgu. O ran Sadyrnau Siarad a chyrsiau atodol, er bod gennym y niferoedd a fynychodd y cyrsiau does dim manylion gennym am ddysgwyr yn benodol o Geredigion gan bod y cyrsiau hyn wedi eu cynnal yn gyfan gwbl ar-lein, gyda mynychwyr o bob rhan o Gymru a thu hwnt. | Cymraeg yn y Gweithle: 2 x cwrs dwys Codi Hyder i staff Hywel Dda 4/10/21 - 31/4/22 = **48** sesiwn | |
| | Annog cyrff sy'n aelodau o Fforwm Dyfodol Dwyieithog i fanteisio ar gynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol | Cyflwyniad gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg wedi ei gynnwys fel rhaglen waith Fforwm Dyfodol Dwyieithog: deunydd cyhoeddusrwydd ac adnoddau wedi'u rhannu'n eang.<br><br><u>Coleg Ceredigion</u><br>Gweithio gyda 'Sgiliaith' i annog staff i gofrestru ar lwybr hyfforddiant 'Mentora' un i un. Sgiliaith yn gwneud sesiynau grŵp gyda'n holl staff yn flynyddol. Ers 2021 mae disgwyl i'n holl staff ddilyn ein rhaglen fewnol o hyfforddi ar gyfer creu dosbarthiadau dwyieithog 'Sylfaen, Gwell Gorau'<br><u>Cyfoeth Naturiol Cymru</u><br>Ennill gwobr Cyflogwr Cymraeg Gwaith y Flwyddyn 2022; Cynllun Mentora ar gyfer dysgwyr gan gynnwys trefnu sesiynau adolygu ar gyfer dysgwyr os oes eisiau; | <u>Coleg Ceredigion</u><br>9 aelod o staff ar gwrs 'Cymraeg Gwaith'<br><br><u>Cyfoeth Naturiol Cymru</u><br>20 o ddysgwyr ar amrywiol gyrsiau, gan gynnwys 1 aelod o staff ar Gwrs Lefel Uwch.<br>4 wedi cofrestru i ddysgu drwy Say Something in Welsh | Coleg Ceredigion<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Prifysgol Aberystwyth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cynnig Say Something in Welsh ar gyfer ein staff ar gytundebau tymor byr ac i staff canolfannau ymwelwyr.<br>Dysgwyr yn rhan o'r Grŵp Pencampwyr er mwyn medru clywed y Gymraeg yn cael ei siarad yn naturiol.<br><u>Prifysgol Aberystwyth</u><br>Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynorthwyo'r Brifysgol i weithredu'n ddwyieithog. Mae gwaith y Ganolfan yn cynnwys cefnogi adrannau academaidd i ddatblygu prosiectau drwy'r Gymraeg, darparu gwasanaeth cyfieithu, cynnig a chydlynu gwasanaeth cefnogi cynhwysfawr i staff a myfyrwyr drwy'r Gymraeg ac anelu at sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Cynhelir sesiwn sgwrsio bob pythefnos yng Nghanolfan y Celfyddydau a Chlwb Cinio Cymraeg bob tair wythnos ar gyfer staff ar bob lefel i sgwrsio ac ennyn hyder yn y Gymraeg.<br><br><u>Bwrdd Iechyd Hywel Dda</u><br><br>Wedi gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol i gynnal amryw o gyrsiau i staff; Cyrsiau Hunan Astudio, Cyrsiau Dwys a chyrsiau Codi Hyder.<br>Newydd i Ionawr 2023 – mae'r bwrdd iechyd wedi amrwymo i gynllun Cymraeg Gwaith i ddarparu Cyrsiau Codi Hyder i 100 o staff yn ystod y flwyddyn – cynllun wedi'i ariannu'n llawn a darparu tiwtor am y flwyddyn | <u>Prifysgol Aberystwyth</u><br>Mae 82 o aelodau staff ar amrywiol gyrsiau i ddysgu Cymraeg, gyda 7 yn astudio ar lefel Uwch.<br><br><u>Bwrdd Iechyd Hywel Dda</u><br>Cyrsiau hunan-astudio – 95 wedi cwblhau<br>Cyrsiau Preswyl – 3<br>Cyrsiau Codi Hyder 14<br>Clwb Clonc 7<br>Cwrs Blasu 5 | |

**Nod Strategol 2: cynnal a chynyddu'r cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion, mewn amrywiol gyd-destunau.**

| **Amcan 2.1** | **Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg ar lefel gymunedol** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Gweithred** | **Sylwadau Cynnydd** | **Dangosyddion** | **Partneriaid** |
| | Gweithredu rhaglen waith benodol drwy gyfrwng Cered, gan gynnwys:<br>• cynnal grwpiau Gweithredu'n Lleol,<br>• cynnal cyfleoedd allgyrsiol i blant a phobl ifanc,<br>• hyrwyddo'r Gymraeg ymysg busnesau'r sir, e.e. Siarter Iaith Ceredigion, a<br>darparu gwasanaeth gwybodaeth, adnoddau a chyfeirio. | Cered wedi parhau i gynnal rhaglen lawn o weithgaredd cymunedol gan gynnwys digwyddiadau wyneb i wyneb a hefyd digwyddiadau rhithiol. Mae'r gweithgareddau hynny wedi cynnwys: Sgyrsiau Bocs Atgofion gyda chymdeithasau amrywiol, Rhaglenni Radio Cefn y Rhwyd, Cynllun Gwirfoddolwyr Castell Aberteifi, Rhaglen Teithiau Cerdded Ar Gered, Cerddorfa Iwcadwli; Boreau Coffi/Sgyrsio, Podlediadau "Cwmni Rôl Cinio" a "Pwnc Llosg", Cwisys Arlein, Theatr Soffa – perfformiadau theatrig ar lein.<br><br>Yn ogystal mae Cered wedi parhâu i gynnal rhaglen o bostiadau dyddiol ar dudalennau Facebook Cered a Browlan (tudalen FB ar y cyd gyda Menter Iaith Sir Benfro)<br><br>Prosiect cymunedol Yr Ardd – gweithio'n ddwys gyda chymuned ardal Llandysul gyda'r ffocws ar weithgaredd o gwmpas gardd gymunedol gan gynnwys hefyd Pared Llusernau, Gweithdai crefft, Clwb garddio, Sgyrsiau a Chyflwyniadau. | Nifer y gweithgareddau a hwylusir<br>11 - Plant a phobl ifanc<br>23 - Teuluoedd<br><br>Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth dan gynllun Gynllun Helo Blod<br>53: Busnesau wedi cysylltu a nhw<br>32: Wedi gweithio'n ddwys gyda nhw<br><br>Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf mae rheoliadau Cofid wedi golygu na fu modd cynnal rhaglen lawn o weithgareddau wyneb yn wyneb | Menter Iaith Cered |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cefnogi rhaglen waith benodol Cyfoeth Naturiol Cymru i gynyddu'r cyfleoedd defnyddio'r Gymraeg. | Fel rhan o'r sgwrs genedlaethol prosiect Natur a Ni a oedd yn cymryd lle yn rhithiol, cynigwyd ystafelloedd trafod yn Gymraeg yn y gweithdai. Sefydlwyd grwpiau ffocws bach o hyd at 10 aelod ar-lein yn rhanbarthol ledled Cymru. Er hyn isel iawn oedd y galw am ymuno yn Gymraeg ym mhob rhanbarth, felly trefnwyd un digwyddiad Cymraeg dros Gymru gyfan yn hytrach na phob rhanbarth.<br><br>Mae cylchlythyr misol Addysg a Dysgu a gynhyrchir yn ddwyieithog yn cael ei ddosbarthu i tua 5,500 o addysgwyr, ac mae'r niferoedd yn cynyddu bob mis, sy'n cynnwys arferion da gan grwpiau addysg ac addysgwyr o bob rhan o Gymru.<br><br>Mae adnoddau addysg ddwyieithog newydd ar gael eleni ar ein tudalennau gwe ac ar Hwb (Dysgu Digidol Cymru)<br><br>Medi 2021 - lansiwyd saith cyfrif lleol newydd ar Twitter a Facebook. Gweithredir yr holl gyfrifon hyn yn ddwyieithog yn hytrach nag ar wahân er mwyn hyrwyddo a hybu'r iaith fel iaith fyw i gynulleidfa dros Gymru, DU ac ymhellach.<br><br>Adnewyddwyd dyluniad ein gwefan i'w gwneud yn haws ac yn gynt i'w defnyddio, gan sicrhau bod y dyluniad yn | 15 cwrs hyfforddiant ar gyfer addysgwyr yn rhithiol drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cael eu cynnal. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | hollol gydnaws â'r Gymraeg, er hyn mae gostyngiad wedi bod yn nifer yr ymwelwyr â'n tudalennau gwe rhybuddion llifogydd yn Gymraeg.<br><br>Tîm Datganiad Ardal Forol wedi gweithio gyda Phrifysgol Bangor i ddatblygu "Geiriadur Rhywogaethau Morol Cymru". Rhestr o enwau rhywogaethau yn yr amgylchedd morol yw hwn, sy'n cynnwys eu henwau cyffredin yn Saesneg, yn Gymraeg, a'u henwau gwyddonol. Mae wedi'i chyhoeddi ar **Termau Cymru** | | |
| | Cefnogi gweithgareddau plant ac ieuenctid cyfrwng Cymraeg drwy ddarparu cefnogaeth ariannol gan CSC ac mewn da i Urdd Gobaith Cymru Ceredigion, ynghyd â rhannu gwybodaeth am weithgareddau yn lleol. | CSC yn barhau i ddarparu cefnogaeth ariannol er mwyn cefnogi'r Urdd i gynnig gweithgareddau eang i blant a pobl ifanc yn yr iaith Gymraeg.<br>Yr Urdd yn cynnal nifer o ddigwyddiadau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r iaith a diwylliant cyfoethog y Sir:<br>• Cynnig sesiynau blasu chwarae'r delyn ym mhob ysgol yng nghylch Llandysul, Tregaron ac Aberystwyth.<br>• Cynnig sesiynau blasu dawnsio traddodiadol Cymreig (clocsio a gwerin) ym mhob ysgol yng nghylch Aberaeron, Llambed ac Aberaeron<br>• Cydweithio gyda'r fenter iaith i drefnu taith Sbri-diri - sesiynau canu (caneuon adnabyddus Cymraeg) ar draws y Sir i blant dan 8 oed<br>• Sicrhau bod achrediadau yn cael ei gynnig a'u darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• Cynnal nosweithiau amrywiol Cymraeg gydag aelodau'r fforwm | 2, 967 o aelodau mudiad yr Urdd yng Ngheredigion.<br><br>100% o ysgolion Ceredigion yn gysylltiedig a'r Urdd.<br><br>27 adran ysgol gynradd yn cwrdd pob wythnos: 780 o aelodau yn mynychu<br>8 adran allgyrsiol yn cyfarfod bob pythefnos<br>2 Aelwyd, gydag un ohonynt a thros 95 o aelodau<br>1,300 + yn mynychu cyrsiau preswyl gyda'r Swyddog Gymunedol yng Ngwersylloedd yr Urdd<br>2,500 + o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn Eisteddfodau'r Urdd | Gwasanaeth Ieuenctid CSC<br>Urdd Ceredigion |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ieuenctid Ceredigion/ grwpiau o blant mewn ysgolion<br>**Newyddion da**<br>Cafodd dwy o sylfaenwyr ac arweinyddion Adran Yr Urdd Aberystwyth, sef Helen Medi Williams a Lona Phillips, gydnabyddiaeth uchel am eu cyfraniad sylweddol i fywyd pobl ifanc yr ardal, drwy ennill Tlws John a Ceridwen Hughes Uwchaled, yn Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022. | | |
| | Hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol cyfrwng Cymraeg trwy gyfrwng Theatr Felin-fach, Amgueddfa Ceredigion a Gwasanaeth Llyfrgell Ceredigion. | **Gorwel a Gwreiddiau**: prosiect sy'n archwilio perthynas pobl ifanc a'u cynefin, eu dyfodol a'u perthynas â diwylliant, iaith a bro.<br><br>**Prosiectau Eisteddfod Genedlaethol**<br>Ysgol Berfformio Theatr Felin-fach (7-18 oed) yn cydweithio â Chwmni Actorion Felin fach i lwyfannu pantomeim a Sioe MaesG: 55 o aelodau CFFI Ceredigion yn cyflwyno sioe gerdd yn y Pafiliwn<br><br>**Gwrach Felin fach**: prosiect Gaeaf Llawn Lles, gan weithio trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog gyda phobl ifanc o gefndiroedd di-Gymraeg gan ddefnyddio chwedlau lleol fel sbardun i'r gwaith<br><br>**Hwyl a Hamdden** – grŵp cymdeithasol, diwylliannol ar gyfer pobl hŷn<br>Datblygiad newydd yn 2023 oedd paru Hwyl a Hamdden gyda Dysgwyr Say Something in Welsh ar gyfer sesiwn sgwrs dros baned. | **Gorwel a Gwreiddiau**:100 o sesiynau ymgysylltu: 400 o gyfleoedd i bobl ifanc ac oedolion.<br><br>**Prosiectau Eisteddfod Genedlaethol**<br>82 sesiwn a 1189 o gyfleoedd cyfranogi yn y Gymraeg: cyflwynwyd 3 perfformiad i tua 1,500 o gynulleidfaoedd.<br><br>**Gwrach Felin fach**<br>10 sesiwn ac 80 o gyfleoedd.<br><br>**Hwyl a Hamdden**<br>42 Sesiwn, 1050 o gyfleoedd.<br>Cynhaliwyd 1 sesiwn hyd yma gyda 20 o aelodau Hwyl a Hamdden a 15 Dysgwr. | Theatr Felin-fach |

<table>
<tr><th></th><th></th><th></th><th></th><th></th></tr>
<tr><td></td><td>Cefnogi gweithgareddau plant ac ieuenctid cyfrwng Cymraeg drwy ddarparu cefnogaeth ariannol gan CSC ac mewn da i C.Ff.I. Ceredigion, ynghyd â rhannu gwybodaeth am weithgareddau yn lleol.</td><td>CSC yn barhau i ddarparu cefnogaeth ariannol er mwyn cefnogi Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion i gynnig gweithgareddau eang i blant a pobl ifanc yn yr iaith Gymraeg.<br>C.Ff.I<ul><li>Cynnal holl gystadlaethau arferol y Sir, gan gynnwys darparu 7 sesiwn hyfforddiant</li><li>Aethpwyd ati i lwyfannu cyngerdd ym Mhafiliwn yr Eisteddfod ar y Nos Lun gyda 56 o aelodau yn cymryd rhan yn y Sioe Maes G</li><li>Cynhaliwyd Rali y Sir ar Fferm Fronheulog, Llanwenog ar y 4ydd o Fehefin, lle daeth dros 2,000 o fobl at ei gilydd i fwynhau cymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.</li></ul>Newyddion da:<br>Yn dilyn y Rali aeth yr aelodau a ddaeth i'r brig ymlaen i gystadlu yn y Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd , a daeth y Sir i'r brig dros Gymru gyfan.</td><td>Mae 18 o glybiau yng Ngheredigion, gyda phob un o'r Clybiau yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>713 o aelodau rhwng 10 a 28 oed.</td><td>Gwasanaeth Ieuenctid CSC<br>Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion</td></tr>
<tr><td></td><td>CSC i barhau i roi cefnogaeth i Eisteddfodau Lleol a Sioeau Amaethyddol y Sir drwy'r Cynllun Grantiau Cymunedol, er mwyn codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo digwyddiadau traddodiadol ac ieithyddol o bwys o fewn y Sir.</td><td>Cafwyd cymeradwyaeth ar Bolisi'r Gymraeg a Dyfarnu Grantiau ym mis Ionawr 2023. Mae'r Polisi bellach yn weithredol ac ar gael ar wefan y Cyngor.<br><br><u>Grantiau Cymunedol</u><br>Mae'r Gwasanaeth Cyllid yn asesu pob cais er mwyn sicrhau bod unrhyw gais llwyddiannus yn gwneud defnydd cynyddol o'r Gymraeg.</td><td><table>
<tr><th></th><th>Nifer o geisiadau</th><th>Cyfanswm dosbarthwyd</th></tr>
<tr><td>2017/18 –</td><td>76</td><td>£189,344</td></tr>
<tr><td>2018/19 –</td><td>77</td><td>£197,826</td></tr>
<tr><td>2019/20 –</td><td>90</td><td>£243,689</td></tr>
<tr><td>2020/21 –</td><td>17</td><td>£92,794</td></tr>
<tr><td>2021/22 –</td><td>28</td><td>£119,567</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm –</td><td>288</td><td>£843,220</td></tr>
</table></td><td>Gwasanaeth Cyllid<br><br>Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar</td></tr>
</table>

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td>Allan o 28 cais, cafodd 5 eu cyflwyno yn Gymraeg yn y flwyddyn diwethaf.<br><br><u>Y Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar</u><br>Grant Haf O Hwyl: 55 cais/ 3 yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg Clwb Haf Adar Aeron, Tekki RS a'r Urdd.<br><br>Grant Gaeaf o Les: 23 cais/ 2 yn Gymraeg<br>Theatr Felin fach a'r Urdd.</td>
<td><table>
<tr><td></td><td>Eisteddfodau</td><td>Sioeau</td></tr>
<tr><td>2017/18 –</td><td>17</td><td>10</td></tr>
<tr><td>2018/19 –</td><td>18</td><td>9</td></tr>
<tr><td>2019/20 –</td><td>17</td><td>8</td></tr>
<tr><td>2020/21 –</td><td>0</td><td>0</td></tr>
<tr><td>2021/22 –</td><td>1</td><td>0</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm –</td><td>53</td><td>27</td></tr>
</table><br>Mae'r niferoedd yn is oherwydd COVID ac hefyd nid oes gymaint o Sioeau yn ceisio am y grant, am nad ydynt yn cynhyrchu eu deunydd yn ddwyieithog.</td>
<td></td>
</tr>
<tr>
<td></td>
<td>Cefnogi CAVO i hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg ymysg mudiadau gwirfoddol y sir.</td>
<td>Yn rhan o ddatblygiad Fframwaith Gwirfoddoli yn Gymraeg , sef prosiect Gwirfoddoli a'r Gymraeg 2022 Mentrau Iaith Cymru; sy'n cynnwys casgliadau ymchwil ac yn rhoi arweiniad i staff mudiadau ar sut i fynd ati i recriwtio gwirfoddolwyr.<br>https://gwirfoddolicymru.net/cymraeg<br><br>Lansiwyd ymgyrch marchnata i ddenu Gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion.<br><br>CAVO yn un o'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol cyntaf yng Nghymru i ennill cydnabyddiaeth drwy gynllun Cynnig Cymraeg y Comisiynydd y Gymraeg.</td>
<td></td>
<td>CAVO</td>
</tr>
</table>

| Amcan 2.2 Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg wrth ddarparu a derbyn gwasanaethau cyhoeddus | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Gweithred** | **Sylwadau Cynnydd** | **Dangosyddion** | **Partneriaid** |
| | CSC i weithredu'r Safonau Darparu Gwasanaethau, a rhannu arfer da gyda sefydliadau eraill sy'n aelodau o Fforwm DD. | Mae Datganiad Polisi y Cyngor yn rhoi gwybod bod gan bob aelod o'r cyhoedd yr hawl i ddewis ym mha iaith y mae'n dymuno delio â'r Cyngor a'i waith.<br>Rhoddwyd sylw i ymgyrch 'Croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu gyda'r Cyngor' drwy'r rhyngweithiau cymdeithasol.<br>Fforwm Dyfodol Dwyieithog yn rhoi platfform i adolygu a rhannu arfer da ynghylch gofynion gweithredu'r Safonau Iaith. | Y Cyngor Sir a sefydliadau cyhoeddus eraill o fewn cylch Gorchwyl Comisiynydd y Gymraeg, wedi cyflwyno Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol derbyniol.<br><br>4 cyfarfod Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion wedi ei gynnal mewn blwyddyn, er mwyn rhannu arfer da. | Uned Iaith Gymraeg CSC |
| | CSC i gynyddu nifer y staff dwyieithog, er mwyn cynyddu a gwella ansawdd gwasanaethau Cymraeg; cynnal Polisi Recriwtio a'r Gymraeg. | Mae'r Cyngor yn sicrhau y caiff pob swydd wag neu newydd ei asesu, er mwyn nodi pa sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer cyflawni'r swydd<br>Yn rhan o'r Polisi Hybu a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg yn Fewnol (Rhagfyr 2017) cafwyd penderfyniad bod angen i bob gweithiwr fodloni gofynion Lefel 1 'siarad a gwrando' sef cwrteisi iaith sylfaenol o leiaf pan fydd yn cael ei benodi, neu cyn pen chwe mis ar ôl hynny. Bydd y Cyngor yn annog Swyddogion i gwblhau'r pecyn e-ddysgu 10 awr 'Croeso Cymraeg' sydd wedi ei ddatblygu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, hyn fel bod modd iddynt ddatblygu sgiliau cwrteisi iaith sylfaenol. | Mae 62% o staff y Cyngor gyda'r gallu i sgwrsio ar lafar yn Gymraeg (ALTE 3,4 a 5)<br>Dim ond 3% o'r gweithlu yn nodi nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg o gwbl. | Uned Iaith Gymraeg CSC<br>Adnoddau Dynol |
| | Aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog sy'n rhan o Gylch Gorchwyl Comisiynydd y Gymraeg i gynyddu nifer y staff dwyieithog, er mwyn cynyddu a gwella ansawdd gwasanaethau Cymraeg | <u>Coleg Ceredigion</u><br>Cadw data ers 2021 ar lefel sgiliau ein staff trwy holiadur blynyddol yn gofyn iddynt hunan asesu o ran Siarad, Darllen, Ysgrifennu: | <u>Coleg Ceredigion</u> | Aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog |

Cyfoeth Naturiol Cymru
Bydd pob swydd sy'n cael eu hysbysebu yn nodi bod angen y sgiliau Cymraeg yn hanfodol, Lefel 1 yw'r lleiafrif sydd angen ar staff a bydd disgwyl i staff sydd ddim yn medru cyrraedd y nod yma ar ddechrau swydd ddilyn cwrs 10 awr o fewn cyfnod penodol o 9 mis.
Rydym yn sicrhau bod timoedd sydd wedi'i lleoli yng Ngheredigion sy'n delio gyda'r cyhoedd fel rhan o'i gwaith gyda chanran uchel o siaradwyr Cymraeg

Prifysgol Aberystwyth

Ar **31 Gorffennaf 2022** dadansoddwyd gwybodaeth am sgiliau iaith yr holl staff sydd â'u manylion wedi eu diweddaru. Defnyddir Fframwaith cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR) ar gyfer y lefelau.

Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Lansiwyd Polisi Sgiliau Dwyieithog y bwrdd iechyd ar y 1af o Fawrth 2021; Mae'r polisi'n ymwneud â chynllunio'r gweithlu a gwella sgiliau gweithwyr fel rhan o ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog. Mae'r polisi'n nodi ei fod

| | Speaking | | Reading | | Writing | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Level | Number | %age | Number | %age | Number | %age |
| High | 34 | 25% | 25 | 18% | 19 | 14% |
| Intermediate | 23 | 17% | 28 | 21% | 22 | 16% |
| Basic | 32 | 24% | 30 | 22% | 30 | 22% |
| Entry | 29 | 21% | 25 | 18% | 30 | 22% |
| None | 18 | 13% | 28 | 21% | 35 | 26% |
| Total | 136 | 100% | 136 | 100% | 136 | 100% |

Cyfoeth Naturiol Cymru
Mae 163 o staff sydd yn gweithio yng Ngheredigion i gyd ac mae 80 (49%) yn medru cynnal sgwrs yn Gymraeg.
Mae ein swyddfeydd a Chanolfannau Ymwelwyr wedi'i lleoli yn Aberystwyth, Llanbed, Tregaron, Bwlch Nant yr Arian ac Ynyslas

Prifysgol Aberystwyth

| Lefel | Nifer Llafar | % Llafar |
|---|---|---|
| A0 | 617 | 30.88% |
| A1 | 345 | 17.27% |
| A2 | 146 | 7.31% |
| B1 | 133 | 6.66% |
| B2 | 150 | 7.51% |
| C1 | 94 | 4.70% |
| C2 | 247 | 12.36% |
| Heb gofnodi | 266 | 13.31% |
| Cyfanswm | 1998 | 100.00% |

Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Dadansoddiad o'r cofnod o sgiliau Cymraeg ar 31 Mawrth 2022
Lefel 3 - Canolradd 857 o staff 7.8%
Lefel 4 - Uwch 873 o staff 7.94%
Lefel 5 - Hyfedredd 1,273 o staff 11.58%

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | yn ofynnol i wasanaethau a thimau wneud y defnydd gorau o'r sgiliau ieithyddol presennol a datblygu sgiliau dwyieithog er mwyn darparu gwasanaeth dwyieithog o ansawdd | | |
| | Hyrwyddo’r cynllun *Iaith Gwaith* Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â gwasanaethau cwsmer **Clic Ceredigion**, a chynnal ymgyrch i hyrwyddo bod croeso defnyddio’r Gymraeg wrth gysylltu gyda’r Gwasanaeth | Mae staff Gwasanaeth Clic yn parhau i weithio o bell, ac yn darparu’r gwasanaeth llawn dros y ffôn neu’n ddigidol yn unol â dewis iaith yr ymholydd.<br>Mae dangosydd ar waelod y sgrin yn rhoi gwybod bod y galwr wedi dewis y gwasanaeth yn Gymraeg, ac felly mae’r derbynnydd yn medru rhoi gwasanaeth llawn yn y Gymraeg. Mae hyd yn oed y ‘bwrdd hysbysu’ yn rhoi gwybod nifer o alwadau sydd ar waith ar y tro, gan gynnwys rhoi gwybod faint o alwadau Cymraeg a galwadau Saesneg sydd ar waith.<br><br>Mae 19 o staff yn rhan o Wasanaeth Clic. O’r rhain mae 15 yn rhugl yn y Gymraeg, ac yn medru darparu gwasanaeth Cymraeg llawn. Mae 4 yn mynychu cyrsiau dysgu Cymraeg, a bellach mae 2 ohonynt yn ddigon hyderus i ddelio gyda’r galwadau ar y llinell Cymraeg. Mae hyn oherwydd eu bod wedi derbyn hyfforddiant wedi ei gynllunio’n benodol ar gyfer Gwasanaeth Clic; yn cwmpasu gofynion darparu’r cynnig rhagweithiol; ymgyfarwyddo a thermau ac ymadroddion perthnasol wrth ddelio gydag ymholiadau cychwynnol, a dod yn hyderus wrth eu defnyddio. | Galwadau yn Gymraeg yn gyson ac yn dueddol o fod tua 16% o’r holl alwadau a dderbynnir.<br><br>Nid yw’r nifer o bobl sy’n dewis defnyddio gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn cyfateb â’r nifer sy’n gallu siarad Cymraeg o fewn y Sir. Oherwydd hyn, mae’r Cyngor yn trefnu nifer o ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd bod modd defnyddio’r Gymraeg wrth gysylltu gyda’r cyhoedd; gan ddefnyddio diwrnodau penodedig i wneud hynny ee: Diwrnod Shwmae , Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Hawliau. | Gwasanaeth Clic<br>Uned Iaith Gymraeg CSC |
| | Cynnal a datblygu’r defnydd o Gymraeg yng ngwasanaethau Ceredigion Actif, | Mae’r holl wersi nofio yn cael eu cynnal yn ddwyieithog. Mae’r holl ganllawiau ac | Gwersi dwyieithog–<br>Plascrug - 324 o blant tymor Hydref 22 | Porth Cymorth Cynnar |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gan gynnwys gwersi nofio a hyfforddiant chwaraeon, e.e. prosiect 5x60. | adnoddau dysgu i’w gael yn Gymraeg trwy Nofio Cymru.<br>Cynnal cwrs dysgu nofio i staff (Chwefror a Mawrth) er mwyn sicrhau mwy o hyfforddwyr nofio sy’n medru’r Gymraeg. | Llambed - 191 o blant tymor Hydref 22 | Uned Iaith Gymraeg CSC |
| | Datblygu cynllun ar gyfer hyrwyddo defnydd y Gymraeg mewn cartrefi gofal, gan gefnogi gweithrediad strategaeth ‘Mwy na Geiriau’. | Dechreuwyd ar y gwaith hwn yng Nghartref Gofal Preswyl Hafan Deg, Llanbedr Pont Steffan, ond bu oedi oherwydd pandemig Covid. | Angen ail afael yn y prosiect. | Porth Gofal<br>Uned Iaith Gymraeg CSC |
| | Cydweithio â Phrifysgol Aberystwyth i gynnal statws y Gymraeg a’r cyfleoedd i’w defnyddio o fewn sefydliad addysg uwch yn y sir. | Ail ddatblygu Neuadd Pantycelyn a agorwyd ym Medi 2020 – yn dilyn buddsoddiad o £16.5miliwn gan gynnig llety o ansawdd ar gyfer hyd at 200 o fyfyrwyr a lleoliad ar gyfer y gymuned<br><br>Ym Medi 2021 agorwyd Ysgol Gwyddor Filfeddygol cyntaf Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae’r cwrs yn rhoi cyfle i fyfyrwyr astudio agweddau penodol o wyddor filfeddygol drwy gyfrwng y Gymraeg<br><br>Ym mis Medi 2022 croesawyd myfyrwyr nyrsio cyntaf y Brifysgol fydd yn cael eu hyfforddi yn nyrsys Oedolion ac Iechyd Meddwl. Yn ogystal bydd cyfle i fyfyrwyr astudio hanner y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Mae gwaith hefyd wedi cychwyn fel rhan o brosiect uchelgeisiol i ail ddatblygu’r Hen Goleg yn ganolfan flaenllaw ar gyfer dysgu, treftadaeth, diwylliant a menter i’r Brifysgol, i’n cymuned ac i Gymru erbyn 2024 | Mae **358** o fyfyrwyr wedi cofrestru ar un neu fwy o fodiwlau cyfrwng Cymraeg (cywir 11/11/22)<br><br>**Tystysgrif Sgiliau Iaith 2022-23**<br>Mae sesiynau hyrwyddo’r Dystysgrif wedi cael eu cynnal ar gyfer Adrannau ers dechrau tymor. Hyd yma (27/10/22) mae 25 wedi cofrestru i gwblhau’r Cymhwyster. | Prifysgol Aberystwyth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

| Amcan 2.3 Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg mewn gweithleoedd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Gweithred** | **Sylwadau Cynnydd** | **Dangosyddion** | **Partneriaid** |
| | CSC i gyflawni Safonau Gweithredu, er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg mewn gweinyddiaeth fewnol; gan gynnwys :<br>• gwasanaethau AD cyfrwng Cymraeg,<br>• cyfleodd i godi hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg<br>• datblygu a darparu adnoddau TGCh cyfrwng Cymraeg. | Cafodd Polisi ar gyfer Hybu a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg yn Fewnol ei gyhoeddi yn 2017. Mae copi ar CeriNet; mewnrwyd y Cyngor ar gyfer holl staff.<br>Mae'n arfer gan y Cyngor ddarparu llythyrau safonol, contractau cyflogaeth ayb yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf. Unwaith y bydd y dewis iaith wedi sefydlu, defnyddir yr iaith honno i gyfathrebu.<br>Mae pob polisi at ddefnydd staff ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar CeriNet mewnrwyd y Cyngor.<br>Grŵp Cymraeg Gwaith wedi'i ffurfio er mwyn mynd i'r afael â'r materion.<br>Cynllun gweithredu newydd wedi'i gytuno, a fydd yn cael ei roi ar waith ddechrau Ionawr 2023. | Wedi cyflwyno Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol derbyniol at sylw Comisiynydd y Gymraeg yn flynyddol. | Uned Iaith Gymraeg CSC |
| | Darparu cyngor ac arweiniad i gyflogwyr yn y sector breifat lleol, trwy gyfrwng prosiect Cymraeg mewn Busnes.- tynnu sylw at yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer dysgu Cymraeg ee Pecyn ar-lein am ddim, Say Something in Welsh, Duolingo | Bu Swyddog Helo Blod yn gweithio gyda busnesau led led y sir - yn rhithiol yn ystod cyfnod cyfyngiadau Cofid ac yna wyneb yn wyneb yn ddiweddarach.<br>Diddymwyd prosiect lleol Helo Blod ym mis Ebrill 2022. | 53 o Fusnesau lleol wedi creu cyswllt<br>32 o Fusnesau lleol lle mae Cered wedi gweithio'n ddwys i wella eu defnydd o'r Gymraeg | Cered |

## Nod Strategol 3: sicrhau amodau cymdeithasol sy’n galluogi’r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion

| **Amcan 3.1 Cynnal statws a bri’r Gymraeg o fewn y gymdeithas, gan hyrwyddo ei gwerth a’r defnydd ohoni.** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Gweithred** | **Sylwadau Cynnydd** | **Dangosyddion** | **Partneriaid** |
| | Cefnogi Gorymdeithiau Dydd Gŵyl Ddewi yn Aberystwyth a Llambed; ac annog dathliadau tebyg mewn ardaloedd eraill. | Digwyddodd Gorymdeithiau mewn 5 tref; Aberystwyth, Llambed, Aberaeron, Tregaron ac Aberteifi.<br>Ond oherwydd Cofid ni fu modd ailgydio yn y cynllun i gynnal Pared Gŵyl Dewi ym mhob tref yng Ngheredigion, a gyda chyfyngiadau dal mewn lle 2 Bared yn unig fu modd eu cynnal yn 2022, a hynny gyda chefnogaeth Pwyllgorau lleol yn Llambed ac Aberystwyth. | 5 Tref cyn Cofid, wedi mynd lawr i 2 dref yn 2022 oherwydd bod y cyfyngiadau dal mewn bodolaeth.<br>2023, 4 tref wedi cynnal gorymdaith. | Cered |
| | Cefnogi Eisteddfod Genedlaethol 2020, drwy sefydlu Grŵp Prosiect i adnabod blaenoriaethau ar gyfer cynllun gweithredu CSC i gefnogi a hwyluso trefniadau | Llwyddwyd i gefnogi Eisteddfod lwyddiannus iawn yn haf 2022, yn dilyn 2fl o oedi oherwydd pandemig Cofid. Cynhaliwyd Pentref Ceredigion ar y maes, gyda’r weledigaeth o hyrwyddo’r Sir fel lle i Fyw, Dysgu, Perthyn a Llwyddo. Defnyddiwyd brand Caru Ceredigion i hyrwyddo Sir fodern. | 210 o ddigwyddiadau ym Mhentref Ceredigion dros 8 diwrnod.<br>Rhwng 25,000 a 30,000 wedi ymweld â Phentref Ceredigion<br>1,500 o blant wedi cymryd rhan gyda’u hysgol mewn perfformiad o ryw fath ar y maes. | CSC |
| | Y Cyngor a sefydliadau partner sy’n aelodau o Fforwm Dyfodol Dwyieithog i ddefnyddio diwrnodau penodol yn y Calendr er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg. e.e. ymgyrchoedd a dathliadau Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shw Mae, Ras yr Iaith, Diwrnod Cerddoriaeth Cymraeg | **Dydd Gŵyl Dewi** – fideo cyffro’r Eisteddfod, ac egluro beth i ddisgwyl<br>**Diwrnod Shwmae** – Gwobrwyo Dysgwr y Flwyddyn Cymraeg Gwaith<br>**Diwrnod Hawliau’r Gymraeg –** fideo yn hyrwyddo ac annog trigolion i ddefnyddio gwasanaeth Cymraeg wrth gysylltu gyda’r Cyngor Sir.<br><br>Cered wedi cynnal Cystadleuaeth Addurno Ffenestri Siopau ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi - Cynhaliwyd y gystadleuaeth | | Uned Iaith Gymraeg CSC<br>Aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | mewn 4 tref : Aberystwyth, Tregaron, Aberteifi a Llandysul gyda beirniadu'r gystadleuaeth yn nwylo'r Aelod Seneddol lleol Ben Lake.<br>Coleg Ceredigion<br>Yn dathlu diwrnodau Cymraeg yn flynyddol ar draws ein campysau bob blwyddyn gydag ein staff a'n myfyrwyr trwy weithgareddau hwylus, gemau, cystadlaethau, siaradwyr gwadd ayyb. Mae pob aelod o'n staff yn gwneud cwrs 'Ymwybyddiaeth iaith' - mae hwn yn gwrs ar-lein sydd wedi cael ei baratoi yn arbennig i staff Coleg Ceredigion a Choleg Sir Gâr - mae'r cwrs yn gwrs orfodol i holl staff newydd hefyd fel rhan o'n system anwytho.<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg ym mis Medi 2021 – Cyfryngau Cymdeithasol<br>Diwrnod Shwmae/Su'mae rhwng 14 a 15 Hydref – Cyfryngau Cymdeithasol<br>Dathlu Dysgu Cymraeg rhwng 11 a 15 Hydref<br>Calan Gaeaf a Diwrnod Cyntaf y Gaeaf ar 1 Tachwedd<br>Diwrnod Hawliau Iaith Gymraeg rhwng 5 a 7 Rhagfyr – Cyfryngau Cymdeithasol<br>Traddodiadau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yng Nghymru rhwng 15 a 17 Rhagfyr<br>Santes Dwynwen ar 25 Ionawr – Cyfryngau Cymdeithasol | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Dydd Miwsig Cymru ar 4 Chwefror<br>Dydd Gŵyl Dewi ar 1 Mawrth<br>Diwrnod y Llyfr ar 3 Mawrth<br>Diwrnod Barddoniaeth y Byd ar 21 Mawrth<br>Urdd Gobaith Cymru – dathlu'r canmlwyddiant gan gynnwys cwis – Mehefin<br>Hyrwyddo Rhaglen Hyfforddiant Iaith Gymraeg – Awst<br>Diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd - Medi<br><br>Prifysgol Aberystwyth<br><br>Gwobrau Hybu'r Gymraeg y Brifysgol – eleni cynhaliwyd seremoni yn cyhoeddi'r enillwyr yng Nghanolfan y Celfyddydau fel rhan o ddathliadau Dathlu Pen-blwydd y Brifysgol yn 150 a dathliadau Diwrnod Shwmae . Cynhaliwyd arddangosfa a diwrnod agored i gyn fyfyrwyr ac ymwelwyr yn Neuadd Pantycelyn ar ddydd Sul cyntaf Eisteddfod Genedlaethol Tregaron. Arddangosfa arall a drefnwyd ar gyfer y dathliadau oedd Arddangosfa Pop Aber yn dathlu cyfraniad holl bwysig myfyrwyr a chyn myfyrwyr i'r byd pop cyfoes yng Nghymru.<br><br>Ar y cyd gyda Thîm Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys a Sir Gâr, Staff Cangen Prifysgol Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg ac UMCA trefnu'r stondinau/digwyddiadau ar y campws ac | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ar lein i hybu/ codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar ddyddiadau penodol yn cynnwys Wythnos y Glas, Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae, Dydd Miwsig Cymru a Diwrnod Hawliau'r Comisiynydd. Mae Swyddog Cydlynydd Cymuned Cymraeg hefyd yn gweithio yn yr Undeb yn cydweithio gydag UMCA a'r gymuned leol i drefnu digwyddiadau a hybu'r Gymraeg a'i diwylliant i fyfyrwyr.<br><br><u>Bwrdd Iechyd Hywel Dda</u><br><br>**Dydd Gŵyl Dewi** – Cwis i holl staff y bwrdd iechyd a chreu fideo am bwysigrwydd y Gymraeg<br>**Diwrnod Miwsig Cymru** – Chwarae cerddoriaeth Cymraeg ar bob gorsaf radio yn ein hysbytai.<br>**Diwrnod Shwmae** – Cynnal stondin gwybodaeth ymhob ysbyty ar draws y tair sir.<br>**Diwrnod Hawliau'r Gymraeg** – Rhannu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a hefyd creu animation ar gyfer holl staff. | | |
| | Amlygu gwerth y Gymraeg yn y diwydiant twristiaeth, e.e. hyrwyddo cynllun Naws am Le. | Darganfod Ceredigion<br>• gwefan yn gwbl ddwyieithog<br>• tudalen Facebook yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg bob amser yn cael ei osod yn gyntaf.<br>• Postiad yn hybu Diwrnod Shw Mae<br><br>Rhaglen farchnata Llwybrau Celtiadd/ Celtic Routes<br>• cyfryngau cymdeithasol yn yn ddwyieithog (peth deunydd yn | Proffil amlwg i'r Gymraeg yng ngweithgareddau Darganfod Ceredigion | Gwasanaeth Twf a Menter |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | dair-ieithog defnydd o'r Wyddeleg)<br>• Rhaglen deledu wedi'i gomisiynu yn dilyn Ryland Teifi a'i deulu i'w darlledu ar S4C cyn hir.<br><br>Digwyddiadau Cymraeg yn cael eu hybu gan gynnwys ffocws ar Eisteddfodau eleni (tudalen benodol, barhaol yn ogystal a'r Eisteddfod Genedlaethol)<br><br>Rhaglen Llysgennad Ceredigion yn cael ei ddatblygu ( rhan o gynllun Llysgennad Cymru https://www.ambassador.wales/cy) . Opsiwn i ddilyn y cwrs yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Modiwl penodol ar yr Iaith Gymraeg yn orfodol i gyrraedd lefel 'Arian'.<br><br>Cronfa Adfywio Cymunedol**:**<br>Gwaith wedi'i gomisiynu i weithio gyda cynrychiolwyr trefi y Sir i ddatblygu brand ar gyfer y trefi. Bydd y gwaith yn cynnwys elfen bwysig o ddefnyddio'r Gymraeg fel pwynt i werthu unigrywiaeth y Sir. | | |
| | Gwarchod enwau lleoedd Cymraeg lleol drwy weithredu polisi enwi a rhifo strydoedd Ceredigion | Yn rhan o'r Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd, wrth gofrestru enwau tai anfonir llythyr at bob cais yn rhoi gwybod iddynt am yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant, gyda'r gobaith y bydd o gymorth i gadw enwau Cymraeg neu hanesyddol y Sir.<br><br>Mae'r Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd yn mynnu bod pob stryd newydd yn derbyn enw Cymraeg yn unig, a bod angen | Cyfnod Adrodd: 2021-22<br>34 cais i newid enw eiddo.<br>2 cais: Cymraeg i Saesneg<br>15 cais Saesneg i Cymraeg<br>9 cais Cymraeg i Cymraeg<br>*2 cais Saesneg i Saesneg*<br><br>263 o geisiadau i enwi eiddo newydd: dros 95% o'r ceisiadau hyn wedi bod am enwau Cymraeg. | Gwasanaeth Rheoli Cyfeiriadau CSC |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ymgynghori gyda'r Cyngor Tref a Chymuned o ran perthnasedd yr enw hwnnw i'r ardal leol. | 3 Cais ar gyfer enwi strydoedd newydd: 100% Cymraeg yn unig. | |

| **Amcan 3.2 Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion.** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Gweithred** | **Sylwadau Cynnydd** | **Dangosyddion** | **Partneriaid** |
| | CSC i rhoi gwerth ar sgiliau Cymraeg y gweithlu, drwy weithredu polisi recriwtio sy'n gofyn am asesiad ieithyddol wrth benodi swyddi gwag a newydd | Mae angen i bob gweithiwr fodloni gofynion Lefel 1 'siarad a gwrando' sef cwrteisi iaith sylfaenol o leiaf pan fydd yn cael ei benodi, neu cyn pen chwe mis ar ôl hynny. Ar gyfer holl swyddi'r Cyngor<br>mae'n rhaid pennu'r lefel iaith sydd ei angen ar gyfer cyflawni'r swydd honno; a chofnodi hynny ar y ffurflen 'Caniatâd i Lenwi Swydd Newydd'. Mewn achosion penodol os yw'n amhosib recriwtio ar y lefel ALTE disgwyliedig, ceir cytundeb i osod amod hyfforddiant yn y contract cyflogaeth. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus gyrraedd y safon ALTE angenrheidiol o fewn 2 flynedd i'r apwyntiad. Mae disgwyl bod rheolwyr llinell yn monitro hyn.<br><br>Caiff pob swydd wag ei hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cafodd yr ymwadiad canlynol ei osod ar ein gwefan ym mis Mawrth 2022:<br>"*Rydym yn gweithredu polisi dwyieithog. Gwahoddir ymgeiswyr i wneud cais yn Gymraeg, ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn* | Recriwtio: Lefel Sgiliau yn y Gymraeg, 601 o swyddi wedi'u hysbysebu yn unol â'r lefelau ALTE fel a ganlyn:<br>Lefel 5: 18%<br>Lefel 4: 4%<br>Lefel 3: 40%<br>Lefel 2: 24%<br>Lefel 1: 14% | Uned Iaith Gymraeg CSC |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | *cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynwyd yn Saesneg*."<br>Mae gwybodaeth ynghylch defnydd y Gymraeg wrth recriwtio wedi'i osod yn y tudalennau 'gwybodaeth a chwestiynau cyffredin'; sy'n ymddangos ar ddiwedd pob hysbyseb swydd.<br>Mae ffurflen gais am swydd yn rhoi lle i unigolion nodi pa iaith maent yn dymuno cynnal eu cyfweliad.<br><br>Mae'n fwriad cynnal trafodaeth gyda'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol er mwyn ystyried dull amgenach o gofnodi sgiliau iaith y gweithlu yn y cyfnod nesaf, gan hefyd edrych ar osod targedau ynghylch cynyddu sgiliau iaith y gweithlu. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn anelu at ddatblygu canllaw ar sut i asesu sgiliau iaith ar gyfer swyddi newydd neu wag. | | |
| | Sefydliadau sy'n aelodau o Fforwm DD i rhoi gwerth ar sgiliau Cymraeg y gweithlu, drwy weithredu polisi recriwtio sy'n gofyn am asesiad ieithyddol wrth benodi swyddi gwag a newydd | <u>Coleg Ceredigion</u><br>Rhoi ar waith system fwy dwys o allu asesu pa lefel o sgiliau Cymraeg dylid rhoi ar Ddisgrifiadau Swydd a hysbysebion am swyddi gwag. Gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Recriwtio ar hyn gan ddefnyddio ein 'Matrics Recriwtio' sydd yn cael ei weithredu cyn bod y swydd newydd neu swydd wag yn cael ei hysbysebu.<br><br><u>Cyfoeth Naturiol Cymru</u><br>Mae pob swydd newydd neu wag yn cael ei hasesu o ran anghenion sgiliau Cymraeg yn dilyn canllawiau staffio a recriwtio. Bydd angen i bob rheolwr | <u>Coleg Ceredigion</u><br>20/21: Cyfanswm o 22 swydd wedi hysbysebu : 40% yn nodi bod angen sgiliau Cymraeg<br><br><u>Cyfoeth Naturiol Cymru</u> | Aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog |

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td>lenwi ffurflen Microsoft Teams er mwyn cofnodi’r asesiad. Bydd yr asesiad yn cael ei wirio gan y Swyddog Iaith i sicrhau bod y canllawiau yn cael eu dilyn a bod siaradwyr Cymraeg ym mhob tîm. Nid oes unrhyw swydd yn cael ei hysbysebu heb gwblhau’r camau hyn fel rhan o’r broses recriwtio.<br><br><u>Prifysgol Aberystwyth</u><br>Mae gan y Brifysgol drefniadau cadarn i asesu gofynion ieithyddol pob swydd a hysbysebir. Caiff holl swydd ddisgrifiadau â’u gofynion ieithyddol eu gwirio â’u cymeradwyo gan Ganolfan Gwasanaethau’r Gymraeg fel rhan o’r broses recriwtio a hysbysebu. Pan benodir staff i swyddi Cymraeg hanfodol gyda’r ymrwymiad i ddysgu/gwella eu sgiliau iaith er mwyn cyrraedd lefel gofynnol y swydd, mae’r Ganolfan yn cysylltu â’r staff i gynnig cymorth a gwybodaeth ynglŷn â chyrsiau addas</td>
<td>
<table>
<tr><th>Lefel Iaith</th><th>Hanfodol</th><th>Dymunol</th><th>Angen Dysgu</th></tr>
<tr><td>Lefel 5</td><td>7 (1.1%)</td><td>0</td><td>0</td></tr>
<tr><td>Lefel 4</td><td>30 (5%)</td><td>91(16%)</td><td>1 (0.2%)</td></tr>
<tr><td>Lefel 3</td><td>20 (3.4%)</td><td>95 (16%)</td><td>6 (1%)</td></tr>
<tr><td>Lefel 1</td><td>336 (57.3%)</td><td>0</td><td>0</td></tr>
</table>
<br><u>Prifysgol Aberystwyth</u><br>
<table>
<tr><td>Sgiliau Cymraeg yn hanfodol</td><td>204</td><td>31.2%</td></tr>
<tr><td>Sgiliau Cymraeg yn ddymunol</td><td>432</td><td>66.2%</td></tr>
<tr><td>Swyddi lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol</td><td>449</td><td>68.8%</td></tr>
<tr><td>Swyddi lle bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i’r swydd</td><td>Dim data</td><td></td></tr>
</table>
</td>
<td></td>
</tr>
<tr>
<td></td>
<td>CSC i gynnal polisi caffael CS Ceredigion er mwyn rhoi gwerth ar y Gymraeg , gan sicrhau bod gofynion ynghylch y Gymraeg yn cael ei ystyried a’i gynnwys pan yn briodol mewn unrhyw gontract, tendr neu gytundeb cyfreithiol.</td>
<td>Mae’r Gwasanaeth Caffael wedi cyhoeddi ei Reolau Gweithdrefn Contract, sy'n nodi bod rhaid i bob proses tendr gynnwys cyfeiriad/cymal sy’n ei gwneud yn angenrheidiol i’r cwmni llwyddiannus gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy’n berthnasol i ddarpariaeth y gwasanaeth neu’r nwyddau sy’n cael eu tendro. Mae’r</td>
<td>Mae 6/14 aelod staff yn siarad Cymraeg.<br><br>Yn 2022 dim un tendr wedi ei gyflwyno yn y Gymraeg, fodd bynnag mae’r gwasanaeth wedi gosod system yn ei le pe byddai tendr yn Gymraeg neu os derbynnir gohebiaeth yn Gymraeg yn ystod y broses dendro, bydd pob ymateb yn Gymraeg o'r pwynt hwnnw ymlaen.</td>
<td>Gwasanaeth Caffael</td>
</tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwasanaeth Caffael yn gyfrifol am fonitro hyn.<br>Dogfen ganllaw Comisiynydd y Gymraeg yn cael ei ddosbarthu i'r holl gontractwyr ' Gwneud cais am gontractau a grantiau. Ystyried y Gymraeg'. | | |
| | Cefnogi blaenoriaeth gorfforaethol 1, Hybu'r Economi, Strategaeth Gorfforaethol CSC 2017-22 i sicrhau gwelediad amlwg i'r Gymraeg mewn unrhyw gynlluniau | Cafodd Strategaeth Economaidd newydd y Sir "Rhoi Hwb i Economi Ceredigion – Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35" ei gyhoeddi yn 2021. Bwriad y strategaeth fydd i sicrhau y canlynol wrth fynd ati i weithredu ar amryw o gynlluniau dan y pedwar prif thema – Pobl, Lle, Menter a Chysylltedd.<br><br>"Egwyddor sylfaenol bwysig arall yw'r angen i ddiogelu a gwella ein hunigrywedd a'n hunaniaeth diwylliannol, a helpu i roi hwb i gydnerthedd a thwf y Gymraeg. Byddwn yn adeiladu ar waith a wnaed yn rhan o brosiect Arfor i nodi'n llawn y cyfleoedd i wireddu cyfleoedd i helpu'r Gymraeg i ffynnu trwy gamau datblygu economaidd cadarnhaol. Yn ei hanfod, bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy sicrhau bod gan y rhai sy'n siarad Cymraeg yr hyder, y sgiliau a'r cyfleoedd i ddatblygu busnesau, i weithio mewn swyddi o werth uwch, ac i weld Ceredigion fel lle ffyniannus ac egnïol i fyw a gweithio ynddo." (Tudalen 6) | Sicrheir gwelediad amlwg i'r Gymraeg mewn unrhyw gynllun hybu'r economi. | Gwasanaeth Twf a Menter |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Sicrhau bod gwerth y Gymraeg, ei defnydd a'u chynaliadwyedd yn ffactorau creiddiol o weithgareddau y Cynllun Cynnal y Cardi (LEADER) a Chynllun Arfor. | Ymgeiswyr yn gorfod ymateb i'r cwestiwn: Sut mae unrhyw gynllun / prosiect yn cyfrannu i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg.<br>Mae'r Iaith Gymraeg yn cael ei thrin fel Thema trawsbynciol, a caiff ei asesu gyda sgôr fel rhan o'r broses asesu ceisiadau.<br><br>Adroddiadau ac astudiaethau achos yn cael eu creu yn ddwyieithog.<br>Marchnata a deunyddiau yn cael eu darparu'n ddwyieithog gan gynnwys gwefan Cynnal y Cardi.<br>Cynhelir cyfarfodydd Grŵp Gweithredu Lleol yn bennaf yn yr Iaith Gymraeg. | 11 wedi cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg<br>7 wedi rhoi cyflwyniad yn Gymraeg fel rhan o'r broses asesu<br><br>Cynlluniau penodol: Cymraeg yn y Gweithle, Academi Bro, Pecyn Croeso Ceredigion, Gorwel a Gwreiddiau, Ceredigion Bro360, Calon Tysul.<br><br>Ceir astudiaethau achos ar https://www.cynnalycardi.org.uk/astudiaethau-achos/ (Cymraeg yn y Gweithle ac Academi Bro). | Gwasanaeth Twf a Menter |
| | Sicrhau bod Cynllun Arfor sy'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru yn hyrwyddo entrepreneuriaeth, twf busnes, cydnerthedd cymunedol a'r Gymraeg yn rhanbarth Arfor yn yng Ngheredigion. | Datblygwyd dau becyn cymorth yng Ngheredigion:<br><br>'Mentro mewn Busnes' i gefnogi busnesau newydd i fentro a hybu entrepreneuriaeth. Cyfanswm y grant a uchafswm - £10,000. Cyfradd y grant – 80%<br><br>'Tyfu yw'r Nod' i gefnogi mentrau sy'n bodoli i annog twf a datblygiad. Cyfanswm y grant – £10,000 – £40,000. Cyfradd y Grant – 70% | 31 o geisiadau wedi cael eu cefnogi gyda'r prif amcan o hybu defnydd yr Iaith Gymraeg mewn busnes.<br><br>O ganlyniad y cynllun:<br>61.7 o swyddi wedi creu.<br>40.5 swyddi wedi ei diogelu.<br><br>Gwerthusiad o rhaglen Arfor 1 wedi'i gwblhau:<br>**https://www.rhaglenarfor.cymru/** | |
| | Sicrhau cyfleoedd i brentisiaid o fewn y Cyngor ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg wrth eu gwaith | Mae'r cynllun prentisiaethau wedi rhoi llwyfan i ddatblygu rhagor a chryfhau defnydd ein pobl ifanc o'r Gymraeg yn y gweithle. Gobaith y cynllun prentisiaethau yw parhau i gael effaith | Cafodd y cynllun ei sefydlu yn 2018: oddi ar hynny 18 wedi bod yn rhan o'r cynllun.<br>Mae 95% o'r holl brentisiaid hyd yn hyn yn siaradwyr Cymraeg (19 o Siaradwyr Cymraeg / 1 Dysgwr Cymraeg). | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg a dewisiadau ein pobl ifanc, a fydd yn ei dro yn arwain at well dealltwriaeth ymhlith pobl ifanc o'r galw am sgiliau Cymraeg yn y gweithle wrth iddyn nhw dyfu'n hŷn.<br>Mae'n ofynnol i ddarparwyr dysgu gynnig gweithgareddau a deunyddiau dysgu yn Gymraeg a mynd ati i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu ac asesu cymwysterau.<br>**Enghraifft o arfer da:**<br>Ar ddechrau eu prentisiaeth, gofynnir i'r dysgwyr a hoffent gwblhau eu hasesiadau cychwynnol trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnir iddynt hefyd pa iaith y byddai'n well ganddynt ei defnyddio ar gyfer eu haseiniadau ac maent yn cael eu hannog i gyflwyno unrhyw dystiolaeth lle maent wedi defnyddio eu Cymraeg e.e. e-byst neu bosteri.<br>Mae'r cyflwyniadau a ddefnyddir yn y gweithdai misol yn ddwyieithog ac yn amlygu geirfa Gymraeg allweddol ar gyfer y pwnc ac rydym yn trafod unrhyw eiriau eraill y mae dysgwyr yn eu defnyddio. Ar ddiwedd pob sesiwn, bydd dysgwyr yn adolygu'r eirfa er mwyn gweld beth maen nhw'n gallu ei gofio. Mae'r eirfa wedi ei godio'n goch/ambr/gwyrdd drwy anhawster felly gall pob prentis, waeth beth fo'u sgiliau Cymraeg, deimlo'n hyderus i 'roi cynnig arni'. Yn ogystal â hyn, mae pob dysgwr yn gorfod cwblhau o leiaf un | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | aseiniad ar ei brentisiaeth yn y Gymraeg. | | |

| **Amcan 3.3 Sicrhau cymunedau cynaliadwy lle y defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu arferol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Gweithred** | **Sylwadau Cynnydd** | **Dangosyddion** | **Partneriaid** |
| | Hyrwyddo cynaliadwyedd y Gymraeg drwy gyfrwng gweithdrefnau cynllunio defnydd tir, e.e.:<br>• cynnal ac adolygu y *Canllawiau Cynllunio Atodol – Y Gymuned a'r Iaith Gymraeg* yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol; a chryfhau'r cymal i godi arwyddion a hysbysiadau dwyieithog ar gyfer datblygiadau ee siopau cadwyn<br>• cynnal astudiaethau effaith ieithyddol ynghlwm wrth bob cam o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd<br>• | Mae saib yn y broses adolygu y CDLl, oherwydd Pandemig Covid-19, ynghyd ag effaith canllawiau cynllunio Cyfoeth Naturiol Cymru ar CDLl2, mae risg sylweddol y bydd y cynllun yn cael ei ystyried yn 'ddi-sail' drwy'r broses archwilio cyhoeddus ac nad yw'n addas i'r diben, oherwydd bod y mater ffosffad heb ei ddatrys.<br><br>Lluniwyd Papur Pwnc Drafft ar yr Iaith Gymraeg yn 2019 ar gyfer y Strategaeth a Ffafrir/Cyn Adneuo yn manylu ar oblygiadau:<br>• Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20<br>• Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant (Cymru) 2015 a'r nod llesiant; 'Cymru o ddiwylliant bywiog a iaith Gymraeg ffyniannus',<br>• Mesur y Gymraeg 2011<br>• Strategaeth y Gymraeg: Cymraeg 2050<br>• Deddf Cynllunio (Cymru) 2015<br>• PPW 10<br><br>Cyflwyno papur at sylw Cabinet (22 Chwefror 2022) a'r Cyngor (3 Mawrth 2022) ynghylch: Tai Cymunedol, gyda'r bwriad o gefnogi pobl leol i gael mynediad at dai drwy fodel Ecwiti a | 1 Asesiad Effaith Integredig, gyda'r canlyniad:<br>• Byddai Adolygiad a Diweddariad y CDLl yn cael ei gyflwyno'n ddwyieithog<br>• Bod y sir gyfan yn cael ei dosbarthu'n ieithyddol sensitif, a bod angen cynnal asesiad wrth gynigion Datblygu, oherwydd eu potensial i effeithio ar ddefnydd yr iaith Gymraeg<br>• Papur Pwnc ynglŷn â'r Gymraeg i gael ei ddatblygu yn ystod paratoi'r Cynllun Adnau (Deposit Plan)<br><br>Nifer yr ymgeiswyr a gymhwysodd i brynu eiddo fforddiadwy Disgownt ar Werth (Discount for Sale)<br>Rhwng 01.01.2017 a 21.11.2022: 163, 149 o'r rhai a gymhwysodd yn seiliedig ar gysylltiad lleol. 91%<br>Cysylltiad Lleol:<br>Tai fforddiadwy o dan y Cynllun Datblygu Unedol (y cynllun blaenorol): rhaid i unigolion fod wedi byw 10 o'r 20 mlynedd diwethaf yn y sir neu o fewn cynghorau cymuned cyfagos.<br><br>Tai fforddiadwy o dan y Cynllun Datblygu Lleol (y cynllun presennol): rhaid i unigolion fod wedi byw yn y sir am 5 mlynedd yn ystod eu hoes. | Gwasanaeth Cynllunio CSC |

<table>
<tr><td></td><td></td><td>Rennir. Sefydlwyd grŵp Tasg a Gorffen er mwyn edrych ar weithredu hyn ynghyd ag ystod o opsiynau tai eraill, mae’r gwaith yn mynd rhagddo.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Cynnal polisi o hyrwyddo tai fforddiadwy.</td><td>Pwrpas y Strategaeth Tai Lleol Ceredigion (2018-23) yw sicrhau y darperir gwasanaeth tai integredig er mwyn diwallu'r angen yn lleol, gan hefyd sicrhau diogelu treftadaeth, diwylliant a’r iaith Gymraeg o fewn cymunedau y Sir; a hynny yn benodol mewn ardaloedd sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae cefnogi cymunedau cyfredol yn allweddol i'r strategaeth hon, ac yn hanfodol ar gyfer llesiant y Gymraeg yng Ngheredigion.<br>Yn ogystal, mae'r Polisi Dyraniadau Cyffredin yn sicrhau bod rhaid bodloni meini prawf cysylltiad lleol er mwyn cael eu hystyried a derbyn cynnig ar gyfer Tai cymdeithasol, heb fawr o eithriadau. Gellir cwrdd â’r meini prawf cysylltiad lleol trwy drwy, bod yr ymgeisydd wedi byw yn y Sir am bum mlynedd yn union cyn dyddiad cyflwyno’r cais, neu trwy gyflogaeth, neu deulu sy'n byw yn yr ardal.</td><td>Ers 1 Ebrill 2017 tan 23 Tachwedd 2022, mae 1611 dyraniadau tai wedi'u gwneud yng Ngheredigion.<br>Gwnaed pob dyraniad yn unol â'r Polisi Dyraniadau Cyffredin ac yn sicrhau cysylltiad lleol â Cheredigion, neu mewn lleiafrif o achosion lle nad yw cysylltiad lleol yn berthnasol, dyraniadau wedi'u gwneud lle mae dyletswydd Digartrefedd yn berthnasol.<br><br>Mae 0.8% o ddefnyddwyr gwasanaeth yn nodi eu bod yn dymuno cysylltu yn Gymraeg, 4% yn dymuno gwneud hynny’n ddwyieithog, a’r gweddill yn Saesneg.</td><td>Gwasanaeth Tai</td></tr>
<tr><td></td><td>Parhau i ddefnyddio’r Cynllun Grant Cymunedol i gefnogi:<br>mudiadau a digwyddiadau cymunedol sy’n gwneud defnydd o’r Gymraeg neu sy’n ymrwymo i ddatblygu defnydd o’r Gymraeg; gan gynnwys Sioeau Amaethyddol ac Eisteddfodau Lleol.</td><td>O dan amodau’r grantiau, mae'n rhaid i bob ymgeisydd weithredu'n ddwyieithog i dderbyn grant. Mae hyn yn cynnwys -<ul><li>Cynhyrchu’r holl ddeunydd ysgrifenedig ac electronig sy’n gysylltiedig â’r cais yn ddwyieithog – er enghraifft arwyddion, taflenni, posteri, cyhoeddiadau, hysbysebion, gwefannau ac unrhyw slogan.</li></ul></td><td><table>
<tr><th></th><th>Nifer o geisiadau</th><th>Cyfanswm dosbarthwyd</th></tr>
<tr><td>2017/18 –</td><td>76</td><td>£189,344</td></tr>
<tr><td>2018/19 –</td><td>77</td><td>£197,826</td></tr>
<tr><td>2019/20 –</td><td>90</td><td>£243,689</td></tr>
<tr><td>2020/21 –</td><td>17</td><td>£92,794</td></tr>
<tr><td>2021/22 –</td><td>28</td><td>£119,567</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm –</td><td>288</td><td>£843,220</td></tr>
</table></td><td>Gwasanaeth Gyllid CS Ceredigion</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Sicrhau y bydd digwyddiadau neu weithgareddau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r cais yn peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. er enghraifft, cyhoeddiadau o'r uchelseinydd, Cadeirydd i sicrhau bod y rheiny sy'n bresennol yn y digwyddiad yn teimlo'n gyfforddus i gyfrannu yn eu dewis iaith.<br>• Cynorthwyo i ddarparu cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg | Mae'r gostyngiad oherwydd sgil effaith Cofid 19.<br><br>2021/22: 5/28 wedi cyflwyno eu ceisiadau yn Gymraeg. 18% | |
| | Gwasanaeth TG CSC yn ogystal â chyrff eraill i edrych am gyfleodd cynyddol i gynnwys y Gymraeg mewn technoleg, gan gynnwys systemau TG newydd, sefydliadau partner Fforwm Dyfodol Dwyieithog i godi ymwybyddiaeth, er mwyn cynyddu defnydd o ryngwynebau cyfrwng Cymraeg ee Microsoft, Facebook, apiau | Mae'r Gwasanaeth TG wrthi'n diweddaru meddalwedd, ac yn gosod Microsoft 365apps Office ar beiriannau staff. Mae yna wirydd sillafu Cymraeg yn Office.<br><br>Mae modd defnyddio rhyngwyneb Microsoft yn Gymraeg, a ceir cyfarwyddiadau sut i wneud hyn ar CeriNet.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn cynnal CeriNet mewnrwyd y Cyngor – mae'r mewnrwyd yn gweithio yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae angen dewis iaith o'r tudalen gartref, ac yna gellid symud o un tudalen i un arall yn yr iaith ddewisol<br>Mae Swyddog Polisi Iaith yn cynnal tudalennau 'Iaith ar Waith' ar CeriNet (mewnrwyd y Cyngor) sy'n darparu deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd angen cynnal adolygiad o gynnwys y tudalennau, a diweddaru yn y flwyddyn i ddod. | Defnydd o'r Gymraeg mewn prosiectau Technoleg Gwybodaeth yn cynyddu ar draws y Cyngor | Gwasanaeth TG |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Darparu gwybodaeth i newydd-ddyfodiad drwy gyfrwng gwefan symud i Geredigion | Yn dilyn cais llwyddiannus ar gyfer grant Cynnal y Cardi, wedi penderfynu llunio prosiect 'Croeso Ceredigion;<br><br>Bwriad y prosiect yw cynnal hyfywedd cymunedau trwy amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael i gyfrannu a chefnogi'n lleol, ac i helpu personau i ddeall sut mae'r Gymraeg yn gweu i fewn i fywyd diwylliannol a chymdeithasol y Sir. Bydd y prosiect yn gynhwysol, gan ddwyn ynghyd siaradwyr Cymraeg, siaradwyr swil, dysgwyr y di-Gymraeg a'r rhain sy'n gwbl newydd i'r Gymraeg. Bydd y prosiect yn anelu at sicrhau perchnogaeth gan y gymuned, gan arfogi'r gymuned ei hunain i fynd i'r afael a'r heriau sy'n gysylltiedig â mewnfudwyr.<br><br>**Cynhyrchu Cerdyn Post gweledol**, fydd yn gosod Cod QR sy'n cyfeirio newydd ddyfodiaid at becyn croeso.<br>**Cynhyrchu e-lyfr** sy'n rhoi cyflwyniad i fywyd mewn Sir ddwyieithog.<br>Fel rhaglen beilot dethol **3 Cyngor Cymuned a Threfol**, lle bo problem mewnfudo fwyaf amlwg. Gweithio gyda'r Cyngor i weithredu cynllun gweithredu lleol<br>**Gweithdai cymunedol** (targedu grwpiau cymdeithasol sydd wedi sefydlu'n barod yn yr ardal leol) – gweithio'n agos gyda cymunedau i'w harfogi i fynd i'r afael a'r heriau sy'n gysylltiedig â mewnfudwyr. | Mae'r adnoddau yn cael eu dylunio ar hyn o bryd, a bydd y gwaith cymunedol yn dechrau ym mis Mawrth. | Uned Iaith Gymraeg<br>Menter Iaith Cered |